



AHNE BRYNIAU CLWYD

STRATEGAETH TWRISTIAETH GYNALIADWY A CHYNLLUN GWEITHREDU

Y Cwmni Twristiaeth

2008 - 2013



CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL

CYFLWYNIAD	3
1 ASESIAID	7
1.1 Trosolwg economaidd a chymdeithasol	7
1.2 Adnoddau bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth a diwylliant	9
1.3 Cyfleusterau, amwynderau a gwasanaethau twristiaeth	10
1.4 Hygyrchedd a Thrafnidiaeth	15
1.5 Gweinyddiaeth Twristiaeth	15
1.6 Marchnata, gwybodaeth a dehongliad cyfredol	18
1.7 Ymwelwyr presennol	19
1.8 Canfyddiad ymwelwyr	22
1.9 Perfformiad a gofynion menter	23
1.10 Adborth cyfranogwyr	23
1.11 Tueddiadau'r farchnad	25
1.12 Dadansoddiad SWOT	26
2 STRATEGAETH	28
2.1 Fframwaith polisi cyfredol	28
2.2 Gofynion y Siarter Ewropeaidd	31
2.3 Ymdriniaeth strategol	30
2.4 Gweledigaeth	31
2.5 Marchnadoedd targed	32
2.6 Amcanion	33
2.7 Dangoswyr	33
3 GWEITHRED	35
1 I godi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r holl sydd i'w gynnig i ymwelwyr, annog fforio ac arhosiad hirach	35
2 I ddatblygu a gwella cyfres o brofiadau ymwelwyr yn seiliedig ar hamdden awyr agored a gwerthfawrogiad o dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal	38
3 I annog a chefnogi mentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth i ddatblygu a gwella'r adnoddau a'r gwasanaethau, y rheolaeth amgylcheddol, a'u perthynas â'r AHNE	41
4 I wella rheolaeth o lif yr ymwelwyr i'r Bryniau, yn cynnwys yr effaith ar yr amgylchedd a chymunedau yn yr AHNE a'r ardal o amgylch.	43
5 I gryfhau dealltwriaeth o'r ymwelwyr i'r AHNE ac effeithiau twristiaeth ar yr ardal	45
4 TROSLUDO	49
Ariannu	54
ATODIAD 1: ARCHWILIAD O GYFLEUSTERAU YMWELWYR YM MRYNIAU CLWYD	56
Llety	56
Atyniadau	57
Darparwyr gweithgareddau	57
Adwerthu	61
Bwyd a diod	59
ATODIAD 2: CANLYNIADAU AROLWG Y FENTER	60
ATODIAD 3: CYD-DESTUN Y POLISI	68

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE) yn un o nifer fechan o leoliadau yng Nghymru sydd wedi ei dynodi oherwydd ansawdd eithriadol ei thirwedd, sy'n gysylltiedig â'i threftadaeth hanesyddol a diwylliannol. Mae'r ansawdd yma'n golygu fod gan y Bryniau swyddogaeth arwyddocaol iawn yn apêl gyffredinol Gogledd Cymru o ran twristiaeth. Ar yr un pryd, gall twristiaeth ddarparu ffynhonnell incwm a ffyniant ar gyfer cymunedau lleol sy'n byw yn ac o gwmpas y Bryniau.

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hyn yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu twristiaeth ym Mryniau Clwyd sy'n seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd, gan roi sylw llawn o'r angen i ddiogelu amgylchedd a threftadaeth arbennig yr ardal a chynnal ansawdd bywyd y cymunedau lleol. Mae'n seiliedig ar asesiad manwl o adnoddau, anghenion a chyfleoedd yr ardal ac mae wedi ymglymu ymgynghori eang â diddordebau lleol yn ac o gwmpas yr AHNE.

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer twristiaeth a datblygiad cynaliadwy. Yn benodol, mae'n berthynol iawn i Strategaethau Datblygu Gwledig i Sir Ddinbych a Sir Fflint, sy'n rhoi pwyslais sylweddol ar gyfleoedd yn yr ardal hon ar gyfer twristiaeth wledig gynaliadwy. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar flaenoriaethau a pholisïau Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a mentrau perthynol, fel y prosiect Grug a Bryngaerau a'r Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol. Mae hefyd yn cydymffurfio â 12 egwyddor y Siartr Ewropeaidd ar Dwristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd sydd wedi eu Diogelu ac mae'n ffurfio sail i gydnabyddiaeth Bryniau Clwyd dan y siartr hon.

Fe nodir y dull strategol canlynol:

- Cydnabod Bryniau Clwyd fel gem yng nghoron cynnyrch twristiaeth Gororau Gogledd Cymru (a'r tu hwnt i hyn o fewn Gogledd Cymru a Chymru gyfan) yn seiliedig ar gyrchiad hawdd i dirwedd eithriadol a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol cysylltiedig.
- Rhoi blaenoriaeth uchaf i warchod yr amgylchedd a rhinweddau arbennig yr ardal, ac i reolaeth ymwelwyr, fel sail i dwristiaeth gynaliadwy, a chael cydnabyddiaeth am hyn ar lefel genedlaethol ac Ewropeaidd.
- Datblygu ac ymestyn ystod o brofiadau gwahanol i ymwelwyr, wedi eu hategu gan adnoddau a gwasanaethau ymwelwyr o ansawdd uchel, yn seiliedig yn anad dim ar weithgareddau'r awyr agored a dehongliad o dreftadaeth.
- Ceisio mwy o adenillion i'r economi leol gan bobl sy'n dod i'r Bryniau, ymestyn hyd eu harhosiad a'u gwariant y pen.
- Helpu mentrau sy'n berthynol i dwristiaeth¹ i ddeall rhinweddau arbennig y Bryniau, i uniaethu ag o, i gydweithio, a throsglwyddo'r rhinweddau hyn i ymwelwyr.
- Dilyn polisi rheoli ymwelwyr gweithredol, yn seiliedig ar ddarparu cyfleusterau ardderchog mewn safleoedd allweddol penodol, anogaeth gall o ffordiad a gwasgariad, a hyrwyddo mynediad sy'n fwy amgylcheddol gyfeillgar.
- Gweithio gyda chymunedau lleol i gael mwy o fudd o dwristiaeth ac i isafu pwysau arnyn nhw.
- Ychwanegu gwerth at y cynnyrch twristiaeth, ac felly ffyniant yr economi yng ngweddill Sir Ddinbych a Sir Fflint, ac yn enwedig yn y trefi mynediad sydd o amgylch, sef Yr Wyddgrug, Rhuthun, Dinbych a Phrestatyn.

¹ Mae hyn yn cynnwys mentrau gwledig fel siopau, tafarnau, garejys a swyddfeydd post, oherwydd eu rhan hanfodol ym mhrofiad yr ymwelydd

- Elwa ar y gwasanaethau a'r atyniadau cyflenwol sydd ar gael yn yr ardal o gwmpas a'r trefi mynediad.

Paratowyd cynllun gweithredu, yn seiliedig ar bump o amcanion ymarferol:

- 1. I godi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r cwbl sydd ganddi i'w gynnig i ymwelwyr, annog fforio ac arosiadau hirach**
Marchnata canolfannau gweithredol gyda diffiniad a thafluniad cryfach o frand Bryniau Clwyd, i'w dewis a'u defnyddio gan ystod eang o fuddgyfranogwyr mewn gweithgaredd hyrwyddol. Gwefan well fydd y prif gyfrwng ar gyfer denu a hysbysu ymwelwyr, gyda chefnogaeth print cyfeiriadaeth a dargludiad gwybodaeth leol ac arwyddion gwell.
- 2. I ddatblygu a gwella profiadau ymwelwyr yn seiliedig ar hamdden awyr agored a gwerthfawrogiad o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal.**
Nodir gweithgareddau i gryfhau cynnig twristiaeth gweithgareddau'r ardal, gan ganolbwyntio ar gerdded, beicio mynydd, beicio, merlota a physgota, drwy rwydweithio, marchnata, gwella'r isadeiledd a datblygu cynnyrch. Mae gweithrediadau pellach yn ceisio mwy o fudd twristiaeth o ddigwyddiadau ac o ddehongli treftadaeth naturiol a hanesyddol yr ardal.
- 3. I annog a chefnogi mentrau sy'n berthynol i dwristiaeth wrth ddatblygu a gwella adnoddau a gwasanaethau, rheolaeth amgylcheddol, a'u perthynas â'r AHNE**
Mae gweithrediadau i gefnogi busnesau cynaliadwy lleol yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r AHNE, annog rheolaeth amgylcheddol gadarn, annog cefnogaeth i gadwraeth, cefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad a sicrhau cymhwysiad polisiâu cynllunio addas.
- 4. I wella rheolaeth llif ymwelwyr i'r Bryniau ac o'r Bryniau, yn cynnwys yr effaith ar yr amgylchedd a'r cymunedau o fewn yr AHNE a'r ardal o amgylch.**
Argymhellir mesurau penodol i wella profiad a rheolaeth yr ymwelydd mewn safleoedd allweddol. Mae gweithrediadau pellach yn ceisio gwella'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cryfhau cysylltiadau gyda threfi mynediad, gwella rheolaeth a dehongliad pentrefi unigol a gwella mynediad i bawb.
- 5. I gryfhau dealltwriaeth o'r ymwelwyr i'r AHNE ac effeithiau twristiaeth ar yr ardal.**
Mae'r strategaeth yn argymhell gwahanol ddangoswyr ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a gweithrediadau monitro yn seiliedig ar arolygon, adborth ac arsylliad.

Argymhellir y dylai twristiaeth gynaliadwy ym Mryniau Clwyd, yn cynnwys gweithrediad y strategaeth a'r cynllun gweithredu, gael eu goruchwylio gan is-bwyllgor Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE, a ddylai gynnwys cynrychiolwyr o ystod o wahanol ddiddordebau cyfranogwyr. Yn ogystal, dylid sefydlu fforwm cysylltiadau ehangach. Mae angen swydd swyddog twristiaeth gynaliadwy i yrru gweithrediad ymlaen a chydlynu gwaith eraill. Mae'r gweithrediadau a argymhellir yn unol â blaenoriaethau nifer o wahanol

ffynonellau ariannu, yn cynnwys Rhaglenni Datblygu Lleol, ariannu Cydgyfeiriad, Interreg 4, a chynlluniau mwy penodol fel Cronfa Datblygiad Cynaliadwy'r AHNE.

CYFLWYNIAD

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE) yn ardal sydd wedi ei diogelu ac fe'i lleolir yng ngogledd ddwyrain Cymru, yn agos at y ffin â Lloegr. Mae'r AHNE yn cynnwys yn bennaf gefnen gul o fryniau tonnog sy'n ymestyn tua 35km i'r de o dref arfordirol Prestatyn, ar Fôr Iwerddon. Mae'r ardal oddeutu 160 cilomedr sgwâr ac yn codi i uchder o 554 medr ym Moel Famau yng nghanol y Bryniau.

Mae'r rhan fwyaf o'r AHNE o fewn Sir Ddinbych, gydag ardal lai yn Sir Fflint. Fe lywodraethir yr AHNE gan Gydbwyllgor Ymgynghorol, corff ymgynghorol anweithredol sy'n cynnwys 21 o aelodau o awdurdodau lleol, pobl sydd â diddordebau mewn amaethyddiaeth, mynediad, twristiaeth, busnesau a chadwraeth. Fe reolir yr AHNE cyfan gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych²(gyda chytundeb Cyngor Sir Fflint).

Pwrpas dynodiad yr AHNE yw diogelu a gwella harddwch naturiol yr ardal, yn cynnwys ei fflora, ffawna, nodweddion daearyddol a thirweddol a'i threftadaeth hanesyddol a diwylliannol. Wrth ddilyn y pwrpas hwn, dylid ystyried anghenion economaidd a chymdeithasol y cymunedau a'r gwahanol ddiwydiannau gwledig. Er nad yw'n bwrpas statudol i'r dynodiad, cydnabyddir y dylid cyfarfod â gofynion hamdden, cyn belled â bod hyn yn gyson â chadwraeth yr ardal ac anghenion defnyddwyr eraill.

Mae'r AHNE yn ceisio dilyn llwybr datblygiad cynaliadwy (gofyniad statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru), sy'n rhoi pwysigrwydd dwysach i'r rhyngweithiad rhwng cadwraeth ac anghenion hamdden, yr economi leol a chymunedau.

Fe ystyrir twristiaeth yn weithgaredd allweddol o fewn Bryniau Clwyd, gan ei fod yn darparu ffynhonnell ffyniant sydd, ynddo'i hun, yn dibynnu ar gynnal ansawdd arbennig yr ardal, felly'n darparu cefnogaeth a chyfiawnhad dros eu diogelu.

Yn 2007, fe gomisiynwyd y Cwmni Twristiaeth gan y ddau gyngor sir, Cadwyn Clwyd³, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i baratoi Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd. Cytunwyd y dylai hyn gydymffurfio â gofynion y Siarter Ewropeaidd ar Dwristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd sydd wedi eu Hamddiffyn (a elwir yn Siarter Ewropeaidd o hyn ymlaen)⁴. Fe ariannwyd yr adroddiad ar y cyd drwy Raglen Ewropeaidd LEADER+ Cadwyn Clwyd a Chronfa Datblygiad Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd.

² Er fod yna Swyddog AHNE i'r pwrpas, mae'r rhan fwyaf o waith y Gwasanaeth yn cynnwys y sir gyfan, a dim ond rhan ohoni yw'r AHNE.

³ The LEADER + Grŵp Gweithredu Lleol dros Sir Ddinbych a Sir Fflint

⁴ Lluniwyd gan Ffederasiwn EUROPARC. Gwneir cais am gydnabyddiaeth i Fryniau Clwyd yn y Siarter yn 2008.

Paratowyd y strategaeth yn dilyn cyfnod estynedig o asesiad ac ymgynghoriad. Roedd hyn yn golygu:

- Gwerthusiad o bob polisi cyfredol a strategaethau yng Nghymru, Gogledd Cymru, Sir Ddinbych a Sir Fflint
- Asesiad o arolygon a fu a gwybodaeth bresennol ar adnoddau'r AHNE, ymwelwyr i'r Bryniau a pherfformiad twristiaeth yn yr ardal
- Trafodaethau gyda swyddogion o'r AHNE, yr awdurdodau lleol, a'r prif asiantaethau a sefydliadau sydd â diddordeb mewn twristiaeth a rheolaeth yn yr ardal
- Arolwg post o'r holl fentrau twristiaeth sydd o fewn yr AHNE a sampl o'r prif fentrau twristiaeth yn yr ardal sy'n union oddi amgylch. Dychwelwyd cyfanswm o 48 o holiaduron, sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 33%. Daeth 71% o'r ymatebion gan fentrau o fewn yr AHNE, a 29% gan fentrau y tu allan i'r Bryniau.
- Gweithdai a gynhaliwyd mewn tri lleoliad o fewn y Bryniau, wedi eu hyrwyddo'n agored drwy bosteri a gwahoddiadau a ddosbarthwyd yn eang, gan ddenu tua 70 o gyfranogwyr o'r cymunedau lleol, mentrau preifat, diddordebau cadwraethol a'r awdurdodau lleol.
- Paratoi a dosbarthu adroddiad interim ar gyfer sylwadau.

1 ASESIAD

Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad ffeithiol o adnoddau twristiaeth a marchnadoedd yr AHNE ac asesiad o effeithiau a materion. Mae'n seiliedig ar ddata a dogfennau a gafwyd gan AHNE Bryniau Clwyd, arolygon a wnaethpwyd, ymgynghoriad gydag ystod o gyfranogwyr, cyfres o weithdai lleol a dyfarniad proffesiynol yr ymgynghorwyr eu hunain.

Mae'r bennod yn diweddu drwy grynhoi'r asesiad mewn datganiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.

1.1 Trosolwg economaidd a chymdeithasol

Ychydig iawn o wybodaeth sydd yna ar economi a chymunedau'r AHNE ei hun. Gellir canfod peth o bwysau economaidd a chymdeithasol yr ardal o amgylch, a allai effeithio ar yr AHNE yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, oddi wrth ddata sydd ar gael ar gyfer siroedd Dinbych a Fflint.

Poblogaeth

Poblogaeth Sir Ddinbych yw 93,065⁵ ac mae bron i hanner hynny'n byw yn nhrefi gogleddol Y Rhyl a Phrestatyn. Mae gan Sir Fflint boblogaeth o 148,594 ac mae dros chwarter y rheiny'n byw yng Nglannau Dyfrdwy. Mae twf y boblogaeth yn y ddwy sir ymhell dros y cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU gyda'i gilydd gyda thwf o 4.4% yn Sir Fflint rhwng cyfrifiadau 1991 a 2001 censuses, a 4.1% yn Sir Ddinbych. Mae hyn i'w gymharu â thwf o 1% yng Nghymru a 2.4% yn y DU. Caiff hyn ei yrru gan gynydd sylweddol ym mhoblogaeth y rhai hynny dros 50 oed, ond mae'n cuddio colled sylweddol ym mhoblogaeth yr oeddrannau 20-34⁶ fydd yn cael effaith yn y dyfodol ar anghenion iechyd a'r gweithlu.

Mae astudiaeth ddiweddar ar dwristiaeth yn Nyffryn Clwyd gerllaw yn dangos fod y boblogaeth sydd o fewn amser gyrru o 60 munud i'r ardal bron yn 1 filiwn ac o fewn amser gyrru o 90 munud mae bron yn 4.5 miliwn.

Economi a Chyflogaeth

Mae cyflogaeth yn Sir Ddinbych wedi ei grynhoi mewn dwy sector - dosbarthu, gwestai ac arlwyaeth (25% o swyddi yn 2004); a sectorau difarchnad gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (40%). Dim ond 13% o gyflogaeth ddaw o'r sectorau cynhyrchu ac amaethyddiaeth. Mae nifer fawr o drigolion Sir Ddinbych yn teithio i gyfleoedd cyflogaeth i ddwyrain y sir (Sir Fflint a Gogledd Orllewin Lloegr). Ystyrir fod darparu mwy o gyflogaeth yn ardaloedd cartref pobl yn flaenoriaeth am resymau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae sylfaen gynhyrchu fwy i Sir Fflint na Sir Ddinbych ac mae wedi derbyn cryn dipyn yn fwy o fuddsoddiad o'r tu allan yn ystod y degawd diwethaf. Mae gweithgareddau sylfaenol fel amaethyddiaeth wedi dirywio o dros 50% ers 1991. Mae'r sector gwasanaethau'n darparu 40% o gyflogaeth Sir Fflint.

⁵ Data poblogaeth o Gyfrifiad 2001

⁶ Strategaeth Twf Economaidd Sir Ddinbych a Phroffil o Sir Fflint 2003

Mae gweithgaredd economaidd Sir Fflint yn uchel gyda 79% o'r bobl yn 'actif' (o'i gymharu â 73% yng Nghymru). Fodd bynnag, mae gan Sir Ddinbych lefel uwch o anactifedd economaidd gydag ond 62% yn 'actif'. Mae hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Ddinbych ac all-lifiad y rhai sydd yn oed gwaith. Mae diweithdra'n 2.3% yn Sir Fflint ac ychydig yn uwch yn Sir Ddinbych, sef 5.5%.

Mae gan Sir Ddinbych statws 'Ardal Gynorthwyedig' Haen 1, sy'n darparu cyrchiad i raddfeydd uchaf o gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ddiwydiant yn y DU. Fe gymhwysodd y sir hefyd ar gyfer Ariannu Strwythurol Amcan 1 gan yr Undeb Ewropeaidd a bydd yn parhau i gymhwyso ar gyfer ariannu Cydgyfeiriad dan y rhaglen newydd. Mae twristiaeth wedi elwa'n sylweddol o gronfeydd Amcan 1. Bydd y cronfeydd Cydgyfeiriad yn canolbwyntio ar yr economi wybodaeth ac Agenda Lisbon (swyddi a thwf). Mae hyn yn darparu potensial ar gyfer twristiaeth, ond mewn ffordd wahanol o'i gymharu ag Amcan 1. Bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn darparu ffynonellau mwy amlwg o arian yr UE ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy yn ac o gwmpas Bryniau Clwyd.

Materion cymdeithasol

Tra bo cyfartaledd enillion y rheiny sy'n byw yn Sir Ddinbych a Sir Fflint yn gymharol uchel, mae enillion y rhai sy'n gweithio yn y siroedd yn is na'r cyfartaledd. Mae angen swyddi sy'n talu'n well ac sydd o ansawdd gwell a fydd yn annog trigolion i weithio yn yr ardal leol a gwario eu hincwm yno.

Problem arbennig yng nghefn gwlad Sir Ddinbych a Sir Fflint, yn cynnwys y AHNE, yw prisiau cynyddol y tai. Caiff hyn ei yrru gan bobl o'r tu allan i'r ardal sy'n dewis ymddeol yn ei hamgylchedd heddychlon. Golyga hyn fod pobl leol yn cael eu priso allan o'r farchnad ac, ar yr un pryd, mae oedran y boblogaeth yn heneiddio.

Yr Economi Dwristiaeth

Yn 2006, roedd refeniw twristiaeth yn Sir Ddinbych yn £238.3miliwn, yn Sir Fflint £152.8 miliwn⁷. Amcangyfrifwyd fod y sector yn cynhyrchu 3,895 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol yn Sir Ddinbych a 2,235 yn Sir Fflint. Yn Sir Ddinbych wledig roedd refeniw twristiaeth yn £91.4 miliwn a'r sector yn uniongyrchol gyfrifol am 1,776 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Yn y ddwy sir, siopa a bwyd & diod sy'n gyfrifol am wariant uchaf yr ymwelydd - 22% a 19% yn ôl eu trefn yn Sir Fflint, a 23% a 18% yn Sir Ddinbych Wledig. Mae llety'n cyfrif am 12% yn unig o wariant twristiaeth yn Sir Fflint a 10% yn Sir Ddinbych Wledig, sy'n adlewyrchu niferoedd uchel yr ymwelwyr dyddiol.

Mae ymwelwyr dyddiol yn cyfrif am 81% o holl ymwelwyr Sir Ddinbych Wledig a 72% o holl ymwelwyr Sir Fflint, ond dim ond 45% a 33% o refeniw twristiaeth y maent yn ei gynhyrchu, yn ôl eu trefn. Bydd yr ymwelwyr sy'n gwario fwyaf yn y ddwy sir yn aros mewn llety â gwasanaethau gan wario, ar gyfartaledd, £101.52 y diwrnod yn Sir Fflint a £88.26 y diwrnod⁸ yn Sir Ddinbych Wledig. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cynhyrchu mwy o arosiadau dros nos, yn enwedig mewn llety â gwasanaethau. Mae'n ddiddorol sylwi fod ymwelwyr sy'n aros gyda ffrindiau neu berthnasau yn gwario dros £10 y diwrnod yn fwy nag ymwelwyr dyddiol.

⁷ Ffigurau STEAM

⁸ STEAM 2006

1.2 Adnoddau bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth a diwylliant

Cynnyrch mwyaf nodedig yr ardal yw ansawdd y dirwedd. Mae Bryniau Clwyd yn un o ddim ond pump AHNE a thri pharc cenedlaethol yng Nghymru.

Daw cyfoeth y dirwedd o gyfuniad o ucheldir tonnog, yn cynnwys rhostir grugog agored a brigiadau creigiog, ffermdir braf a dyffrynnoedd coediog. Mae'r ardal wedi ei bendithio â golygfeydd eang i bob cyfeiriad. Mae gwrychoedd deniadol, waliau cerrig a nifer o bentrefi bach darluniaidd yn ychwanegu at yr apêl weledol drawiadol.

Canlyniad amrywiaeth daeareg, topograffeg ac arferion rheoli tir yn y gorffennol yn yr ardal yw geoamrywiaeth a bioamrywiaeth amrywiol cyfoethog. Mae hyn yn cynnwys rhostir grugog gyda'i ystod eang o adar yn cynnwys y rugiar, crec penddu'r eithin a chrec y garreg. Mae nifer o safleoedd o fewn y AHNE sydd o werth cadwraeth natur yn cynnwys wyth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, un Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) a Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Pwysig (SGRHP) a Gwarchodfeydd Natur (GN).

Mae tirwedd gyfoethog Bryniau Clwyd yn ganlyniad prosesau daearyddol du'n weithredol dros 500 miliwn o flynyddoedd. Mae'r dirwedd o ucheldir grugog, dyffrynnoedd wedi eu cerfio gan rew, calchfaen creigiog, tir amaethyddol tonnog a dyffrynnoedd coediog yn adnodd unigryw ac ysblennydd. Mae llaw dyn wedi dylanwadu ar yr ardal am filoedd o flynyddoedd. Mae'r Bryniau'n cynnwys safleoedd Oes y Cerrig Cynnar a nifer o gofadeiladau claddu'r Oes Efydd. Fodd bynnag, bryngaerau'r Oes Haearn sy'n coroni'r Bryniau, yw nodweddion archeolegol mwyaf amlwg a mwyaf adnabyddus yr ardal. Mae'n debyg fod eu swyddogaeth, yn amddiffynol ac fel safleoedd arddangos, yn amrywio o ganolfannau rheoli tiriogaethau oedd yn ymestyn i lawr Bryniau Clwyd, ar draws y Dyffryn ac i fyny i'r bryniau tu hwnt, i fannau ymgynnull llwythol a phori haf neu safleoedd defodol.

Mae llawer o batrwm y dirwedd sydd i'w weld heddiw o bentrefi a ffermydd unig yn dyddio o'r cyfnod canoloesol, ac mae eglwysi o darddiad canoloesol (rhai o steil canol dwbl sy'n unigryw i'r ardal) mewn pentrefi o fewn yr AHNE.

Mewn canrifoedd diweddarach, gwelodd y Bryniau ddatblygiad ystadau parcdir mawr yn cynnwys Gelli Aur a Cholomendy. Datblygodd rhai ohonynt yn dilyn casgliad cyfoeth a gafwyd drwy ymestyniad diwydiannau lleol, cloddio plwm yn arbennig, ac mae olion helaeth o'r gweithgaredd cloddio hwn yn dal i'w gweld mewn ardaloedd calchfaen.

Fe agorwyd Llwybr Clawdd Offa yn haf 1971, gan gysylltu Sedbury Cliffs ger Chepstow ar lannau aber Afon Hafren â thref arfordirol Prestatyn ar lannau Môr Iwerddon.

Fe'i henwyd ar ôl, ac yn aml mae'n dilyn, y Clawdd ysblennydd y gorchmynnodd y Brenin Offa ei adeiladu yn yr wythfed ganrif, mae'n debyg i rannu ei deyrnas Mercia oddi wrth deyrnasoedd gwrthwynebus yn yr hyn sy'n awr yn Gymru.

Mae'r Llwybr, sy'n 177 milltir / 185 kilometr yn mynd drwy ddim llai nag wyth o wahanol siroedd ac yn croesi'r ffin rhwng Lloegr a Chymru dros 20 o weithiau. Mae'r Llwybr yn fforio'r Gororau tawel (fel y gelwir ardal y ffin) ac yn mynd drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar yr Hatterall Ridge ysblennydd. Yn ogystal mae'n cysylltu dim llai na thair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - Dyffryn Gwy, Bryniau Shropshire a Bryniau Clwyd.

Er bod yna sôn fod rhai pobl wedi cwblhau'r Llwybr mewn pedwar diwrnod, mae pythefnos yn fwy tebygol ar gyfer y daith. Wrth gwrs, mae llawer o bobl yn dewis cwblhau rhannau byr ar daith dydd neu gwblhau'r Llwybr cyfan dros nifer o wythnosau, misoedd neu flynyddoedd! Mae yna fannau rheolaidd i aros, bwyta, ac yfed yng nghyffiniau'r Llwybr ac mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i'r mannau allweddol.

Pentrefi

Mae tua 18 o bentrefi o fewn neu ar gyrion yr AHNE sy'n darparu canolbwynt naturiol i ymwelwyr i'r Bryniau ac maent fel pyrrh i fforio ymhellach ar droed. Mae deg o'r pentrefi hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Fel rheol fe ddefnyddiwyd deunydd adeiladu lleol ac mae hyn wedi rhoi cymeriad nodedig i'r adeiladau a'r anheddau. Mae cyfres o lyfrynau dan y teitl "Pentrefi Bryniau Clwyd" wedi eu hariannu via Cronfa Ddatblygu Gynaliadwy, a'r diweddaraf i'w gynhyrchu yw Maeshafn. Fodd bynnag, mae gan rai o'r pentrefi mwyaf deniadol - Cilcain, Llanasa, Llanarmon yn Iâl - broblemau oherwydd niferoedd yr ymwelwyr a'r ceir ar adegau arbennig, gydag effaith negyddol ar drigolion lleol.

1.3 Cyfleusterau, amwynderau a gwasanaethau twristiaeth

Llety

Mae yna dros 60 o gyfleusterau llety ym Mryniau Clwyd, fel y'u nodir yn yr archwiliad cynnyrch (gweler Atodiad 2). Mae rhan fwyaf y cyfleusterau'n westai bach neu Wely & Brecwast, gyda nifer sylweddol yn dafarndai gydag ystafelloedd. Mae yna nifer fechan o gyfleusterau hunan arlwygo a safleoedd gwersylla teithiol. Mae ychydig o safleoedd carafannau sefydlog o fewn yr AHNE.

Ffig 1: Llety graddedig o fewn yr AHNE

Enw'r llety	Math	Pentref	Nifer y stafelloedd	Gradd
Bach Y Graig	G+B	Llanelwy	3	BCC 4*fferm
Bryn Tirion Cottages	G+B	Ger yr Wyddgrug	2	BCC 4* G&B
Eryrys Caravan Park	C+G	Eryrys		BCC 4*PG
Gwalia	HA	Llangynhafal	2	BCC 4 seren
Hafan Deg	G+B	Ger yr Wyddgrug	3	BCC 3 seren
Hillcrest	HA	Maeshafn	1 uned	BCC 4*HA
Llainwen Ucha	G+B	Rhuthun	3	BCC 2*Fferm
Minford Campsite	C+G	Llanbedr DC	25	Yn aros
Parc Carafannau Parc Farm	Carafán	Llanarmon-yn-iâl	Sefydlog	BCC3*T&PG
Parc Carafannau Penisar Mynydd	C+G	Ffordd Caerwys	42	BCC4*T&PG
Parc Carafannau Station House	C+G	Bodfari		BCC3*Parc
The Clwyd Gate	G+B	Llanbedr DC	10	BCC3*porthdy
The Druid Inn	G+B	Llanferres	5	BCC43*Tafarn
The Old Mill Hotel	G+B	Nannerch	6	BCC3*
Yr-Hen-Feudy	G+B	Rhuthun		4*G&B

Mae llety yn ac o gwmpas y Bryniau yn tueddu i fod wedi ei leoli mewn neu yn agos at y pentrefi, ac yn enwedig ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ond ar wahân i hynny mae wedi ei ledaenu drwy'r ardal gyfan fel bod y cyflenwad yn gytbwys ar draws yr AHNE.

Ar hyn o bryd dim ond 15 o'r cyfleusterau sydd wedi eu graddio gan Fwrdd Croeso Cymru, gydag un yn disgwyl i'w raddio. Felly mae ansawdd llety'n gyffredinol yn anodd ei fonitro. Efallai fod cyfran yr eiddo graddedig yn adlewyrchu natur graddfa fechan y busnesau, sy'n eiddo i unigolion, rhai ar ffermydd, eraill gan bobl wedi ymddeol sydd wedi symud i'r ardal, ac eraill gan berchnogion 'life-style'. Datgelodd yr ymgynghoriad fod llawer o bobl yn digalonni oherwydd biwrocratiaeth a'r costau sydd ynghlwm â graddio.

Mae llety yn y trefi cyfagos yn bwysig i'r AHNE, a vice versa. Mae Rhuthun a'r Wyddgrug yn cael eu hystyried fwyfwy fel trefi mynediad i'r AHNE. Mae sawl gwesty amrywiol o safon yn Rhuthun, a'r rhan fwyaf ohonynt gyda golygfeydd ar draws y Bryniau. Mae llai o westai yn yr Wyddgrug gyda mwyafrif y stoc welyau wedi eu lleoli mewn pentrefi y tu allan. Mae gan Brestatyn botensial i fod yn ganolfan lety bwysig yn y gogledd, ar ddiwedd Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ond mae nifer y llety sydd â gwasanaeth yn y dref yn gyfyngedig.

Atyniadau i Ymwelwyr

Mae atyniadau i ymwelwyr o fewn yr AHNE wedi eu seilio gan fwyaf ar fforio a dealltwriaeth o'r dirwedd. Caiff pob un ond un ei reoli gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Sir Fflint a/neu'r Comisiwn Coedwigaeth.

Parc Gwledig Loggerheads Mae'n eiddo i ac yn cael ei reoli gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych, yw un o'r prif atyniadau i ymwelwyr yn yr ardal, yn derbyn tua 180,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae gan y parc gwledig sy'n 85 acer gyfleusterau helaeth ar gyfer ymwelwyr yn cynnwys canolfan ymwelwyr fechan a siop, ardal bicnic, toiledau a chaffi. Mae yno hefyd ddau lwybr sydd wedi eu harwyddo, llwybr treftadaeth ddiwydiannol a llwybr darganfod. Mae'r maes parcio'n un o'r rhai mwyaf yn yr AHNE ond ar amseroedd prysur mae lle yn brin.

Parc Gwledig Moel Famau Mae'n cynnwys dros 2000 acer o ucheldir, wedi ei ganoli ar Foel Famau, y copa uchaf ym Mryniau Clwyd. Mae iddo lai o gyfleusterau i ymwelwyr na Loggerheads ond mae yna faes parcio eang, peth dehongli a chyfeiriadaeth i ymwelwyr, golygfeydd ardderchog, tair o fryngaerau'r Bryniau a nifer o lwybrau wedi eu harwyddo. Mae hwn eto'n hynod boblogaidd, yn enwedig ymysg cerddwyr ond hefyd y rhai sy'n llai actif ac sy'n dod i fwynhau'r olygfa ar draws Dyffryn Clwyd i Eryri o'r maes parcio uchaf. Mae Tŵr y Jiwbil yn dirnod trawiadol sy'n denu ymwelwyr. Mae'r Parc yn denu tua 160,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Coed Moel Famau Mae'n 1047 acer ac yn cael ei reoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, gydag elfennau'n cael eu rheoli mewn partneriaeth â Gwasanaethau Gefn Gwlad Sir Ddinbych. Mae yna arboretwm, trywydd pos, darpariaeth feicio allfordd a llwybr cysgodol, wedi ei arwyddo i gopa Moel Famau, yn ogystal â maes parcio, ardal bicnic, toiledau a phaneli gwybodaeth.

Ardal Natur Penycloddiau & Choedwig Llangwyfan Mae'n cynnwys 29 acer o goetir llydanddail brodorol sydd wedi ei adfer dan fryngaer Oes yr Haearn ac yn gyfagos i Goedwig Llangwyfan. Mae rhan o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa'n mynd drwy'r safle ac mae cyfleoedd da i wylwio adar - fe'i rheolir mewn partneriaeth rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych.

Moel Findeg Mae'n 55 acer, yn cynnwys cyfuniad cyfoethog o goetir bedw, rhostir a gwlypdir glaswellt y bwla sy'n cuddio tystiolaeth o hen weithfeydd cloddio plwm.

Coed Nercwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n berchen Coed Nercwys ac fe'i rheolir mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Mae'n 322 acer a'i hanes yn ymestyn o gladdu Oes yr Efydd, cloddio ac amaethyddiaeth i blanhigfa a hamdden. Mae hefyd yn gartref i'r troellwr mawr, y dylluan gornio a'r fadfall gribog. Mae yno ffordd i amlddefnyddwyr sy'n caniatáu i ymwelwyr fforio'r goedwig.

Bishops Wood Mae hwn yn SDGA gyda gweddillion mwyngloddiau a chwareli o fewn y coetir derw hynafol. Mae yna barcio cyfyngedig a dehongli ar safle.

Coed Bell Mae hwn yn cynnwys llwyfen aeddfed brin sydd â chwmpas o 12 troedfedd a thwmwlws o'r Oes Efydd yn ogystal â chlychau'r gog sy'n carpedu'r coetir lled-naturiol yn y gwanwyn.

Gerddi Adar Pen-y-Ffrith Eiddo preifat sy'n cael ei reoli'n breifat. Mae yna gasgliad o adar y dŵr, ffesantod, rhea, tylluanod a geifr Pygmy. Mae wedi ei leoli mewn gerddi coediog sy'n cynnwys Llwybr Clychau'r Gog, Llwybr rhedynfa gorsiog a rhaeadrau. Mae ar agor o fis Mawrth tan ddiwedd mis Tachwedd.

Mae yna nifer o safleoedd eraill sydd â mynediad, yn cynnwys Graig Fawr, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a gwahanol safleoedd sy'n cael eu rheoli gan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.

Mae yna nifer o atyniadau y tu allan i'r AHNE sy'n ategu'r hyn sydd ar gael yn y Bryniau ei hun. Yr hyn sy'n werth ei nodi'n arbennig yw'r nifer helaeth o atyniadau treftadaeth hanesyddol, yn cynnwys Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Tŷ Nant Clwyd, Ffynnon y Santes Winifred, Dyffryn Greenfield, Parc Wepre, y carchar yn Rhuthun, a chestyll yn Rhuddlan, Rhuthun, Fflint a Dinbych. Mathau eraill o atyniadau sy'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr yw canolfan alfa ffatri Tweedmill a Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug.

Cerdded / Mynediad i Gefn Gwlad

Mae rhwydwaith helaeth o hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau goddefol sy'n hynod boblogaidd gan gerddwyr, yn croesi AHNE Bryniau Clwyd. Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa'n mynd drwy'r Bryniau ac yn denu 33,000 o bobl bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf poblogaidd o'r Llwybr yn dilyn llinell crib Bryniau Clwyd hyd at Dŵr Jiwbiŵl sydd wedi ei adeiladu ar gopa Moel Famau. Mae nifer o gyhoeddiadau sy'n cynnwys disgrifiadau o lwybrau yn y Bryniau. Un o brif asedau'r AHNE yw bod yno ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr o bob gallu, gan ganiatáu i'r rheiny sy'n anghyfarwydd â theithiau egnïol neu herfeiddiol gael profi golygfeydd cefn gwlad.

Yn gyffredinol mae'r llwybrau mewn cyflwr da ac mae yna gynlluniau rheoli cyfredol yn eu lle i drwsio neu uwchraddio lle bo'r angen. Mae yna rai llwybrau'n dal sydd angen eu hagor. Mae hyn yn rhan o gynllun rheoli'r AHNE. Mae peth defnydd anghyfreithiol o lwybrau gan feicwyr, marchogwyr ceffylau a cherbydau modur.

Gweithgareddau Awyr Agored

Er mai cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd yn yr AHNE, mae yna nifer o weithgareddau eraill sy'n bwysig ac sy'n cynyddu yn eu poblogrwydd. Mae beicio, beicio mynydd, marchogaeth ceffylau, pysgota, paragleidio a gweithgareddau eraill i gyd ar gael yn y Bryniau.

Mae Bryniau Clwyd yn cynnig amrywiaeth eang o lwybrau beicio mynydd, o rai hawdd ar gyfer pobl sy'n weddol ffit, i lwybrau sy'n gorfforol ymdrechgar. Mae menter www.beiciobryniauclwyd.com wedi gweithio i wella rheolaeth a hyrwyddo'r llwybrau yn yr ardal.

Mae canolfan Beiciau Mynydd Llandegla, sydd bron a bod yn yr AHNE ar yr A525 tuag at Wrecsam yn gyfleuster newydd sy'n cynnwys canolfan ymwelwyr wedi ei hadeiladu i'r pwrpas gyda siop a chaffi, hurio beiciau, gwerthu/trwsio beiciau ac ystafell gyfarfod. Mae yna dri llwybr beicio mynydd o 5 i 19km yn ogystal â llwybr cerdded o 4.5km. Bu'n hynod boblogaidd yn denu tua 70,000 o ddefnyddwyr yn y flwyddyn gyntaf. Nid oes llety ar safle ond mae cysylltiadau'n cael eu datblygu gyda gwersylloedd lleol a Gwely a Brecwast.

Mae rhwydwaith y llwybrau ceffyl yn ehangach o fewn yr AHNE nag yn unman arall yn Sir Ddinbych a Sir Fflint, ond maent yn dal i fod yn anghyson. Mae menter Cymru ar Gefn Ceffyl wedi bod yn ceisio sefydlu cynnyrch marchogaeth ceffylau mwy cydlynol ac wedi dod â mwy na 40 o lifrai, G&B, milfeddygon etc. at ei gilydd. Er hynny mae marchnata'r fenter wedi bod yn sialens. Fe all fod yna sgôp i'w datblygu ymhellach. Hefyd fe fydd angen gwella cyfleusterau fel parcio digonol a diogelwch i faniau ceffylau. Fe sefydlwyd nifer o lwybrau ceffyl gan Gymdeithas Geffylau Prydain (BHS), yn cynnwys y 'Seahorse Ride' sy'n mynd o'r gogledd i'r de ar hyd rwydwaith o lwybrau ceffyl.

Mae yna naw pysgodfa o fewn yr AHNE. Mae prosiect 'Pysgota Clwyd' yn fenter farchnata ar y cyd, gyda chynhyrchu pamffledi a gwefan. Mae pysgota'n tyfu mewn poblogrwydd ac mae'r AHNE mewn safle perffaith i fanteisio ar y farchnad.

Gweithgareddau eraill sydd ar gael yn ad-hoc yn ac o gwmpas yr AHNE yw paragleidio, peli paent, motor-beics allfordd, abseilio, ogofeydd a dringo. Mae lefelau presennol y gweithgareddau'n ddigon isel fel nad oes gwrthdaro rhwng defnyddwyr, ond fel y bydd mwy o bobl yn ymgymryd â mwy o weithgareddau o fewn y Bryniau, fe fydd angen rheolaeth ofalus.

Digwyddiadau

Fe gynhelir nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn yn yr AHNE. Maent yn cynnwys teithiau testun (archaeoleg, natur, daeareg), gweithgareddau ymarferol (beicio mynydd, gwyllo adar, maglu gwyfynod), a gweithgareddau hwyliog i'r teulu, yn cynnwys crefftiau ac ailberfformiadau. Cyhoeddir y gweithgareddau yn arweinlyfr Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych 'Out and About' ac yn rhaglen Digwyddiadau Cefn Gwlad Cyngor Sir Fflint.

Cynhelir gwyliau mewn trefi oddi amgylch fel Gŵyl Rhuthun a Gŵyl Ganol Haf Dinbych. Mae yna Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint. Cynhelir Gŵyl Fwyd a Diod yr Wyddgrug ym mis Medi bob blwyddyn. Yr Wyddgrug yw'r dref gyntaf yng Nghymru i dderbyn cydnabyddiaeth Cittaslow. (esboniad mewn troednodyn)

Mae HelfaGelf yn ddigwyddiad lleol o stiwdios agored sy'n digwydd dros dri phenwythnos ym mis Medi. Mae deg o'r 40 artist sy'n cymryd rhan wedi eu lleoli ym Mrynau Clwyd.

Bwyd a diod

Mae yna tua 20 o dafarnau lleol a'r rhain yw prif ddarparwyr bwyd a diod o fewn yr AHNE. Mae'r rhan fwyaf yn gweini bwyd ganol dydd a chyda'r nos. Mae'r ansawdd yn amrywiol, fel y mae'r amseroedd agor.

Mae sawl caffi/bwyty yn yr AHNE yn cynnwys tai bwyta trwyddedig yng Nghanolfan Grefft Afonwen, Caffi Hideaways yn Llynnoedd Gweryd a Chaffi Loggerheads. Mae'r olaf ar gau ar hyn o bryd, yn aros tenant newydd. Mae caffi poblogaidd yng nghanolfan Beiciau Mynydd Llandegla, y tu allan i'r AHNE. Mae sawl caffi mewn trefi cyfagos, ond mae amseroedd agor yn broblem, yn enwedig ar benwythnosau.

Y mae yna gyfle i fanteisio ar gynnyrch lleol drwy godi ymwybyddiaeth o fwyd a gynhyrchir yn lleol mewn Gwely a Brecwast, caffis a thai bwyta. Mae marchnadoedd ffermwyr yn Rhuthun a'r Wyddgrug, ac mae'r Wyddgrug yn ddiweddar wedi ennill statws Cittaslow sy'n gysylltiedig â mudiad Bwyd Araf. Mae yna siopau fferm yn Llanelwy, Treuddyn, Llanbedr a Gwasaney (ger Yr Wyddgrug).

Mae Cadwyn Clwyd wedi paratoi cyfeiriadur o gynhyrchwyr lleol ac mae wedi ei ddosbarthu i ddarparwyr llety a thai bwyta yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys eu hardal gyfan. Mae nifer y cynhyrchwyr arbenigol sydd o fewn neu'n uniongyrchol gysylltiedig â'r AHNE yn eithaf cyfyngedig.

Siopa

Prin yw'r cyfleoedd i ymwelwyr siopa yn yr AHNE. Y brif allfa adwerthu yw Creiriau a Chanolfan Grefftau Afonwen yng ngogledd y Bryniau sydd â dwy ystafell arddangos a thros 60 cas o greiriau a gwrthrychau i'w casglu o'r 18fed i'r 20fed ganrif. Dim ond tair siop bentref sydd yna yn yr AHNE sy'n cynnig anghenion sylfaenol ac mae siop anrhegion fechan yn y ganolfan ymwelwyr yn Loggerheads. I selogion beiciau mynydd mae gan y siop yn Llandegla ystod eang o gyfarpar. Mae nifer o siopau pentref yn yr ardal ac mae allfeydd adwerthu mewn garejis hefyd.

Fe wneir iawn am argaeledd cyfyngedig y siopau yn yr AHNE gan yr ystod o adwerthwyr annibynnol sydd yna yn y trefi o amgylch.

Mae adwerthu crefftau'n nodwedd bwysig o'r ardal o gwmpas. Bydd Canolfan Grefft Rhuthun yn 'adeilad deinamig o sinc a cherrig bwrw gyda thoeau tonnog i adlewyrchu Bryniau Clwyd oddi amgylch'.⁹ Bydd y ganolfan newydd yn cartrefu tri galeri, chwe stiwdio artistiaid, galeri adwerthu, gweithdai addysg a phreswyl, pwynt gwybodaeth twristiaeth a chaffi gyda theras cwrw.

Bydd digwyddiad Stiwdios Agored HelfaGelf y cyfeiriwyd ato eisoes, yn helpu i roi hwb i arlwy adwerthu'r Bryniau.

⁹ Gwefan Canolfan Grefft Rhuthun www.ruthincraftcentre.org.uk

1.4 Hygyrchedd a Thrafnidiaeth

Ffyrdd

Mae Bryniau Clwyd yn agos iawn at y prif wythiennau trafndiaeth o ddwyrain i orllewin Gogledd Cymru. Mae'r A55 yn torri drwy ogledd y Bryniau a'r A494 drwy'r rhan ddeheuol, gan gysylltu â'r A5. Mae yna rwydwaith o isffyrdd dosbarthol B a C sy'n darparu mynediad i'r ardaloedd mwy anghysbell. Mae manau parcio ar gael ym Mharc Gwledig Moel Famau, Parc Gwledig Loggerheads, Cilcain a safle wyllo Gwaenysgor. Mae parcio mewn ardaloedd eraill wedi ei gyfyngu i encilfeydd sy'n cael eu llenwi'n gynnar iawn yn ystod misoedd yr haf.

Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus strategol yn cysylltu'r prif drefi â'i gilydd gyda bws o fewn Sir Dinbych a Sir Fflint (Y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanellwyr, Yr Wyddgrug, Dinbych, Rhuthun, Corwen, Llangollen) a hefyd yn creu cyswllt â'r prif ardaloedd trefol a leolir y tu allan i'r Sir, fel Caer, Wrecsam, Y Waun ac Abergele.

Mae gwasanaeth rheilffordd Caer i Gaergybi'n rhedeg drwy Fflint a Phrestatyn, ac mae lein Caer-Wrecsam-Amwythig yn rhedeg i'r dwyrain o'r Bryniau. Mae gwasanaethau bws o'r trefi hyn yn cysylltu â threfi mynediad i'r AHNE fel Rhuthun, Yr Wyddgrug, ac ymlaen i'r AHNE ei hun. Ond, nid yw amserlenni bysiau'n cysylltu ag amserlenni rheilffordd ar hyn o bryd ac, yn ymarferol, mae hynny'n gwneud cydgysylltu'n araf ac yn anghyfleus.

Mae Cynghorau Sir Dinbych a Fflint yn gweithio'n rhagweithiol i hyrwyddo defnyddio gwasanaethau bws lleol ar gyfer teithiau hamdden. Mae rhwydwaith Bws Clwyd yn gweithredu ar y Suliau a Gwyliau'r Banc i gynnig cyrchiad di-gar i brif fannau twristiaeth Bryniau Clwyd yn ystod misoedd yr haf. Fe gofnodwyd 2,800 o siwrneiau teithwyr ar y gwasanaeth hwn yn 2005, sydd ddim yn cynnwys y rhai hynny gyda thrwydded bws sydd ddim yn prynu tocynnau. Gwnaethpwyd arolwg defnyddwyr a'r ymateb oedd bod y gwasanaeth yn ardderchog, er bod yna rai cwynion fod y gyrwyr yn anghyfarwydd â'r daith, a chysylltiadau ddim yn gweithio'n iawn. Caiff y gwasanaeth ei hysbysebu drwy daflenni, gyda thua 26,000 yn cael eu dosbarthu yn ac o gwmpas yr AHNE.

1.5 Gweinyddiaeth Twristiaeth

Nid yw twristiaeth o fewn y AHNE yn gyfrifoldeb i un sefydliad. Mae nifer o sefydliadau yn y sector gyhoeddus ym Mryniau Clwyd ynghlwm â chefnogi'r diwydiant twristiaeth, un ai drwy ddarparu'r isadeiledd, ariannu, hyfforddi neu farchnata.

Gan Gydbwyllgor Ymgynghorol Bryniau Clwyd y mae'r cyfrifoldeb am reolaeth gyffredinol yr AHNE. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys: cynghori ar baratoi a gweithredu Cynllun Gweithredu statudol yr AHNE; cynghori ar faterion sy'n effeithio ar yr AHNE, yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Unedol, datblygu cynigion a mentrau eraill; a hyrwyddo a rheoli mwynhad anffurfiol, tawel AHNE Bryniau Clwyd cyn belled

ag y bo hyn yn gydnaws â chadwraeth y dirwedd. Mae'r cyfrifoldebau hyn i gyd yn gysylltiedig â thwristiaeth, ond nid yw twristiaeth ei hun yn cael ei nodi'n benodol nac yn cael sylw ar wahân yng ngweithgareddau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych¹⁰ sy'n rheoli'r AHNE yn ddyddiol, ac felly mae ganddo ran allweddol yng nghydlynad twristiaeth. Yn bresennol nid oes ganddo aelod o staff yn gweithio'n benodol ar faterion twristiaeth yn yr AHNE er bod nifer o swyddi a swyddogaethau sy'n perthyn yn agos i dwristiaeth, mewn gwasanaethau ymwelwyr, addysg a dehongli'n arbennig. Fodd bynnag, mae gan y staff sy'n gweithio yn y meysydd hyn gylch gwaith sy'n cynnwys y sir gyfan.

Mae gan Gynghorau Sir Ddinbych a Fflint adrannau twristiaeth sy'n gwneud gwaith datblygu cynnyrch yn ogystal â'r gweithgareddau marchnata a ddisgrifiwyd isod. Fodd bynnag mae adrannau eraill hefyd yn effeithio ar dwristiaeth yn yr AHNE, yn enwedig o ran isadeiledd, trafnidiaeth a chynllunio. Mae Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych wedi paratoi strategaeth fusnes a marchnata ar gyfer Dyffryn Clwyd, sy'n cynnwys yr AHNE yn rhannol.

Mae Cadwyn Clwyd yn chwarae rhan bwysig mewn twristiaeth ac mae wedi ariannu amrywiaeth eang o brosiectau sy'n berthnasol i dwristiaeth drwy raglen Arweinydd +, sydd â llawer ohonynt yn cynnwys, neu yn benodol i'r AHNE.

Nid oes unrhyw gymdeithasau twristiaeth sector breifat yn gweithredu'n benodol o fewn yr AHNE. Mae Cymdeithas Twristiaeth Sir Flint yn weithredol iawn ac yn cefnogi hyrwyddo Bryniau Clwyd ymhellach fel ased dwristiaeth bwysig yn yr ardal. O fewn yr AHNE ei hun, cafodd Grŵp Busnes Loggerheads ei sefydlu'n dilyn Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, ac yn awr mae ganddo wefan fechan sy'n hyrwyddo busnes yn yr ardal. Ond nid yw'n ymwneud yn gyfan gwbl â thwristiaeth. Mae CANTATA'n brosiect sydd wedi ei ariannu gan Interreg yr UE yn Sir Ddinbych sy'n canolbwyntio ar adeiladu cynhwysedd o fewn busnesau twristiaeth ac yn darparu sianel gysylltiadau pwysig rhwng y Cyngor a'r sector breifat.

Gyda'r fath ystod o gyrrff ac, yn benodol, ymglymiad dau gyngor lleol, mae yna berygl o ddyblygu swyddogaethau ac angen gwirioneddol i sicrhau fod gwaith twristiaeth yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gydlynol ag integredig.

1.6 Marchnata, gwybodaeth a dehongli cyfredol

Gweithgaredd marchnata

Y corff sy'n gyfrifol am farchnata allanol yr ardal yw Partneriaeth Marchnata Ardal Gororau Gogledd Cymru. Mae hwn yn grŵp partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol yn arwain. Caiff ei gefnogi gan gynghorau Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrecsam, a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru. Y prif gyfryngau hyrwyddo yw'r wefan www.borderlands.co.uk <<http://www.borderlands.co.uk>> a phamffled lliw A4. Mae proffil Bryniau Clwyd ar y wefan ac mewn print yn isel iawn, ond mae cyfeiriadau ato yng nghyd-destun triniaethau thematig arbennig o fynediad i gefn gwlad a thirwedd. Yn 2006 cynhyrchodd y Partneriaeth gyfres o bamffledi thematig unigol (cestyll, golff,

¹⁰ Hefyd ar ran Cyngor Sir Fflint

cerdded, mannau cysegredig) dan frand y Gororau gan ddefnyddio arian Amcan 1 gan Sir Ddinbych. Mae'r rhain ar gael yn electronig a gellid eu cynnal mewn print gyda chefnogaeth ariannol barhaus. Mae gweithgaredd hysbysebu ar gyfer ardal Gororau Gogledd Cymru yn digwydd gan fwyaf drwy ymglymu ag ymgyrchoedd Croeso Cymru.

Mae gweithgaredd marchnata'n digwydd yn unigol yn y ddau Gyngor Sir. Mae Sir Fflint yn ddiweddar wedi cynhyrchu cyfres o daflenni ar atyniadau, lle i fwyta a llety yn y sir mewn paratoad ar gyfer yr Eisteddfod a gynhaliwyd ger Yr Wyddgrug ym mis Awst 2007. Mae gwefan newydd yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd i Gymdeithas Twristiaeth Sir Fflint fydd, pan fydd yn barod, yn gwasanaethu fel prif bresenoldeb y sir ar lein. Yn ddiweddar mae Taith Yrru Hamdden Sir Fflint wedi ei datblygu a'i hyrwyddo, ac mae'n ymestyn i mewn i'r AHNE. Cafodd cyhoeddiad Rhodfeydd Gwledig Sir Fflint dderbyniad brwdfrydig gan drigolion ac ymwelwyr. Mae'n cynnwys rhodfeydd yn yr AHNE.

Bu Cyngor Sir Ddinbych yn weithredol o ran marchnata, yn cynnwys delio â llawer o'r gweithgaredd hyrwyddo ar gyfer yr ardal ehangach, gan ddefnyddio arian Amcan 1. Mae wedi ymgymryd â gweithgaredd hyrwyddo'n unigol ar gyfer Sir Ddinbych, yn cynnwys ymgyrchoedd papurau newydd a phostio taflenni A4 yn uniongyrchol *Darganfod Sir Ddinbych*, a chyhoeddiad dan y teitl *Mannau sy'n Gyfeillgar i Gŵn yn Sir Ddinbych* sy'n rhestru llety a thai bwyta sy'n caniatáu cŵn. Mae menter CANTATA wedi cynhyrchu arweinlyfr i Sir Ddinbych. Mae'n rhoi trosolwg cyffredinol o dreftadaeth y sir ac wyth o drefi gydag adrannau ar yr awyr agored, hanes, cymeriad yr ardaloedd lleol etc. Bydd yn dechlyn i fusnesau wella eu gwybodaeth o'r ardal. Mae i'w gael am ddim a bydd yn cael ei anfon i tua 1000 o fusnesau yn Sir Ddinbych.

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynhyrchu dau lyfryn lliw A5 yn hyrwyddo cyfleoedd mynediad i gefn gwlad. Mae *22 o safleoedd Cefn Gwlad yn Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau Clwyd ag adran gyfan ar yr AHNE, yn rhestru'r gwahanol barciau gwledig a'r atyniadau gyda lleoliadau a chyfleusterau*. Mae *Out and about in Denbighshire's Countryside* yn galendr o ddigwyddiadau blynyddol sy'n rhestru digwyddiadau drwy'r sir, gyda rhai ohonynt yn digwydd yn yr AHNE. Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynhyrchu cyhoeddiad Rhodfeydd Gwledig yn Sir Ddinbych, gan adeiladu ar lwyddiant ei chwaer-gyhoeddiad Rhodfeydd Gwledig yn Sir Fflint. Fe'u dosberthir yn y lle cyntaf yn y sir a'r ardaloedd o amgylch, Drwy bartneriaeth ag Adran Dwristiaeth Cyngor Sir Ddinbych.

Mae cymysgedd o wybodaeth gorfforaethol a gwybodaeth i ymwelwyr ar y wefan www.ahnebryniauclwyd.org.uk, yn cynnwys adran ar lety, bwyd a gweithgareddau yn y Bryniau. Fe neilltuwyd peth arian i'w diweddarau fel bod iddi fwy o ffocws i ymwelwyr yn y dyfodol.

Yr unig gyhoeddiadau hyrwyddol sy'n benodol ar gyfer yr AHNE yw'r cylchgronau A4 lliw *Capturing the Clwyds* a *Capturing the Clwydian Range*, a gynhyrchir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych gyda chefnogaeth ariannol gan Gyngor Sir Fflint. Maent yn cynnwys erthyglau am y Bryniau a'i gweithgareddau. Gydag argraffiad o 20,000, maent wedi eu dosbarthu i lety ac allfeydd eraill yn yr ardal.

Mae nifer o fentrau marchnata a deunydd perthynol yn ymdrin â themâu a chynnyrch yn ac o gwmpas y Bryniau. Bu Cadwyn Clwyd yn weithredol yn gyrru llawer ohonynt yn eu blaen. Maent yn cynnwys:

- Taith Pos Anifeiliaid Moel Famau

- Croeso i Ddyffryn Clwyd – Gwyliau Fferm yng Ngogledd Cymru
- Tafarnau Gwledig yn Nyffryn Clwyd
- Safleoedd Gwersylla a Charafanio yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych
- Pysgota yn ac o gwmpas Bryniau Clwyd
- Cymru ar Gefn Ceffyl
- Marchogaeth Clwyd.

Nid yw'r proffil a'r hunaniaeth a roddir i'r Bryniau gan y mentrau hyn a'r erthyglau print i ganlyn wedi bod yn gyson.

Canolfannau Croeso

Nid oes yna Ganolfannau Croeso o fewn yr AHNE, ond mae gan Gyngorau Sir Ddinbych a Fflint Ganolfannau Croeso yn Y Rhyl, Prestatyn a Llangollen a'r Wyddgrug. Mae CG Prestatyn yn dymhorol, ar agor yn ystod misoedd yr haf yn unig, a'r tu allan i'r amseroedd hynny gellir defnyddio CG Y Rhyl. Cafodd y GG yn Rhuthun ei dymchwel ynghyd â'r ganolfan grefftau lle y'i lleolid, ac fe osodir allfa wybodaeth ddi-griw yno pan y'i hailadeileidir. Yn y cyfamser, anfonir ymholiadau ymlaen i Langollen. Mae yna allfa wybodaeth ychwanegol yn Llyfrgell Dinbych. Mae CG'r Wyddgrug wedi ei lleoli yn llyfrgell y dref ac, er ei bod yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth a staff gwybodus, mae'n rhwystredig gan oriau agor y llyfrgell (sy'n cynnwys agor ar y Sadwrn o'r Pasg i fis Hydref yn unig). Mae lle yng Nghanolfan Ymwelwyr Loggerheads sydd wedi ei neilltuo ar gyfer gwybodaeth ar Fryniau Clwyd a dehongliad o'i nodweddion allweddol.

Mae ymweliadau â'r CG wedi datgelu fod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y staff yn gyffredinol dda, er gan nad oes canolbwyntio uniongyrchol ar y Bryniau, nid yw profiad o, a gwybodaeth am fanylion penodol cystal. Er hynny, mae'r staff yn awyddus i wybod mwy am yr AHNE a'i hyrwyddo'n well. Ychydig iawn o ymholiadau a geir am yr AHNE yn uniongyrchol, er y byddant yn cyfarwyddo ymwelwyr tuag ati os bydd hynny'n berthnasol. Mae nifer cynyddol o ymholiadau'n ymwneud â cherdded a gweithgareddau awyr agored, beicio'n benodol. Mae'r CG yn cynnig gwasanaeth bwcio llety ac mae ganddynt wybodaeth lawn ar lety graddedig sydd ar gael yn y Bryniau.

Arwyddion

Mae cryfderau a gwendidau i'r arwyddion ar gyfer ymwelwyr i, ac o fewn yr AHNE. Mae priffyrdd, yn cynnwys yr A55 ag arwyddion mynediad i'r AHNE, sy'n bwysig o safbwynt proffil yr ardal. Ond nid yw'r ymwybyddiaeth hwn yn cael ei gynnal o fewn yr AHNE, fel drwy ddefnyddio logo'r AHNE ar arwyddion lleol. Ychydig o arwyddion pentrefi sy'n nodi eu bod mewn AHNE. Mae arwyddion i atyniadau a safleoedd yn dda ar y cyfan er nad ydynt yn gyson bob amser. Gellid gwella rhai arwyddion encilfeydd a mannau parcio.

Dehongli

Mae dehongli'r AHNE yn digwydd mewn nifer o ffyrdd sydd braidd yn dameidiog. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosfa fechan yng Nghanolfan Ymwelwyr Loggerheads, paneli mewn safleoedd cefn gwlad eraill a pheth deunydd printiedig fel *Darganfod Parc Gwledig Moel Famau: yr Arweinlyfr Hanfodol i fforio Moel Famau* a'r gwahanol lyfrau ar lwybrau tywys. Mae swyddogaeth ddehongli bwysig i'r teithiau tywys a'r digwyddiadau eraill.

Un o themâu allweddol y Cynllun Partneriaeth Grug a Bryngaerau a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yw dehongli. Fe gomisiynodd y Cynllun Gynllun Dehongli ac fe ddatblygwyd rhai o'r cysyniadau a'r syniadau ac y maent yn cael eu gweithredu. Fe ddefnyddir technegau creadigol amrywiol. Un dull yw dylunio a lleoli deunydd sy'n gallu dehongli treftadaeth unigryw i bobl sy'n annhueddol neu'n anabl i gyrchu'r bryngaerau eu hunain. Cynhwysir dehongliad hefyd yn y Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol.

1.7 Ymwelwyr Presennol

Ni wnaethpwyd unrhyw arolwg ymwelwyr ar gyfer Bryniau Clwyd yn y blynyddoedd diweddar. Ond fe ellir adeiladu darlun o broffiliau a phatrymau ymwelwyr o nifer o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arolygon ymwelwyr mewn nifer o safleoedd yn yr AHNE yn 2002 a gynhwyswyd mewn *Adroddiad Rhagarweiniol i Dwristiaeth o fewn yr AHNE*.
- Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Mynediad ar gyfer y cynllun Grug a Bryngaerau, oedd yn seiliedig ar arolwg o drigolion lleol ac arolwg ymwelwyr bychan, yn 2004.
- Mae Arolwg Ymwelwyr Gogledd Cymru 2004 yn rhoi trosolwg o ymwelwyr i Sir Ddinbych a Sir Fflint
- Data STEAM awdurdod lleol ar gyfer 2005
- Argraffiadau o broffil marchnad ymwelwyr, a ddarparwyd gan fentrau a arolygwyd yn yr AHNE ar gyfer y strategaeth hon.
- Cyfrifwyr pobl ar hawliau tramwy cyhoeddus a chyfrifwyr ceir mewn rhai meysydd parcio mewn safleoedd cefn gwlad.

Nifer yr Ymwelwyr

Nid oes dull systematig ar gael i ganiatáu cyfrifo niferoedd ymwelwyr i'r AHNE. Ond mae Loggerheads yn derbyn tua 180,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, a Moel Famau tua 160,000. Amcangyfrifir fod 30,000 o bobl yn cerdded Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa bob blwyddyn, gyda rhwng tair a phum mil yn cwblhau'r 177 milltir lawn. Credir yn gyffredinol fod mwyafrif llethol y rheiny sy'n dod i'r AHNE yn ymwelwyr dyddiol nad ydynt yn aros dros nos. Yn ôl ffigurau STEAM, fe ymwelodd 1.9 miliwn o bobl â Chefn Gwlad Sir Ddinbych (81% o'r rheiny'n ymwelwyr dyddiol), ac fe ymwelodd 2.7 miliwn â Sir Fflint (72% o'r rheiny'n ymwelwyr dyddiol).

Ymwelwyr â Pharciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau

	2002	2003	2004	2005
Loggerheads	95,582	186,504	190,345	180,040
Moel Famau	95,635	131,288	162,999	164,865

Ffynhonnell: Ymweliadau ag Atyniadau Ymwelwyr 2005, Croeso Cymru

Proffil a chyfansoddiad ymwelwyr

Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Gogledd Cymru, mae i'r rhanbarth broffil ymwelwyr mwy aeddfed na chyfartaledd Cymru gyda thros 40% dros 55 oed ac ychydig yn llai na

40% yn 35-54 oed. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Sir Ddinbych a Sir Fflint sy'n agos at gyfartaledd Gogledd Cymru.

Roedd cyfartaledd maint y partïon o ymwelwyr i Ogledd Cymru ychydig o dan 3 pherson. Mae canlyniadau Sir Ddinbych yn adlewyrchu hyn ond roedd cyfartaledd Sir Fflint ychydig yn fwy gydag ychydig dros 3 pherson.

Roedd 59% o ymwelwyr i Ogledd Cymru yn nosbarth cymdeithasol ABC1 sy'n uwch na phoblogaeth y DU ond yn is na rhan fwyaf o arolygon ymwelwyr. Roedd 31% o ymwelwyr o ddosbarthiadau cymdeithasol C2DE sy'n is na phoblogaeth y DU ond yn uwch na'r rhan fwyaf o arolygon ymwelwyr yn y DU. Y ffigurau ar gyfer Sir Ddinbych a Fflint yw 60% (ABC1) / 33% (C2DE) a 61% (ABC1) / 34% (C2DE) yn ôl eu trefn.

Mae Sir Ddinbych (51%) a Sir Fflint (54%) yn derbyn cyfran uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru (43%) o gyplau sydd â'u plant wedi gadael cartref, ond cyfran gymharol o deuluoedd (c24%).

Roedd mentrau twristiaeth a arolygwyd yn awgrymu mai cyplau hŷn yw'r farchnad fwyaf, a theuluoedd â phlant yn ganran gymharol fychan o'r farchnad gyfredol o ymwelwyr sy'n aros yn y Bryniau.

Tarddiad a hyd yr arhosiad

Daw mwyafrif helaeth o ymwelwyr i Sir Ddinbych a Sir Fflint o'r DU (93% a 95%). Yn Sir Ddinbych roedd y ganran fwyaf o Dde Orllewin Lloegr (37%) gyda 14% o'r West Midlands (14%). Roedd 23% yn drigolion Gogledd Cymru ar daith diwrnod. Yn Sir Fflint, roedd 49% yn dod o Ogledd Orllewin Lloegr a thros 25% yn drigolion Gogledd Cymru.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn lefel isaf y data. Yn ôl Arolwg Loggerheads (2002), daeth 30% o ymwelwyr o'r Wirral a Glannau Merswy, 17% o Gaer a Swydd Caer, 27% o Sir Fflint a 11% o Sir Ddinbych. Mae atyniadau llai, fel Coedwig Clwyd, yn denu cyfartaledd uwch o ymwelwyr lleol. Mae'n bwysig nodi'r cysylltiadau rhwng Parc Gwledig Loggerheads a Glannau Merswy - mae llawer o bobl ifanc yn dod ar dripiâu ysgol ac yna'n dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywyd gyda'u teuluoedd. Darganfu ymchwil Grug a Bryngaerau i drigolion lleol fod dros 60% o'r rhai a ymatebodd wedi ymweld â Moel Famau a Pharc Gwledig Loggerheads yn y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ôl arolwg menter a wnaethpwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, pan fydd ymwelwyr yn aros dros nos fe allent aros hyd at 1 wythnos, er y bydd y mwyafrif yn aros am 2-3 noson sy'n amlygu pwysigrwydd y farchnad benwythnos / arhosiad byr.

Mae lefel ailymweliadau'n uchel. Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Gogledd Cymru (AYGC), roedd ymwelwyr i'r ddwy sir wedi ymweld o'r blaen. Amcangyfrifodd yr arolwg menter fod dwy 66% o'r ymwelwyr ar eu hail ymweliad neu ymweliad dilynol. Yn ôl arolwg ymwelwyr 2002, fe ymwelodd 50% o'r holl ymwelwyr 1-3 gwaith y flwyddyn.

Gwariant

Mae cyfartaledd gwariant ymwelwyr fesul pen yn ymddangos yn weddol isel, yn adlewyrchu cyfran uchel yr ymwelwyr dyddiol. Yn arolwg 2002, dywedodd 36% mai parcio car fyddai eu hunig wariant a 32% arall y byddant yn gwario llai na £5.

Yn ôl AYGC, cyfartaledd gwariant ymwelwyr oedd £22.70 yn Sir Ddinbych a £20.83 yn Sir Fflint, beth yn is na chyfartaledd Gogledd Cymru sef £27.17.

Amrywiadau Tymhorol


Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod twristiaeth yn yr AHNE yn dymhorol iawn a'r uchafbwynt yng Ngorffennaf ac Awst. Caiff hyn ei gefnogi gan ffigurau STEAM ar gyfer Cefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n dangos uchafbwynt mewn ymweliadau dyddiol ac arhosiad dros nos yn ystod yr amser hwn, gydag uchafbwynt ychwanegol mewn ymweliadau dyddiol yn ystod mis Ebrill. Gall uchafbwyntiau mewn ymweliadau dyddiol ddigwydd hefyd ar ddyddiau arbennig yn y gaeaf pan fydd yna eira ar lawr.

Tabl: Ymweliadau bob mis i Gefn Gwlad Sir Ddinbych 2006

('000)	Ion	Chwe	Maw	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Ymwelwyr dydd	73.0	121.0	71.4	191.6	140.5	168.2	216.8	223.3	121.5	113.0	45.8	96.4
Ymweliadau dros nos ¹¹	26.6	21.1	23.6	31.9	33.6	33.4	43.6	43.9	31.5	28.5	25.6	22.5
Arosiadau dros nos ¹²	69.7	50.6	85.4	131.1	146.0	147.1	195.2	217.0	138.7	125.6	83.7	70.9

Ffynhonnell: Adroddiad STEAM ar gyfer Cefn Gwlad Sir Ddinbych 2006

Nifer y twristiaid (000)



Rhesymau am yr ymweliad a'r gweithgareddau

Mae tystiolaeth o arolygon y gorffennol yn awgrymu mai prif atyniad yr AHNE yw ei thirwedd hardd a daw ymwelwyr i'w mwynhau mewn nifer o ffyrdd, drwy yrru drwy'r

¹¹ Cyfeiria'r rhain at nifer y bobl a fu'n aros dros nos (un neu ragor o nosweithiau) yn Sir Ddinbych Wledig

¹² Cyfeiria'r rhain at nifer y nosweithiau y bu ymwelwyr yn aros yn Sir Ddinbych Wledig

Bryniau, cerdded eu cŵn, cerdded llwybr wedi ei farcio, neu drwy weithgareddau fel beicio mynydd.

Yn ôl yr arolygon ymwelwyr yn 2002, mae 65% o ymwelwyr yn dod i gerdded neu “gerdded y ci”, gyda 12% ychwanegol yn dod am awyr iach a’r ymarfer, a allai gynnwys cerdded. Roedd dros 50% ohonynt y llwybrau wedi eu marcio, yn cynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys beicio mynydd, teithiau Dug Caeredin, barcuta a pharagleidio, gleidwyr model, abseilio, dringo ac ogofa a rhedeg ffriddoedd.

Llety a ddefnyddir

Fel y crybwyllwyd eisoes, nid yw’r rhan fwyaf o’r ymwelwyr i’r AHNE yn aros dros nos yn y Bryniau. Er hynny, roedd ymchwil 2002 yn dangos fod tua 30% o’r ymwelwyr oedd yn aros dros nos yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau yr oeddynt yn ymweld â nhw, 30% arall yn gwersylla a thua 20% yn aros mewn gwestai a G&B. Ychydig iawn oedd yn hunanarlwyo.

1.8 Canfyddiadau ymwelwyr

Gellir defnyddio’r ffynonellau a nodwyd yn yr adran flaenorol hefyd i ddarparu peth tystiolaeth o’r hyn y mae ymwelwyr yn ei deimlo am yr ardal a’r hyn y byddant yn chwilio amdano yn y dyfodol.

Casgliad pwysig o arolygon ymwelwyr 2002 oedd bod mwyafrif yr ymwelwyr rheolaidd i Fryniau Clwyd am weld y lle’n cael ei gadw fel y mae ac nad ydynt, mewn gwirionedd, yn chwilio am fwy o gyfleusterau. Er hynny, roedd ymwelwyr newydd neu lai rheolaidd, yn cynnwys y rhai o ymhellach i ffwrdd, yn awgrymu yr hoffent fwy o wybodaeth a chyfleusterau. Mae’r gofyn am fwy o wybodaeth a chyfleusterau’n ymddangos mewn mannau eraill yn yr arolygon hefyd. Gofynnai llawer o’r beicwyr a holwyd am fwy o lwybrau allffordd a gwybodaeth arnynt. Mae’n bwysig cofio, fodd bynnag, fod y data hwn yn bum mlynedd oed ac fe wnaethpwyd gwell darpariaeth ers hynny.

Cafodd arolygon 2004 ar gyfer y prosiectau Grug a Bryngaerau eu data gan drigolion Sir Ddinbych a Sir Fflint gan fwyaf (481 o holiaduron wedi eu cwblhau), a llawer ohonynt yn ymwelwyr rheolaidd â’r Bryniau, ynghyd â nifer fechan o bobl a holwyd ar safle (84 o holiaduron wedi eu cwblhau). Mae’r data hwn felly’n amlygu canfyddiadau ymwelwyr a thrigolion sydd â diddordeb. Pan ofynnwyd iddynt beth fyddai’n eu hysgogi i ymweld â’r Bryniau’n amlach, dywedodd dros 50% mai mwy o wybodaeth, ac yna gyfleusterau cyhoeddus (45%) a gwell arwyddion. Nodwyd fod digwyddiadau a gwell parcio’n aml yn bwysig i annog ymweliadau.

Mae’n galonogol nodi fod mwyafrif helaeth y rhai a ymatebodd i’r arolwg uchod yn cefnogi’n gryf gadwraeth treftadaeth naturiol a diwylliannol y bryniau. Ond er hynny, nid oedd yr un grŵp yn ystyried y byddai annog mwy o ymwelwyr i’r ardal yn andwyol – yn wir roedd 62% o blaid hynny a dim ond 11% yn erbyn.

Pan ofynnwyd iddynt a fyddai diddordeb ganddynt mewn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a restrwyd, dywedodd 60% ohonynt yr hoffent ddysgu mwy am dreftadaeth yr ardal, a 44% y byddai ganddynt ddiddordeb mewn teithiau tywys treftadaeth.

1.9 Perfformiad a gofynion mentrau

Mae canlyniadau arolwg mentrau twristiaeth lleol yn arbennig o bwysig i lywio'r strategaeth dwristiaeth. Cânt eu cyflwyno mewn manylder yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Mae tueddiadau diweddar mewn perfformiad mentrau twristiaeth yn ymddangos yn weddol galonogol. O'r rhai a arolygwyd, roedd 28% wedi gweld twf sylweddol yn eu busnes yn y tair blynedd diwethaf a dywedodd 48% fod yna beth twf wedi bod. Roedd 75% ohonynt wedi gwneud rhai buddsoddiadau neu welliannau i'w cyfleusterau yn y cyfnod hwn, er mai ar raddfa fechan yr oedd hynny. Roedd dros eu hanner (58%) yn cynllunio buddsoddiad pellach yn y blynnyddoedd nesaf. Teimlid mai'r prif rwystrau i fuddsoddiad a thwf oedd diffyg cyfalaf a chyfyngiadau cynllunio.

Ar y llaw arall, mae busnesau lleol yn gweld eisiau lefelau uwch o dwristiaeth. Dywedodd 83% fod cynnydd mewn busnes un ai'n hanfodol neu'n angenrheidiol iddyn nhw gyflawni proffidioldeb rhesymol. Roedd busnesau bach yn chwilio am ragor o fusnes yn enwedig ym misoedd Tachwedd ac Ionawr a thrwodd i fis Mawrth. Ond roedd Mehefin a Hydref hefyd yn fisoedd yr oedd angen mwy o fusnes, o'u cymharu â chyfnod y Pasg a chanol haf sy'n tueddu i fod yn brysurach.

Profodd yr arolwg ymateb busnesau bach i restr o weithgareddau oedd ynglŷn ag AHNE Bryniau Clwyd o ran eu pwysigrwydd i lwyddiant eu busnes yn y dyfodol. Ceir y canlyniadau llawn yn Ffigwr 11 yn Atodiad 2. Rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf i farchnata mwy gweithgar, darparu gwybodaeth a brandio'r Bryniau fel lle i ymweld ag o. Roedd yna hefyd lawer o gefnogaeth i wefannau gwell a mwy o becynnu llety a gweithgareddau. Roedd busnesau hefyd am weld gwell cysylltiadau i'w hysbysu am yr AHNE, i gydweithio, ac i gael gwell trafodaeth am bolisiau cynllunio.

1.10 Adborth cyfranogwyr

Yn ogystal ag ymgynghori unigol, cafwyd golwg gytbwys ar farn cyfranogwyr mewn tri gweithdy a gynhaliwyd mewn gwahanol rannau o'r Bryniau. Daeth tua 70 o gyfranogwyr yno, gyda chymysgedd dda o swyddogion y sector gyhoeddus, mentrau twristiaeth, diddordebau cadwraeth a chynrychiolwyr cymunedau lleol.

Roedd yr ymarferiadau cychwynnol yn golygu gweithio mewn parau i restru, yn ôl eu pwysigrwydd, dri o'r amcanion pwysicaf ar gyfer strategaeth dwristiaeth i'r Bryniau, o restr oedd wedi ei pharatoi'n gynharach. Fe bwyswyd y canlyniadau ac fe restrir yr amcanion yn ôl eu pwysigrwydd isod.

Gwella gwybodaeth ar fynediad a mannau i ymweld â nhw yn y Bryniau
Cryfhau ymwybyddiaeth a hunaniaeth y Bryniau
Gwella ansawdd profiad ymwelwyr â'r Bryniau
Rheoli'r effaith ar yr amgylchedd lleol – fflora a ffawna
Ymestyn cwmpas cynnyrch twristiaeth a gynigir o fewn y Bryniau
Cefnogi'r gwasanaethau y mae'r rheiny sy'n byw yn y Bryniau yn dibynnu arnynt
Rheoli effaith ymwelwyr ar y gymuned leol
Cefnogi busnesau twristiaeth presennol o fewn y Bryniau
Darparu mwy o adnoddau ar gyfer gweithgaredd cadwraethol o fewn y Bryniau
Annog ymwelwyr i leihau eu dibyniaeth ar geir preifat
Annog ymwelwyr i ymestyn cyfnod eu harhosiad
Ymestyn tymor ymweliadau â'r Bryniau
Doed â chyfleoedd gwaith newydd i'r ardal

Rhoddwyd blaenoriaeth i faterion gwybodaeth, hunaniaeth ac ansawdd profiad yr ymwelwyr, ac yna bryderon am reoli effaith ar yr amgylchedd a chymunedau. Roedd amcanion mwy penodol, fel lleihau dibyniaeth ar gar, ymestyn cyfnod arhosiad a darparu mwy o swyddi, yn llai tebygol o gael eu nodi yn y tri uchaf. Datgelodd trafodaeth er nad ystyrid fod y rhain yn llai pwysig, teimlai cyfranogwyr y byddai hyrwyddo'r ardal yn gyffredinol yn fwy effeithiol fel cyrchfan ymwelwyr wedi ei rheoli'n dda ac o ansawdd uchel, yna byddai manteision eraill yn deillio o hyn.

Treuliodd cyfranogwyr yn y gweithdai amser yn nodi'r manteision a'r problemau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ym Mryniau Clwyd, eu gweledigaeth o dwristiaeth yn yr ardal mewn 10 mlynedd, a rhai syniadau i'w gweithredu.

Gwelid manteision gan fwyaf yn nhermau dod â bywyd a ffyniant i'r ardal, cefnogaeth i siopau lleol a gwasanaethau a swyddi lleol. Teimlai cyfranogwyr fod incwm twristiaeth o fudd i gadwraeth a hunaniaeth ddiwylliannol a chyfleoedd gweithgareddau hamdden y gellid eu mwynhau gan y trigolion. Crybwyllwyd manteision iechyd gweithgareddau awyr agored.

Fe nodwyd dwy brif broblem. Y gyntaf oedd tagfeydd traffig ar y ffyrdd ac yn y pentrefi. Ystyrid fod safleoedd parcio'n annigonol mewn mannau, ond cydnabyddid hefyd fod yr ateb yn fwy cymhleth na dim ond ymestyn darpariaeth parcio ceir, nad oes neb yn ei ffafrio. Ystyrid fod trafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol a bod y cysylltiadau'n wael, ond hyd yn oed os cawsai hynny eu gwella roedd amheuaeth y gellid cyflawni troi sylweddol i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio ceir. Yr ail brif broblem a nodwyd oedd rhai gweithgareddau penodol oedd yn creu aflonyddwch a difrod arall, sef mynediad i foduron ar y brynau a rhai digwyddiadau chwaraeon modur eraill. Teimlid fod is-ddeddfau i atal hyn yn annigonol neu'n cael eu gweithredu'n wael. Problemau eraill a godwyd oedd: ansawdd amrywiol cyfleusterau ymwelwyr; cymhwysiad rheolau cynllunio anhyblyg; marchnata annigonol; arwyddion gwael mewn mannau; ac anwadawlch busnes tymhorol (er bod cyfranogwyr wedi nodi peth gwelliant gyda'r mater olaf hwn).

Y weledigaeth ar gyfer y dyfodol oedd ardal nodedig, yn fwy adnabyddus fel lle i aros, oedd wedi cynnal a gwella ei hansawdd arbennig. Gwelid twristiaeth ar raddfa fechan, gyda busnesau bach oedd yn fwy cysylltiedig â'i gilydd nag ar hyn o bryd, yn ei ddarparu. Dylid annog pecynnu cyfleoedd. Gwelid y Bryniau fel lle ar gyfer mwynhad tawel o gefn gwlad, yn apelio at ystod o farchnadoedd, ac ar gyfer set penodol o weithgareddau. Gwelid cerdded ac, i raddau llai beicio mynydd yn rheswm mawr i bobl ddod i'r ardal. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i weld cymunedau lleol yn ymglymu mwy mewn cynllunio ac yn elwa o dwristiaeth ac yn rhyngweithio ag ymwelwyr. Teimlid hefyd ei bod yn bwysig gweld gwell mantais i ffermwyr drwy wariant ymwelwyr, yn uniongyrchol neu drwy symbylu gwerthu cynnyrch lleol. Cefnogwyd arallgyfeirio creadigol a phriodol, yn cynnwys defnyddio adeiladau presennol, gydag addasu polisïau cynllunio i ganiatáu hyn. Roedd yna awydd i weld mwy o wariant y pen gan ymwelwyr, a hefyd gynnydd cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a sut i'w diogelu.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y gweithdai ar gyfer gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- Marchnata gwell, yn cynnwys ailasesu ymgyrch Gororau Gogledd Cymru a sut y gall Bryniau Clwyd elwa o hyn.
- Sicrhau cyd-drefniant gyda mentrau twristiaeth eraill yn Sir Ddinbych a Sir Fflint
- Cryfhau gwefan Bryniau Clwyd a'r cysylltiâu i mewn iddi ac allan ohoni.

- Hyfforddiant sydd wedi ei lunio'n dda ar gyfer anghenion busnesau a'u gallu i ymateb iddo.
- Gwell ymgyfarwyddiaeth busnesau â'r AHNE a'i phriodolledau.
- Gwell cydlynad darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwell gwybodaeth o ymwelwyr cyfredol a'r hyn fyddai'n eu hannog i wario mwy o amser ac arian yma, a gwell adborth ganddynt fel symbylydd ansawdd.
- Datblygu ystod ehangach o weithgareddau, yn cynnwys twristiaeth marchogaeth.
- Datblygu a chysylltu mwy o atyniadau bach a safleoedd dehongli.
- Gwell gwybodaeth, yn cynnwys creu un daflen ar gyfer y Bryniau, yn dangos y prif leoliadau a'r prif weithgareddau.
- Darparu a hyrwyddo ystod o deithiau i bobl o bob gallu.

1.11 Tueddiadau'r Farchnad

Mae gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad ym Mryniau Clwyd ei hun yn weddol gyfyngedig. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos fod gofynion twristiaeth wedi bod yn tyfu yn y blynyddoedd diwethaf fel y gwelir oddi wrth nifer yr ymwelwyr yn yr atyniadau a chanlyniadau ein harolwg busnes. Mae ardal Gororau Gogledd Cymru'n ymddangos i fod yn perfformio ychydig yn well na Chymru yn ei chyfanrwydd.

Mae Croeso Cymru wedi peidio gwneud arolygon marchnad meintiol. Yn hytrach, caiff marchnata ei harwain gan asesiadau o dueddiadau perthnasol, yn cynnwys tueddiadau economaidd ehangach a newidiadau mewn ffordd o fyw. Mae segmentiad marchnadoedd yn seiliedig yn y lle cyntaf ar ffactorau agwedd.

Y segment domestig a nodir fel darparwr y cyfle mwyaf i Gymru ac sy'n cael ei dderbyn fel blaenoriaeth mewn marchnata yng Nghroeso Cymru yw'r Fforiwr Annibynnol. Mae disgrifiad y segment hwn, sy'n dilyn, yn awgrymu ei fod yn siwtio cryfderau a dyheadau Bryniau Clwyd:

Mae fforwyr annibynnol yn chwilio am brofiadau a lleoedd newydd. Maent yn weddol uchel ael ac yn tueddu i fod yn oedolion o 30 oed a hŷn. Maent yn osgoi'r cyrchfannau ymwelwyr sydd wedi eu gorfasnacheiddio. Mae ganddynt eu syniadau eu hunain ac ni fyddant yn dilyn yr haid. Mae eu hysbryd yn rhydd, maent yn chwilio am fannau sy'n caniatáu iddynt eu hunaniaeth, sy'n eu cyfoethogi, ac sy'n eu herio. Maent yn hoffi ymgyfarwyddo â lle i ddeall diwylliant, i gyfarfod y bobl ac i ddychwelyd wedi eu hadnewyddu a'u cyfoethogi.

Mae'r segment marchnad uchod yn cysylltu'n dda â nifer o dueddiadau'r farchnad gyffredinol y gellir eu gweld yn y DU yn ei chyfanrwydd. Ceulid crynhoi'r rhai sy'n fwyaf perthnasol i Fryniau Clwyd fel a ganlyn:

- Twf cyfredol mewn arosiadau byr, i ddinasoedd ond hefyd i gefn gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys arosiadau penwythnos ond hefyd arosiadau estynedig a chanol wythnos.
- Adferiad marchnadoedd tramor, yn cynnwys marchnadoedd traddodiadol Iwerddon, UDA, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Ffrainc, sy'n brif dargedau Croeso Cymru.
- Twf cyfredol mewn ymweliadau dyddiol, ond sy'n cael eu heffeithio gan faterion mynediad a thagfeydd.
- Poblogaeth sy'n gynyddol ariannol gyfoethog ond yn dlawd o ran amser
- Tueddiad cyffredinol i lety o ansawdd uwch berfformio'n well nag eraill
- Newid hinsawdd - symbylu mwy o arosiadau penwythnos y tu allan i brif gyfnod yr haf
- Awydd cynyddol am brofiadau newydd a fforio mannau nodedig, gwahanol.

- Cynnydd yn y pryder am iechyd a diddordeb mewn gweithgareddau egnïol – ar deithiau dydd a gwyliau
- Twf sylweddol diweddar mewn defnyddio'r rhyngrwyd i gasglu gwybodaeth ar ymweliadau
- Diddordeb ac ymwybyddiaeth gynyddol yn yr amgylchedd
- Cystadleuaeth gyfredol gref gan gyrchfannau tramor, wedi eu symbylu gan deithiau awyr rhad.

1.12 Dadansoddiad SWOT

Gellir crynhoi asesiad twristiaeth ym Bryniau Clwyd, yn seiliedig ar ymgynghoriad a thystiolaeth a gydosodwyd yn y bennod hon, yn nadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) a ganlyn. Mae'n bwysig nodi yr ystyrir 'Cyfleoedd' yn ffactorau allanol a mewnol sy'n creu cyd-destun ar gyfer llwyddiant y dyfodol, yn hytrach nag fel rhestr o gyfleoedd penodol i'w dilyn.

Cryfderau

- Tirweddau deniadol naturiol ac o waith dyn yn yr ardal drwyddi draw
- Crib ucheldir nodedig – gweledog a chanfyddadwy
- Dynodiad AHNE – un o ychydig yng Nghymru
- Golygfeydd eang iawn
- Agosrwydd at boblogaeth fawr (ond mae hyn hefyd yn wendid)
- Bryniau graddol a hawdd eu cyrchu, o'u cymharu â rhan helaeth o Gymru
- Bryngaerau a Thŵr Jiwbilî, yn creu siapiau a nodweddion eiconig
- Diddordeb naturiol a diwylliannol penodol (grugieir, daeareg, bryngaerau etc.)
- Rhaglen o ddigwyddiadau thematig
- Amrywiaeth o barciau gwledig a mannau eraill â mynediad dan reolaeth
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn Llwybr Cenedlaethol poblogaidd sefydledig
- Datblygiad diweddar cyfleusterau beicio mynydd
- Rhai pentrefi darluniaidd
- Trefi mynedfa deniadol a hanesyddol
- Agosrwydd at ardaloedd gwledig deniadol eraill - Dyffryn Clwyd, Dyffryn Llangollen, Proximity to other attractive rural areas - Vale of Clwyd, Vale of Llangollen, Aber y Ddyfrdwy
- Agosrwydd at yr arfordir

Gwendidau

- Maint bychan y Bryniau a'r AHNE, yn cyfyngu ar y sgôp fel cyrchfan
- Nifer cyfyngedig o lety yn y Bryniau ei hun
- Llawer o lety anghofrestredig – o ansawdd amrywiol mae'n debyg ac yn anodd eu hyrwyddo
- Ychydig iawn o atyniadau amrywiol
- Ffermydd nad ydynt ynghlwm iawn â thwristiaeth
- Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o frand Bryniau Clwyd, yn enwedig y tua llan i'r ardal
- Parcio a chynhwysedd ffyrdd cyfyngedig
- Trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a chysylltiadau gwael
- Amser staff cyfyngedig i allu rhoi sylw i'r AHNE (o'i gymharu ag ardaloedd eraill sydd wedi eu diogelu)

Cyfleoedd

- Ymlyniad lleol cryf i Fryniau Clwyd
- Cefnogaeth bositif i dwristiaeth gynaliadwy gynyddol gan ystod eang o gyfranogwyr
- Trefi mynediad yn awyddus i gael gwell cysylltiad â'r Bryniau ac elwa mwy arno
- Marchnad gynyddol i arhosiadau byr, y segment Fforwyr Annibynnol yn benodol
- Marchnad gynyddol gweithgareddau awyr agored
- Prosiect Grug a Bryngaerau'n darparu symbyliad i fynediad a dehongliad creadigol
- Gwasanaeth Bws Clwyd wedi ei sefydlu'n barod fel menter i'w datblygu
- Nifer o fentrau lleol eraill y gellid eu cryfhau a'u hymestyn
- Estyniad yr AHNE i'r de, o bosib
- Cynlluniau Datblygu Gwledig newydd a chyfleoedd ariannu cysylltiedig
- Mae'r Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol yn darparu cyfoeth o wybodaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o'r ardal
- Cronfa Ddatblygu Gynaliadwy fel ffynhonnell ariannu posibl

Bygythiadau

- Gorgyffyrddiad brandiau cyrchfan, yn creu anhrefn a dyblygiad ymdrech
- Diwylliant o ddibyniaeth ar ariannu allanol, yn enwedig o Ewrop
- Mae pwysau cynyddol gan ymwelwyr dyddiol, yn enwedig gan geir, yn achosi dictter lleol ac yn dibrisio'r profiad ar gyfer ymwelwyr sy'n aros.
- Toriadau mewn cyllidebau'r awdurdod lleol i gefnogi twristiaeth a'r isadeiledd angenrheidiol
- Cystadleuaeth gynyddol gan gyrchfannau eraill yn y DU ac Ewrop, yn cynnwys ardaloedd cymdogol fel Ardal y Llynnoedd ac Eryri.
- Datblygiadau a gweithgareddau amhriodol sy'n niweidio apêl arbennig yr ardal

2 STRATEGAETH

Mae'r bennod hon yn edrych ar gyd-destun y polisi cyfredol ar gyfer twristiaeth ym Bryniau Clwyd, ac yn tynnu sylw at anghenion y Siarter Ewropeaidd. Yn deillio o'r asesiad a'r dadansoddiad yn y bennod flaenorol, mae'n gosod allan ymdriniaeth strategol a gweledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn yr AHNE, yn nodi marchnadoedd targed ac yn cyflwyno cyfres o amcanion ymarferol sy'n ffurfio fframwaith i'r cynllun gweithredu.

2.1 Fframwaith y polisi cyfredol

Dylai'r strategaeth dwristiaeth ar gyfer Bryniau Clwyd adlewyrchu, lle bo hynny'n bosib, y polisiâu cyfredol ar gyfer datblygiad, amgylchedd, cefn gwlad, diwylliant a thwristiaeth gynaliadwy yng Nghymru a'r rhanbarth (Sir Ddinbych a Sir Fflint). Mae'n hynod bwysig hefyd fod y strategaeth wedi ei chyfuno'n agos â'r Cynllun Rheoli ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd..

Mae dadansoddiad o rai o brif ddogfennau'r polisi cyfredol wedi eu cynnwys yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn. Y prif bwyntiau sy'n codi o'r dadansoddiad hwn sydd â pherthnasedd arbennig i strategaeth dwristiaeth gynaliadwy yw fel a ganlyn:

- Fe nodir twristiaeth yn glir fel grym economaidd pwysig yn Sir Ddinbych a Sir Fflint. Cyfeirir ato'n benodol yn y Cynlluniau Datblygu Economaidd i'r ddwy sir, gan y'i hystyri yn sector sy'n arddangos twf marchnad gyda'r gallu i gynhyrchu cyflogaeth yn lleol mewn pentrefi a threfi bach. Mae'r strategaethau'n galw am well ansawdd, sgiliau a chyrchiad i'r farchnad (yn cynnwys pecynnu) yn y sector.
- Yn fwy penodol, cydnabyddir fod twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol iawn i'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru a'r ddwy Strategaeth Datblygu Gwledig (SDG) i Sir Ddinbych a Sir Fflint. Gwelir ei swyddogaeth allweddol yma i helpu i arallgyfeirio'r economi wledig mewn ffordd fydd yn cefnogi arbenigrwydd diwylliannol, ymwybyddiaeth o le ac ansawdd yr amgylchedd. Gelwir am integreiddiad cryf gydag agweddau eraill ar yr economi wledig. Fe nododd y SDG flaenoriaethau twristiaeth mwy penodol, yn cynnwys gwella safonau ansawdd, marchnata cydweithiol, defnydd o TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chysylltiadau) a hyrwyddo twristiaeth amgylcheddol
- O fewn cyd-destun strategaethau twristiaeth ynddi ei hun, mae cysyniad twristiaeth gynaliadwy yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo'n glir yng Nghymru. Mae'n un o bedwar o themâu allweddol Strategaeth Twristiaeth Cymru, Cyflawni ein Potensial, gan arwain at fanteision i'r cymunedau lleol a'r amgylchedd
- Cydnabyddir ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r dirwedd fel adnodd twristiaeth allweddol mewn strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn y cyswllt hwn, mae'r strategaethau twristiaeth rhanbarthol a lleol eisoes yn cydnabod Bryniau Clwyd fel ased dwristiaeth allweddol i ogledd ddwyrain Cymru, sydd hyd yma'n anadnabyddus.
- Mae'r themâu allweddol sy'n ymddangos ym mhob strategaeth dwristiaeth yn cynnwys: lleihau anwadalwch tymhorol; manteisio ar dwf arhosiadau byr; cryfhau arbenigrwydd lleol; gweithio mewn partneriaeth a gwella brandio a hunaniaeth cyrchfannau. Maent i gyd yn berthnasol i Fryniau Clwyd.

- Nid yw Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd yn cynnwys polisïau twristiaeth penodol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'w amcanion cyffredinol, ac yn creu'r cyd-destun iawn ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Mae dau o egwyddorion allweddol yn cynnwys:
 - UPS5: *I wella potensial economaidd yr ardal, wrth gymodi'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, er enghraifft drwy gyfleoedd twristiaeth ddiwylliannol.*
 - UPA4: *I godi proffil yr AHNE ymhlith y rhai hynny sy'n gweithio yno ac ymwelwyr â'r ardal.*
 Efallai mai'r Polisi sydd fwyaf uniongyrchol berthnasol yn y Cynllun Rheoli yw Polisi 6: *I hyrwyddo defnydd a mwynhad cynaliadwy tirwedd yr AHNE mewn ffordd sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynhwysedd cymdeithasol.*
- Mae yna ymdeimlad clir yng Nghynllun Rheoli'r AHNE ac amcanion y cynllun Grug a Bryngaerau, na ddylai polisïau a gweithrediadau tuag at ymwelwyr gael eu gorbwyso gan ystyriaethau economaidd. Mae polisïau allweddol yn ymwneud â gwella ymwybyddiaeth, gwerthfawrogiad, dealltwriaeth a mwynha. Mae cynhwysedd cymdeithasol a galluogi mynediad i bawb yn elfennau pwysig yng nghyd-destun y polisi.

Fe baratowyd Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer Sir Fflint, yn ymestyn dros y cyfnod 2007 – 2013. Mae gweledigaeth gyffredinol y strategaeth yn cwmpasu cynyddu nifer yr ymwelwyr, cynyddu gwerth twristiaeth, datblygu ymdeimlad cryfach o le ar gyfer Sir Fflint, gwella cyrchiad gwybodaeth, gwella ansawdd y llety a'r atyniadau a monitro effaith twristiaeth.

Mae strategaeth dwristiaeth newydd ar gyfer Sir Ddinbych ar fin cael ei chomisiynu. Bydd ganddi dasg benodol o ddod â gwahanol strandiau twristiaeth yn y sir at ei gilydd, yn cynnwys anghenion y llain arfordirol a Sir Ddinbych wledig. Bydd yn adlewyrchu strategaethau twristiaeth a chynlluniau gweithredu diweddar yn Nyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Clwyd, a bydd hefyd yn ceisio integreiddio'r strategaeth dwristiaeth hon a'r cynllun gweithredu ar gyfer Bryniau Clwyd i bolisïau twristiaeth ehangach a gweithrediadau ar gyfer y sir.

2.2 Gofynion y Siarter Ewropeaidd

Mae Bryniau Clwyd yn ceisio cydymffurfio â'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd sydd wedi eu Hamddiffyn a chael ei chydabod yn briodol dan y Siarter.

Mae'r Siarter Ewropeaidd yn cyfeirio'n benodol at y cydbwysedd rhwng anghenion yr amgylchedd, yr ymwelydd a'r gymuned. Mae'n pwysleisio'r angen i ddiogelu, datgelu a hyrwyddo rhinweddau pob ardal sydd wedi ei diogelu fel sail i'w cynnig i dwristiaid. Mae'n nodi pedwar amcan allweddol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd sydd wedi eu diogelu y mae angen strategaeth dwristiaeth gynaliadwy i'w hymdrin:

- I gadw, gwella a chael gwerth o'r amgylchedd a'r dreftadaeth
- I gynyddu manteision economaidd a chymdeithasol o dwristiaeth
- I amddiffyn a gwella ansawdd bywyd pobl leol
- I ymgymryd â rheolaeth ymwelwyr effeithiol a gwella ansawdd i'r dwristiaeth sydd ar gael.

Mae'r Siarter yn ymhelaethu ar y pedwar amcan yma mewn cyfres o 12 egwyddor, neu amcanion sylfaenol, sy'n dangos y ffordd i'r math o strwythurau a gweithrediadau sydd eu hangen. Y rhain yw:

1. I gynyddu ymwybyddiaeth o, a chefnogaeth i, ardaloedd sydd wedi eu hamddiffyn yn Ewrop fel rhan sylfaenol o'n treftadaeth, y dylid eu cadw, a'u mwynhau gan genedlaethau presennol a'r dyfodol.
2. I wella datblygiad a rheolaeth gynaliadwy twristiaeth yn yr ardaloedd a amddiffynnir, sy'n ystyried anghenion yr amgylchedd, trigolion lleol, busnesau lleol ac ymwelwyr.
3. I ymglymu pawb sydd ynghlwm â thwristiaeth yn ac o gwmpas yr ardal a amddiffynnir yn ei datblygiad a'i rheolaeth.
4. I baratoi a gweithredu strategaeth dwristiaeth gynaliadwy a chynllun gweithredu ar gyfer yr ardal a amddiffynnir.
5. I amddiffyn a gwella treftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal, ar gyfer a thrwy dwristiaeth, ac i'w hamddiffyn rhag gor-ddatblygiad twristiaeth.
6. I ddarparu'r holl ymwelwyr â phrofiad o ansawdd ym mhob agwedd ar eu hymweliad.
7. I gysylltu'n effeithiol ag ymwelwyr am ansawdd arbennig yr ardal.
8. I annog cynnyrch twristiaeth penodol sy'n galluogi darganfyddiadau a dealltwriaeth o'r ardal.
9. I gynyddu gwybodaeth o'r ardal a amddiffynnir a materion cynladwyedd ymysg pawb sydd ynglŷn â thwristiaeth.
10. I sicrhau fod twristiaeth yn cefnogi ac nid yn lleihau ansawdd bywyd trigolion lleol.
11. I gynyddu manteision i'r economi leol gan dwristiaeth.
12. I fonitro a dylanwadu ar lif ymwelwyr i leihau'r effeithiau negyddol.

Mae gofynion penodol ar gyfer dyfarnu'r Siarter yn cynnwys:

- Strwythur parhaol ar gyfer cydweithio. Yn benodol, mae'r Siarter yn disgwyl y dylid: *Sefydlu fforwm parhaol, neu drefniant cyfartal rhwng awdurdod yr ardal a amddiffynnir, bwrdeistrefi lleol, sefydliadau cadwraeth a chymunedol a chynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth*
- Strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal a amddiffynnir. Dylid seilio hyn ar ymgynghoriad lleol ac asesiad o anghenion a chyfleoedd ardal. Dylai amcanion y strategaeth fod yn unol â'r pedwar amcan allweddol a roddir uchod..
- Cynllun gweithredu am bum mlynedd. Dylai hwn nodi cyfrifoldebau'r gwahanol chwaraewyr a sicrhau gweithredu 12 egwyddor y Siarter yn yr ardal a amddiffynnir.

2.3 Ymdriniaeth strategol

Yn seiliedig ar ein hymgynghoriad, arolygiadau a chasgliadau, awgrymwn y dylai'r strategaeth dwristiaeth gynaliadwy ar gyfer Bryniau Clwyd gynnwys yr ymdriniaeth ddilynol:

- **Cydnabod Bryniau Clwyd fel perl yn arlwy cynnyrch twristiaeth Gororau Gogledd Orllewin Cymru (a thu hwnt i hyn o fewn Gogledd Cymru a Chymru gyfan) yn seiliedig ar fynediad hwylus i dirwedd eithriadol a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol sy'n gysylltiedig â hi.**

- Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i ddiogelu'r amgylchedd ac ansawdd arbennig yr ardal, ac i reolaeth ymwelwyr, fel sail i dwristiaeth gynaliadwy, a chael cydnabyddiaeth am hyn ar lefel genedlaethol ac Ewropeaidd.
- Datblygu ac ymestyn ystod o brofiadau amrywiol i ymwelwyr, wedi eu cefnogi gan gyfleusterau a gwasanaethau ymwelwyr o ansawdd uchel, wedi eu seilio yn y lle cyntaf o gwmpas gweithgareddau awyr agored a dehongliad treftadaeth.
- Ceisio gwell adenillion i'r economi leol gan bobl sy'n dod i'r Bryniau, ymestyn hyd yr arhosiad a'r gwariant y pen.
- Helpu mentrau twristiaeth lleol¹³ i ddeall ansawdd arbennig y Bryniau, i uniaethu ag o, i gydweithio, ac i gyfleu'r priodoleddau hyn i ymwelwyr.
- Dilyn polisi rheoli ymwelwyr gweithredol, yn seiliedig ar ddarparu cyfleusterau ardderchog mewn rhai mannau allweddol, anogaeth gall i fforio a gwasgaru, a hyrwyddo mynediad sy'n garedicach i'r amgylchedd.
- Gweithio gyda chymunedau lleol i gael mwy o fudd o dwristiaeth ac i isafu'r pwysau arnyn nhw.
- Ychwanegu gwerth i'r cynnyrch twristiaeth, ac felly'r ffyniant economaidd, yng ngweddill Sir Ddinbych a Sir Fflint, ac yn enwedig yn y trefi mynedfa o gwmpas, sef yr Wyddgrug, Rhuthun, Dinbych a Phrestatyn.
- Ennill o'r gwasanaethau a'r atyniadau cyflenwol sydd ar gael yn yr ardal o amgylch a'r trefi mynedfa.

2.4 Gweledigaeth

Yn 2013:

Mae Bryniau Clwyd yn ardal ucheldir gwych, adnabyddus, hygyrch iawn a chyda golygfeydd anhygoel, yn darparu un o'r prif resymau pam fod pobl yn dod i Ogledd Ddwyrain Cymru. Daw llawer o bobl yma am arhosiad byr o ddwy noson neu fwy, gan aros mewn llety gwledig o ansawdd yn y Bryniau neu yn y trefi a'r pentrefi o gwmpas. Mae llawer ohonynt yn ymwelwyr sydd wedi dychwelyd, wedi dod yma i ddechrau am y diwrnod neu'n pasio drwodd ond yn awr yn dewis aros.

Mae'r ardal yn darparu ystod eang o weithgareddau awyr agored y gall ymwelwyr eu dewis a'u bwcio drwy wybodaeth sy'n hawdd ei defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn frwdfrydig am dirwedd yr ardal, geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a'r safleoedd treftadaeth diddorol, yn deall ychydig amdanynt ac yn cefnogi eu cadwraeth.

Mae cyfran y bobl nad ydynt yn ddibynnol ar gar preifat i gyrraedd neu fforio'r Bryniau wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn ac mae'n awr wedi cyrraedd dros 25%. Mae mynediad i geir wedi ei reoli'n effeithiol, ac nid yw tagfeydd a pharcio ceir yn broblem.

Mae dros 60% o fentrau twristiaeth ynghlwm â rheolaeth yr amgylchedd ac fe'i cydnabyddir am hynny. Maent hefyd yn gwbl ymwybodol o briodoleddau arbennig y

¹³ Mae hyn yn cynnwys mentrau gwledig fel siopau, tafarnau, garejis a swyddfeydd post, oherwydd eu rhan hanfodol ym mhrofiad yr ymwelydd

Bryniau ac fe gyfathrebir hyn i'w gwesteion. Mae'r mentrau'n teimlo eu bod ynghlwm â'r rheolaeth, cadwraeth a hyrwyddo'r Bryniau fel lleoliad twristiaeth awyr agored a chynaliadwy, gyda chydgyssylltu da rhyngddynt a chyda'r AHNE a thimau rheoli cefn gwlad.

2.5 Marchnadoedd targed

Prif dargedau:

Arhosiadau byr ac estynedig, gymerir yn yr ardal

Marchnad gyffredinol, cyplau gan fwyaf heb blant dibynnol. Diddordeb mewn fforio ardaloedd gwledig gyda chymysgedd o gerdded a threftadaeth. Gall rhai fod yn ail ymweld â'r ardal. O ogledd Lloegr a'r Midlands gan fwyaf.

Rhai actif sy'n ceisio gweithgareddau hamdden awyr agored gyda gweithgaredd yn brif bwrpas eu gwyliau.

Y brif farchnad yw gwyliau cerdded, yn llinellol ond hefyd o ganolfan. Mae'r marchnadoedd eraill yn cynnwys beicio, beicio mynydd a marchogaeth ceffylau, a diddordebau penodol eraill fel pysgota. Dylid targedu'r farchnad aros, drwy wybodaeth yn cysylltu llety gydag ystod o weithgareddau.

Targedau eilradd:

Rhai sy'n cymryd gwyliau yng Nghymru – domestig a thramor

Ymwelwyr â Chymru (Gogledd Cymru'n arbennig) y gellid eu hannog i gynnwys y Bryniau yn eu dewis o lefydd i ymweld. Dylid alinio gyda thargedau Croeso Cymru ar gyfer marchnadoedd domestig a thramor. Mae segment 'fforwyr annibynnol' yn arbennig berthnasol..

Traffig trawstaith

Defnyddwyr yr A55 a ffyrdd-drwodd eraill i Eryri ac Iwerddon (Caergybi). Dylai'r ymdriniaeth gynnwys annod arhosiadau, ond yn fwy arbennig godi ymwybyddiaeth a diddordeb er mwyn dychwelyd.

Grwpiau addysgol

Mae hyn yn cynnwys grwpiau addysgol ffurfiol ac anffurfiol, yn seiliedig yn y lle cyntaf ar addysg awyr agored ac addysg amgylcheddol.

Seligion bywyd gwyllt/cadwraeth

Pobl sydd â diddordeb cyffredinol neu benodol mewn bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth a chadwraeth, a allai fod wedi eu denu gan ddigwyddiad arbennig neu am gymryd rhan mewn gweithgaredd.

Ymwelwyr dyddiol

Dyma segment a ystyrir yn farchnad i'w dylanwadu (gan geisio cynnydd mewn gwariant a chyrchiad amgen) yn hytrach nag estyniad. Fodd bynnag fe ellid ceisio twf ar adegau llai prysur o'r flwyddyn.

2.6 Amcanion

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, ac yn dilyn yr ymdriniaeth strategol a amlinellir uchod, fe argymhellir cyfres o weithrediadau yn ystod y pum mlynedd nesaf. Fe ddilyni'r y gweithrediadau hyn o fewn fframwaith y pum amcan canlynol.

6. I godi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r oll sydd ganddynt i'w gynnig i ymwelwyr, annog fforio ac arhosiadau hirach.

Mae'r amcan hwn yn benodol berthynol i egwyddorion 1 a 7 y Siarter Ewropeaidd ynglŷn â chyfathrebiad effeithiol priodoleddau arbennig yr ardal a amddiffynnir i ymwelwyr, wrth gefnogi hefyd egwyddor 11 ar gynhyrchu manteision i'r economi leol.

7. I ddatblygu a gwella casgliad o brofiadau ymwelwyr yn seiliedig ar weithgaredd hamdden awyr agored a gwerthfawrogiad o dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal

Mae hyn yn ganolog i 8 egwyddor y Siarter ar hyrwyddo cynnyrch penodol sy'n galluogi darganfod a deall yr ardal. Mae hefyd yn cefnogi egwyddor 6 ar ansawdd profiad yr ymwelydd.

8. I annog a chefnogi mentrau sy'n berthnasol i dwristiaeth drwy ddatblygu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau, rheolaeth amgylcheddol, a'u perthynas â'r AHNE

Mae hyn yn ymwneud yn y lle cyntaf ag egwyddor 6 y Siarter ar ansawdd, ond mae'n bwysig hefyd o ran egwyddor 5 ar effaith ar yr amgylchedd, a 3 a 9 o ran ymglymiad a gwybodaeth cyfranogwyr.

9. I wella rheolaeth y llif ymwelwyr i, ac o fewn, y Bryniau, yn cynnwys yr effaith ar yr amgylchedd a'r cymunedau o fewn yr AHNE ac yn yr ardal o gwmpas.

Mae'r amcan hwn yn cefnogi egwyddor 5 y Siarter ar ddiogelu'r amgylchedd, egwyddor 10 ar yr effaith ar ansawdd bywyd y cymunedau, ac egwyddor 12 ar fonitro a dylanwadu ar lif ymwelwyr.

10. I gryfhau dealltwriaeth o'r ymwelwyr i'r AHNE ac effeithiau twristiaeth ar yr ardal.

Mae hyn yn y lle cyntaf yn berthnasol i egwyddor 12 y Siarter, ond mae hefyd yn berthynol i egwyddor 5 ar ddiogelu a 8 ar wybodaeth cyfranogwyr.

2.7 Dangoswyr

Egwyddor allweddol twristiaeth gynaliadwy yw y dylai ymglymu proses o fonitro effeithiau ar yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd yn rheolaidd, fel y gellid ymgymryd â gweithrediadau i addasu yn wyneb newidiadau annerbyniol.

Mae angen dangoswyr cynladwyedd, fel y gellid monitro newidiadau yn eu herbyn.

Gwnaethpwyd aml i astudiaeth i nodi dangoswyr cynladwyedd ar gyfer cyrchfannau. Cynhyrchwyd rhestr o 50 o ddangoswyr posibl yn ddiweddar ar gyfer Grŵp Cynladwyedd Twristiaeth yr Undeb Ewropeaidd¹⁴. Gellir defnyddio hwn yn sail i ddewis dangoswyr ar gyfer y Bryniau. Fodd bynnag, awgrymir y dylid mabwysiadu'r dangoswyr canlynol o'r rhestr fel prif ddangoswyr:

- Nifer yr ymwelwyr mewn safleoedd allweddol (mynediad, tocynnau meysydd parcio)
- Nifer a % gwelyau mewn llety graddedig cofrestredig/o safon (archwiliad)
- Cyfradd llenwi fisol llety (sampl barhaus o fusnesau'n cytuno i ddarparu data)
- Cyfartaledd gwariant y pen (arolwg ymwelwyr)
- Cyfartaledd hyd yr arhosiad (arolwg ymwelwyr)
- % yr ymwelwyr sy'n cyrraedd heb fod wedi defnyddio car (arolwg ymwelwyr)
- % yr ymwelwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o fewn cyrchfan (arolwg ymwelwyr)
- Nifer y swyddi a gefnogir (arolwg busnes)
- % y trigolion sy'n nodi eu bod yn fodlon gydag effaith twristiaeth yn lleol (arolwg trigolion)
- Cyflwr amgylcheddol safleoedd dethol (arsylwadol)
- % yr ymwelwyr sy'n fodlon ar y profiad (arolwg ymwelwyr)

Noder fod llawer o'r dangoswyr hyn wedi eu coladu gan ddefnyddio model STEAM. Mae cyfle i ddatblygu ei ddefnydd ar gyfer yr AHNE yn benodol

¹⁴ [Gweithredu dros dwristiaeth Ewropeaidd mwy cynaliadwy](http://ec.europa.eu/enterprise/services/tourism/doc/tsg/TSG_Final_Report.pdf)
http://ec.europa.eu/enterprise/services/tourism/doc/tsg/TSG_Final_Report.pdf

3 GWEITHREDU

Mae'r bennod hon yn disgrifio casgliad o weithrediadau fydd yn cael eu dilyn dros y pum mlynedd nesaf i weithredu'r strategaeth, wedi eu grwpio dan y pum amcan ymarferol. Yn y bennod olaf caiff y rhain eu crynhoi mewn tabl gweithredu, gyda blaenoriaeth, cyfrifoldebau, costau mynegol a ffynonellau ariannu wedi eu nodi.

1 I godi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r oll sydd ganddynt i'w gynnig i ymwelwyr, annog fforio ac arhosiadau hirach
--

Fe ymdrinnir â'r amcan hwn gan gasgliad o weithrediadau ar farchnata a thrawsgludiad gwybodaeth.

1a Diffinio brand Bryniau Clwyd a lledaenu canllawiau ar hunaniaeth a defnydd brand

Dylid tanlinellu trawsgludiad marchnata a gwybodaeth gan bolisi brand cryf. Dylai hyn olygu diffiniad brand ac yna ddarparu dyfeisiadau i lledaenu hunaniaeth, ymwybyddiaeth ac amlygiad y brand.

Mae logo cyfredol Bryniau Clwyd yn ddyfais sydd wedi ei sefydlu'n bur dda i ddangos cysylltiad â'r brand, gyda dyluniad priodol. Mae angen mwy o waith ar egluro gwerthoedd y brand sy'n gefndir i'r logo a sut, a chan bwy, y dylid ei gymhwyso.

Dylai gweithrediad gynnwys:

- Cytuno ar werthoedd craidd y brand, datganiad o safle a negeseuon cysylltiedig sy'n diffinio'r brand.
- Cytuno ar bolisi o ddefnydd logo Bryniau Clwyd. Dylai hyn gynnwys:
 - Ei gynnwys ar bob defnydd sy'n cyfeirio'n benodol ar y Bryniau
 - Ei ddefnyddio gan fusnesau a chyfranogwyr eraill sy'n dymuno cysylltu eu hunain â'r Bryniau, yn amodol ar gyfarfod â meini prawf cytûn. Gall y meini prawf hyn fod yn gysylltiedig ag achrediad amgylcheddol (gweler dan Amcan 3).
- Paratoi nodyn cyngor technegol ar sut y dylid defnyddio'r logo, yn cynnwys manylion graffeg a dyluniad.

1b Cryfhau proffil y Bryniau a'r ymdriniaeth â nhw mewn hyrwyddiad cyrchfan

Yr ymdriniaeth yma yw peidio sefydlu hyrwyddiad newydd drud ar wahân i'r Bryniau fel cyrchfan ond i sicrhau fod y Bryniau'n cael eu hyrwyddo'n llawer gwell gyda gweithgaredd marchnata cyrchfan presennol.

Mae hyn yn benodol berthnasol i ymgyrch Gororau Gogledd Cymru (gwefan a phrint) lle mae proffil y Bryniau'n isel iawn ar hyn o bryd. Efallai y gellir esbonio hyn yn rhannol gan ddiffyg llety ac atyniadau penodol yn y Bryniau, ond i'r gwrthwyneb gellir cyfiawnhau adnabyddiaeth proffil uwch y Bryniau fel nodweddd arbennig yn nhermau symbylu diddordeb mewn ymweld â'r ardal ehangach gyda manteision economaidd i ganlyn i bawb.

Bydd yr adolygiad o ardaloedd marchnata yng Nghymru a Strategaeth Marchnata Twristiaeth newydd Sir Ddinbych yn gosod ffiniau ar gyfer marchnata cyfredol yr ardal, a dylai hyrwyddiad y Bryniau glymu i mewn â hyn.

Dylai gweithredu gynnwys:

- Comisiynu, cynnal a darparu cyfres o ffotograffau o ansawdd uchel, yn nodweddu gwerthoedd brand craidd yr ardal ac adlewyrchu materion cynladwyedd o ran dethol safleoedd, gweithgareddau a thymhorau i esbonio.
- Paratoi testun addas am y Bryniau, a negeseuon penodol i'w cyfleu, a gellid eu defnyddio mewn gwahanol gyfryngau.
- Ceisio dylanwadu nid yn unig hyrwyddiad cyrchfannau perthynol i'r sector gyhoeddus (Gororau, siroedd, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, Croeso Cymru) ond hefyd y sector breifat a chyhoeddiadau masnachol.

1c Uchafu effaith gwefan Bryniau Clwyd

Y ffordd fwyaf cost effeithiol o ddigon i farchnata yw gwefan yr AHNE. Dylid rhoi blaenoriaeth uchaf i hyn fel sail i hyrwyddiad a thrawsgludiad gwybodaeth. Er bod rhai nodweddion cryf ar y safle presennol, fe ellid ei gwneud yn fwy effeithiol.

Dylid cwblhau rhaglen o ailwampio a datblygu'r safle, gan roi sylw arbennig i:

- Negeseuon mwy atgofus, wedi eu cefnogi gyda gwybodaeth galed, ar yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig.
- Pwyslais ar gyfleoedd ymweliadau aros – yn cynnwys gwybodaeth am lety a chysylltu hyn â gweithgareddau etc.
- Cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei ddylunio'n arbennig i adlewyrchu ymdriniaeth a gweithrediadau strategol a osodir allan mewn rhan arall o'r ddogfen hon - er enghraifft, nodwedd hynod ymarferol a gweledol ar gyrraedd a fforio'n Bryniau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwella defnyddioldeb y safle, o fapiau a rhestrau arnodedig, wedi eu cefnogi gan wybodaeth sy'n hawdd ei lawr lwytho.

Dylid gweithredu hefyd i yrru busnesau i'r safle. Gellid cyflawni hyn drwy gryfhau'r cysylltiadau i ac o'r safle a thrwy dechnegau rheoli cynnwys amrywiol sy'n uchafu gwelededd y peiriant chwilio. Dylid monitro geiriau allweddol i gyrraedd y safle ac addasu'r cynnwys yn unol â hynny.

1d Hyrwyddiad tactegol wedi ei dargedu a'i ddethol

Cynigir swm bychan o hyrwyddiad uniongyrchol y Bryniau (yn ychwanegol at yr ymdriniaeth mewn marchnata cyrchfan yn 1a). Dylai hyn fod yn benodol berthynol i annog twristiaeth aros, yn enwedig yn annhymhorol, a gall gysylltu â themâu a gweithgaredd arbennig fel y'u nodir yn Amcan 2.

Dylai gweithrediad gynnwys:

- Symbylu ymdriniaeth y cyfryngau, y cyfryngau awyr agored ac amgylcheddol yn benodol.
- Cymryd rhan mewn nifer fechan o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd sydd wedi eu dethol yn ofalus, gan ddefnyddio deunydd arddangos o ansawdd da.
- Cefnogi clystyrau o fusnesau gyda'u hyrwyddiadau eu hunain.
- Ymchwilio a gwella cyfleoedd i farchnata'r AHNE yng Ngogledd Orllewin Lloegr, Swydd Caer, y Wirral a Glannau Merswy yn benodol.

1e Cynhyrchu eitemau print pwrpasol ar gyfer holl brofiad y Bryniau

Dylai print fod ar gael sy'n gosod yn glir yr hyn sydd gan y Bryniau i'w gynnig. Dylid cyfeirio hyn at ymwelwyr sydd yn yr ardal yn barod, fyddai'n llai tebygol o gyrchu'r wefan, fel ag at bobl sy'n ceisio gwybodaeth cyn cyrraedd. Mae yna swyddogaeth bwysig ar gyfer dau fath gwahanol o brint:

- Steil cylchgrawn, gydag erthyglau'n disgrifio priodoleddau a nodweddion arbennig yr ardal, yn cryfhau dealltwriaeth, diddordeb a chefnogaeth. Caiff hyn ei berfformio'n dda gan Capturing the Clwyds a dylid ei barhau.
- Darn cyfeiriadaeth, cynhwysfawr, newydd, y gellid ei agor allan ac sy'n seiliedig ar fap. Amcan hyn yw ei gwneud lleoliad y Bryniau'n hollol glir, beth yw ei gynnwys, a'r holl wahanol ffyrdd i'w gyrchu a'i fwynhau. Yn wahanol i Capturing the Clwyds, sy'n rhoi copi atgofus, dylai ganolbwyntio ar wybodaeth galed. Dylai gynnwys cofnodion safonol ar atyniadau ymwelwyr a darparwyr gweithgareddau.

1f Gwella dosbarthiad a gwelededd gwybodaeth

Bydd cryfhau amlygiad ymwelwyr i wybodaeth yn dylanwadu ymddygiad ar ymweliadau presennol ac ail-ymweliadau yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a phroffil yr ardal.

Dylai gweithrediadau gynnwys:

- Adolygu pob proses ddosbarthu ac allfeydd.
- Uchafu gwelededd a defnydd gwybodaeth am y Bryniau mewn allfeydd llety, yn cynnwys defnyddio porwyr llofft
- Annog busnesau llety i wneud ymwelwyr yn ymwybodol o wybodaeth cyn iddynt gyrraedd – er enghraifft drwy ddarparu gwefan y Bryniau i bob ymholwr ac archebwr
- Codi gwelededd gwybodaeth am y Bryniau mewn amrywiaeth o allfeydd lleol - Canolfannau Croeso, siopau, garejis, feniws cyhoeddus - mewn raciau pwrpasol yn dwyn logo'r Bryniau.

1g Defnyddio arwyddion i godi ymwybyddiaeth o'r Bryniau

Cafwyd llwyddiant sylweddol gyda sicrhau arwyddion adnabyddiaeth ar gyfer y Bryniau mewn nifer o leoliadau. Gallai fod yn fwy cynhwysfawr eto.

Mae gweithrediadau'n cynnwys:

- Cwblhau arwyddion AHNE/Bryniau Clwyd ar briffordd yr A55.
- Paratoi a gweithredu amserlen i ddarparu arwyddion AHNE/Bryniau Clwyd ar bob prif lwybr i a thrwy'r AHNE
- Paratoi arwydd y gellid ei ddefnyddio fel ategiad i arwyddion mynediad i bentrefi i'w nodi fel cymunedau yn y Bryniau, a cheisio cytundeb gyda chymunedau i'w defnyddio.

2 I ddatblygu a gwella cyfres o brofiadau ymwelwyr yn seiliedig ar weithgareddau hamdden awyr agored a gwerthfawrogiad o dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal

Mae gweithrediadau i gyflawni'r amcan hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu a gwella cynigion cynnyrch o gwmpas themâu cefn gwlad, a'u cysylltu'n benodol i annog mwy o arhosiadau tros nos, a gwella'r ffordd y cânt eu cyflwyno i'r farchnad.

2a Cryfhau a phecynnu cynnig y cerdded

Mae cerdded yn apelio at farchnad fawr ac amrywiol a dyma brif gynnyrch y Bryniau. Mae Llwybr Clawdd Offa (LICO) yn gynhyrchydd busnes sylweddol i nifer helaeth o'r llety a'r tafarnau. Dylid dilyn ffyrdd o gael mwy o fantais gydol blwyddyn o'r farchnad. Caiff cofnodi a hyrwyddo llwybrau cerdded yn Sir Ddinbych a Sir Fflint eu cefnogi, ond dylid rhoi ystyriaeth bellach i godi proffil ac ymwybyddiaeth o lwybrau cerdded yn ac o gwmpas y Bryniau ei hun.

Dylid cyflwyno rhaglen weithrediadau gynhwysfawr i roi'r Bryniau'n wirioneddol ar y map fel prif ardal gerdded. Byddai hyn yn golygu:

- Defnyddio proffil LICO fel atyniad
- Gosod allan set o gyfleoedd cerdded ar bob lefel, yn cynnwys teithiau cylchol a theithiau llinol sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus
- Dod â gweithredwyr llety sydd â diddordeb mewn cerdded ynghyd – adolygu safonau croeso ymwelwyr a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u hyrwyddo'n lleol
- Ceisio digwyddiadau cyhoeddusrwydd a sylw'r cyfryngau am gerdded.
- Gwella'r cynnig ar gerdded ar brif safle gwefan BC, gyda chysylltiadau i safleoedd cerdded perthnasol eraill.
- Cynnal rhaglen o welliannau i lwybrau gyda blaenoriaeth i lwybrau gaiff eu hyrwyddo ar gyfer ymwelwyr.

2b Cryfhau a phecynnu cynnig y beicio mynydd

Mae beicio mynydd wedi bod yn destun nifer o fentrau gweithredol a llwyddiannus yn yr ardal yn y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys canolfan Llandegla a menter Reidio Clwyd. Mae'r rhain yn darparu'r sail i gadarnhau'r ardal fel un o'r prif gyrchfannau ar gyfer beicio mynydd. Mae angen gweithrediadau pellach, yn cynnwys:

- Darparu cefnogaeth barhaus i fenter Reidio Clwyd, yn cynnwys ceisio rhai ffyrddau incwm a allai wneud y fenter yn fwy cynaliadwy'n ariannol
- Cryfhau'r cysylltiadau gyda darparwyr llety lleol ymhellach.
- Ceisio estyniad gofalus i rwydwaith llwybrau beiciau mynydd
- Parhau'r gefnogaeth i ddigwyddiadau beicio presennol (h.y. Merida) a ddatblygu cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau a sialensau beicio newydd gan y sector breifat.

2c Ymchwilio a datblygu cynnyrch beicio ffyrdd/allffyrdd

Mae gwyliau beicio, a beicio achlysurol tra ar wyliau yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae cysylltiad yma â beicio mynydd (er enghraifft mae gan Landegla lwybr cylchol ar gyfer y teulu) ond yn gyffredinol mae'r ddarpariaeth ar gyfer marchnadoedd twrio beic a beicio teuluol yn ymddangos yn annigonol yn yr ardal.

Oherwydd maint bychan yr AHNE, efallai mai'r ffordd orau i ymdrin â marchnad y gwyliau beicio yw dros ardal ehangach Sir Ddinbych a Sir Fflint, ond gyda

gweithrediadau arbennig o fewn y Bryniau i gryfhau cyfleoedd yma. Gallai hyn gynnwys:

- Ymchwilio'r posibilrwydd o agor mwy o gyfleoedd beicio allffordd, yn cynnwys dichonolrwydd defnyddio'r hen lwybr rheilffordd o'r Wyddgrug i Ddinbych
- Nodi llwybrau ar ffyrdd sy'n addas ar gyfer beicio, gydag adolygiad a gweithrediad posibl mesurau rheoli a thawelu perthnasol.
- Gwella gwybodaeth i feicwyr a chryfhau marchnata yn yr ardal gyfan.

2d Datblygu cynnyrch marchogaeth a chynigion

Mae twristiaeth marchogaeth yn darparu marchnad sy'n fychan ond sy'n tyfu ac mae hefyd yn un o wariant uchel, yn addas ar gyfer llawer o ardaloedd gwledig sy'n ceisio hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.

Mae un ffurf ar dwristiaeth marchogaeth yn cynnwys darpariaeth gwyliau marchogaeth i bobl sydd â'u ceffylau eu hunain. Mae camau positif wedi eu cymryd yma gan Gadwyn Clwyd drwy eu cefnogaeth i ymgyrch *Cymru ar Gefn Ceffyl*, sy'n cynnig marchogaeth rhwng darparwyr llety gwledig. Mae'n ymwneud ag ardal eang ond mae 80% o ymholiadau am y Bryniau. Dylai hyn gael ei gynorthwyo ymhellach drwy:

- Wella llwybrau ceffyl, yn cynnwys cysylltiadau strategol goddefol lle bo'r angen
- Cefnogi gwelliannau i lety, yn cynnwys dod â nhw i fyny i safon ar gyfer graddio ansawdd
- Cefnogaeth bellach i farchnata.

Mae darpariaeth sefydliadau marchogaeth gyda cheffylau i'w hurio, fel canolfannau merlota, wedi bod yn statig mewn llawer o ardaloedd gwledig, yn rhannol oherwydd materion yswiriant. Fodd bynnag, y mae yna alw am hyn o hyd a dylid hyrwyddo cyfleoedd, ac annog datblygiadau pellach fel y bo'n addas.

2e Datblygu cysylltiadau a chynnyrch pysgota ymhellach

Y mae yna fwy o leoliadau ar gyfer pysgota yn yr ardal nag ar gyfer unrhyw weithgaredd awyr agored arall. Mae Cadwyn Clwyd wedi cynhyrchu taflen ar bysgota ym Mryniau Clwyd sy'n cysylltu'r lleoliadau hyn. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i gryfhau effaith y fenter yma, yn cynnwys:

- Dod â'r darparwyr ynghyd mewn rhwydwaith
- Datblygu ansawdd y wybodaeth, yn cynnwys hunaniaeth well â Bryniau Clwyd
- Cryfhau cysylltiadau â llety
- Hyrwyddiad tactegol cyfyngedig.

2f Datblygu digwyddiadau yn cynnwys themâu geoamrywiaeth, bioamrywiaeth, diwylliant a threftadaeth, a'u hyrwyddo fel profiad gwyliau

Rhaglen Digwyddiadau yng nghefn gwlad Sir Ddinbych yw un o gryfderau'r AHNE, a bu digwyddiadau themâu penodol yn arbennig o boblogaidd. Gallant fod yn dda i ysgogi ymweliadau ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac mae digwyddiadau gyda'r nos neu gynnar y bore'n annog arhosiadau tros nos. Enghraifft o hyn yw digwyddiadau gwyllo'r rugiar ddu. Dylid gwneud mwy o ddigwyddiadau a diddordebau cadwraeth fel adnodd twristiaeth, gyda gweithrediadau'n cynnwys:

- Ymestyn digwyddiadau themâu creadigol yn y rhaglen ac ymchwilio'r posibilrwydd o gynnwys digwyddiadau cymuned.
- Cyflawni hyrwyddiad gwell o raglen ddigwyddiadau drwy sefydliadau llety
- Amlygu digwyddiadau ar wefan a chyhoeddusrwydd BC

- Edrych ar y potensial i hyrwyddo a datblygu mwy o wyliau cadwraeth gweithgar.
- Defnyddio tudalennau gwe 'Digwyddiadau' Sir Ddinbych ac annog cymuned yr AHNE i gyflwyno eu digwyddiadau.

2g Gwella cydgysylltiad dehongli'r Bryniau fel elfen o brofiad yr ymwelydd

Mae yna wahanol gyfleoedd creadigol i wella dehongliad y dirwedd, y bywyd gwyllt a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Bryniau Clwyd, ac i ddefnyddio hyn i gryfhau profiad yr ymwelydd a hyd eu harhosiad. Mae rhaglen Grug a Bryngaerau yn dilyn nifer o fentrau dehongli a gynhwysir yn eu cynllun dehongli *Deall ein Hucheldir*. Mae'r Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol ar gyfer Bryniau Clwyd hefyd yn cefnogi gwahanol weithgareddau dehongli.

Mae'n bwysig fod y cynlluniau hyn, sydd â gwahanol gyfeiriadaeth, â pherthynas â'r strategaeth dwristiaeth gynaliadwy. Efallai y bydd angen cydlynid dehongli pellach i hyn ar ran yr AHNE, gan roi sylw arbennig i:

- Anghenion penodol yr AHNE, ei hamcanion cadwraeth a chysylltiadau â'r Cynllun Rheoli
- Y berthynas strategol rhwng dehongli, apêl safleoedd, llif ymwelwyr a gwybodaeth.

Yn seiliedig ar hyn, dylid cefnogi gweithrediadau penodol i weithredu ystod o ddarpariaeth dehongli, yn cynnwys:

- Arddangosiadau dehongli sensitif mewn amryw o safleoedd allweddol
- Darpariaeth cysylltiadau creadigol rhwng safleoedd, fel y llwybrau dehongli gan ddefnyddio technoleg newydd a argymhellir yn y rhaglen Grug a Bryngaerau.
- Cryfhau'r rhaglen ddigwyddiadau, fel y'i nodir yn 2f uchod.

Dylai'r gweithrediad dehongli hwn ymglymu cymunedau lleol, fel y'i ceir dan weithrediad 4d isod.

2h Cryfhau presenoldeb Bryniau Clwyd mewn hyrwyddiad ehangach o gynnyrch a chrefftau lleol

Mae ymgynghoriad wedi datgelu llawer o ddiddordeb mewn hyrwyddo bwyd lleol a chynnyrch crefftau, fel ffordd o gryfhau arbenigrwydd ardal ac o ddargadw mwy o wariant yn yr economi lleol. Fodd bynnag, teimlwyd yn gyffredinol fod swm y cynnyrch o fewn y Bryniau ei hun yn rhy gyfyngedig i gynnal ymgyrch ar wahân ar gyfer yr ardal.

Felly dylai gweithrediad olygu:

- Annog mwy o gyfranogiad gan gynhyrchwyr, defnyddwyr a chyflenwyr ym Bryniau Clwyd (e.e. ffermwyr, allfeydd a chyflenwyr arlwyfaeth) mewn cynlluniau bwyd/cynnyrch ehangach o fewn Sir Ddinbych, Sir Fflint ac ardal Cadwyn Clwyd yn ei chyfanrwydd.
- Nodi'n benodol y cynhyrchwyr/cynnyrch sydd yn y Bryniau, o fewn y cynlluniau ehangach hyn.

3	I annog a chefnogi busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wrth ddatblygu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau, rheolaeth amgylcheddol, a'u perthynas â'r AHNE
----------	---

Mae gweithrediadau i gyflawni'r amcan hwn yn golygu creu'r cyd-destun iawn i alluogi busnesau yn yr ardal i ffynnu a hefyd i gyfarfod ag amcanion cynladwyedd ehangach yr AHNE. Maent wedi eu canolbwyntio ar fusnesau twristiaeth, fel darparwyr llety, ond maent hefyd yn berthnasol i fusnesau eraill sy'n cefnogi neu sy'n elwa ar dwristiaeth, fel siopau, garejis a darparwyr gwasanaeth eraill.

3a Sicrhau fod gan bob busnes sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wybodaeth ardderchog o'r AHNE a'u bod yn cyfleu hyn i'w hymwelwyr

Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i gryfhau'r berthynas rhwng busnesau twristiaeth unigol a'r AHNE. Mae hyn yn agwedd bwysig o'r Siarter Ewropeaidd - mae Rhan 2 y Siarter a gyflwynwyd yn ddiweddar yn rhagnodi proses o adnabod y busnesau hynny sydd wedi datblygu'r fath berthynas, a'u nodi fel partneriaid.

Yn ganolog i hyn yw lefel ymwybyddiaeth busnesau twristiaeth o briodoleddau arbennig yr AHNE a'r gwahanol ffyrdd y gellid ei mwynhau. Gellir cryfhau hyn drwy'r gweithrediadau canlynol:

- Cynnal digwyddiadau ymgyfarwyddo cymdeithasol ar gyfer staff gwybodaeth a mentrau twristiaeth a busnesau lleol eraill sydd â chysylltiad ag ymwelwyr yn ac o gwmpas yr AHNE ac yn ehangach yn Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrecsam. Mae cyfle i gysylltu â'r prosiect Grug a Bryngaerau
- Darparu sgysiau, digwyddiadau hyfforddi etc.
- Cryfhau'r rhwydweithio rhwng cyfranogwyr lleol
- Darparu deunydd cyfeiriadaeth ar yr AHNE (yn ogystal â dosbarthiad llenyddiaeth fel y'i nodir yn 1f).
- Codi proffil yr AHNE efo'r trigolion lleol i annog trosglwyddo gwybodaeth i ffrindiau a pherthnasau sy'n dod i ymweld.

Gallai profiad rhaglen Cantata yn Sir Dinbych fod o ddefnydd yma.

3b Annog a chefnogi mentrau twristiaeth mewn rheolaeth amgylcheddol.

Bydd Rhan 2 y Siarter yn gofyn hefyd am i fentrau twristiaeth ddangos ymdriniaeth weithredol i reolaeth amgylcheddol, gan gydnabod, gan eu bod wedi eu lleoli yn ac o gwmpas yr ardal a amddiffynnir, y dylent gael eu gweld i fod yn arweiniol mewn materion o'r fath.

Dylai gweithrediadau gynnwys:

- Sefydlu rhwydwaith rhwng mentrau i gydweithio a chefnogi ac annog ei gilydd mewn gwaith amgylcheddol
- Annog cyfranogiad yn weithredol yng nghynllun gwobr y Ddraig Werdd, gan nodi a cheisio goresgyn unrhyw rwystrau i hyn. Dylid gosod targedau ar gyfer cyfranogiad.
- Darparu sesiynau hyfforddi ar gyfer y rhwydwaith, gyda chyrchiad i gyngor unigol os oes angen.
- Darparu cymorth grant i helpu gyda rheolaeth amgylcheddol.
- Sicrhau fod y gwasanaethau cyhoeddus perthnasol yn eu lle, yn cynnwys ailgylchu.

3c Gweithio gyda mentrau i annog cefnogaeth i gadwraeth

Mae'r Siarter yn annog mentrau i annog cefnogaeth i gadwraeth gan fentrau twristiaeth ac ymwelwyr. Mae rhai ardaloedd sydd wedi eu hamddiffyn yn y DU wedi sefydlu cynlluniau 'talun ôl' i ymwelwyr gyda mentrau twristiaeth yn darparu'r modd i gael cefnogaeth wirfoddol gan eu hymwelwyr ar brosiectau cadwraethol penodol. Dylid trafod y cyfleoedd i ddilyn y syniad hwn ym Mryniau Clwyd.

3d Darparu cymorth i wella (ansawdd a pherfformiad) a datblygu mentrau twristiaeth

Mae darpariaeth bresennol llety ac atyniadau yn ac o gwmpas y Bryniau'n eithaf cyfyngedig, ac mae sgôp hefyd am welliant ymysg y busnesau presennol. Y cyfleoedd penodol y gellid eu dilyn yw huanarlwyaeth, tafarnau a llety G&B o safon, atyniadau addas sydd â pherthynas â threftadaeth a natur, a chanolfannau gweithgareddau.

Mae gweithrediadau i gefnogi hyn yn cynnwys:

- Sicrhau fod pob menter twristiaeth â chyrchiad i gefnogaeth busnes addas. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wasanaeth pwrpasol ar gyfer hynny, ond mae argymhelliad y dylid creu strwythur cefnogi busnes twristiaeth gwledig pwrpasol ar gyfer Sir Ddinbych¹⁵.
- Cynorthwyo clystyrau o fentrau i nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain ac yna gefnogi darpariaeth briodol (fel yn y cynllun Gallu yn Ne Cymru, sy'n cael ei ystyried yn y rhanbarth hwn). Gellid darparu peth hyfforddiant pwrpasol ar gyfer clystyrau busnes yn yr AHNE.
- Darparu cronfa bwrpasol i'w defnyddio'n dactegol i gefnogi gwelliannau busnes twristiaeth penodol, yn cynnwys gweithgareddau rheoli amgylcheddol fel yn 3b.

3e Ailasesu polisïau cynllunio sy'n berthynol i ddatblygiad busnesau twristiaeth a gwella a hyrwyddo'r ddealltwriaeth ohonynt

Mae polisïau cynllunio a'u cymhwysiad wedi codi fel pwnc o bwys mawr yn ystod yr ymgynghoriad. Er bod rheolaeth cynllunio caeth wedi bod yn gynghreiriad mawr i dwristiaeth, drwy sicrhau cefn gwlad gysefin a heb ei halogi, mae'n ymddangos fod yna achlysuron lle byddai peth hyblygrwydd, er enghraifft mewn trawsnewid adeiladau presennol wedi gallu arwain at sefydlu neu wella busnesau twristiaeth o ansawdd da, heb niweidio'r amgylchedd.

Gellid gwella'r sefyllfa yma drwy fwy o eglurder mewn polisi cynllunio tuag at wahanol fathau o ddatblygiad twristiaeth. Ar hyn o bryd mae canllawiau cynllunio atodol yn cael eu paratoi ar gyfer yr AHNE ar ffurf canllawiau dyluniad. Dylai hyn ystyried materion twristiaeth. Yn gyffredinol, dylid dargadw'r pwyslais a roddir ar ddefnyddio adeiladau presennol yn hytrach nag adeiladu o'r newydd, cynnal y brodorol, ac isafu'r effaith ar y dirwedd drwy sgrinio addas. Dylid dilyn gweithrediadau i gyfathrebu'r canllawiau a gwella deialog gyda darparwyr twristiaeth posibl a phresennol.

¹⁵ Yn *Growing Denbighshire's Tourism Product – Strategic Priorities for Investment*, Crease, 2007

4	I wella rheolaeth llif ymwelwyr i ac o fewn y Bryniau, yn cynnwys yr effaith ar yr amgylchedd a chymunedau yn yr AHNE a'r ardal o amgylch
----------	--

Mae gweithrediadau i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys gwaith i wella a rheoli cyrchiad a llif ymwelwyr ac i siapio'r ffordd y darperir ar gyfer yr ymwelwyr a'u rheolaeth mewn safleoedd unigol ac o fewn cymunedau lleol.

4a Cefnogi rhaglen o wella a chynnal cyfleusterau mewn safleoedd allweddol

Mae'r parciau gwledig a safleoedd allweddol eraill sy'n eiddo i'r awdurdodau lleol a'r Comisiwn Coedwigaeth ac yn cael eu rheoli ganddynt, yn darparu adnodd pwysig ar gyfer twristiaeth yn yr ardal. Fe ddylai'r strategaeth gynnal a gwella ansawdd y profiad y gallant eu cynnig i ymwelwyr, wrth reoli a darparu ar gyfer nifer gynyddol dros amser, a defnyddio safleoedd penodol i gyfeirio ymwelwyr at yr hyn sydd gan weddill y Bryniau i'w gynnig.

Mae ardal Loggerheads a Moel Famau'n bwysig iawn fel mynediad a lleoliad sy'n denu yn y Bryniau. Mae'r ardal dan bwysau, gan barcio ceir yn benodol, ar adegau arbennig o'r flwyddyn. Mae angen buddsoddiad pellach yn yr ardal hon, wedi ei gefnogi gan y strategaeth hon a chynllun gweithredu.

Mae angen rhaglen gynhwysfawr o fuddsoddiad a gwelliant dros amser yn Loggerheads, i gynnwys:

- Astudiaeth dichonolrwydd i barcio ceir, gan edrych ar gyflenwad a galw, a gwneud argymhellion ar weithrediadau i leddfu pwysau yn ogystal â darparu ehangiad dan reolaeth dda. Gallai hyn arwain wedyn at fuddsoddiad newydd.
- Cynllun gweithredu i greu gwell defnydd o adeiladau presennol, yn cynnwys y siop.
- Astudiaeth o'r felin, gyda chynigion am ddehongli a chyrchiad ymwelwyr, yn arwain at weithrediad
- Gwelliannau i'r gerddi te.
- Gwelliant y llwybrau, yn cynnwys mynediad i'r anabl i'r llwybr dolen uchaf.
- Darpariaeth ar gyfer ailgylchu, fel y gall Loggerheads fod yn weithred deilwng o ran rheolaeth amgylcheddol.
- Darpariaeth o fwy o adnoddau dynol, sef warden i hwyluso rheolaeth ymwelwyr a chyfathrebiad.

Ym Moel Famau, mae angen gwaith ar y maes parcio, yn cynnwys ei arwynebedd, i alluogi gwell rheolaeth yn yr haf a'r gaeaf, ynghyd â gwella trefniadau parcio gorlifol. Mae angen cynnal a chadw parhaus hefyd ar y llwybr poblogaidd oddi yma at y copa yn Nhŵr Jiwbilî er mwyn rheoli erydiad.

4b Gwella adnabyddiaeth a rheolaeth safleoedd mynediad llai, meysydd parcio, safleoedd i weld golygfeydd ac encilfeydd

Mae angen llai o fuddsoddiad yn y safleoedd mynediad eraill, er bod angen adnoddau i alluogi eu cynnal a'u cadw'n effeithiol ac yn gyfredol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, tynnwyd sylw at bwysigrwydd swyddogaeth meysydd parcio bychan ac encilfeydd yn yr ardal. Dylai'r rhain fod yn destun rhaglen systematig o welliannau, yn cynnwys:

- Arwyddion ymlaen llaw

- Darpariaeth gwybodaeth addas
- Gwella safleoedd i weld golygfeydd/panorama

4c Datblygu a hyrwyddo gwasanaeth Bws Clwyd a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus yn gyffredinol

Mae pryderon amgylcheddol cynyddol a'r broblem leol fawr o barcio ceir yn cyfiawnhau'r angen am ymroddiad cryf i hyrwyddo defnyddio cyrchiad di-gar i ac o'r Bryniau, ar fws gyhoeddus yn benodol. Mae hyn hefyd yn ofyniad y Siarter Ewropeaidd.

Dylai gweithrediadau gynnwys:

- Cynnal ymrwymiad ariannol i wasanaeth pwrpasol Bws Clwyd. Mae gwasanaethau tebyg mewn mannau eraill wedi cymryd amser hir i sefydlu, ac efallai y bydd ar y strategaeth angen ceisio ymrwymiad adnoddau parhaus dros gyfnod penodedig.
- Cynyddu'n sylweddol hyrwyddiad Bws Clwyd a gwasanaethau rhestredig bysiau eraill yn ystod yr wythnos a'r penwythnosau, drwy brint a chyhoeddusrwydd.
- Adolygu amserlenni ac addasu os bydd angen.
- Annog a helpu pob busnesau llety a thwristiaeth eraill i ddarparu gwybodaeth glir ar sut y gellir eu cyrchu ar drafndiaeth gyhoeddus, yn cynnwys cynnig gwasanaeth codi, ac ar sut y gall eu gwesteion fwynhau'r Bryniau heb gar.
- Sicrhau fod gweithrediad y gwasanaeth bws mor garedig i'r amgylchedd ag sydd bosibl.

4d Gweithio gyda chymunedau lleol ar gynlluniau gwella, dehongli a rheolaeth pentrefi

Mae'r pentrefi o fewn ac yn union o amgylch y Bryniau yn darparu rhan bwysig o brofiad yr ymwelwyr. Maent hefyd yn cynnwys cymunedau sy'n mynd i gael eu heffeithio'n sylweddol gan dwristiaeth, yn bositif ac yn negyddol. Mae Cadwyn Clwyd wedi bod yn gweithio gyda nifer o bentrefi a chynlluniau dehongli syml (e.e. llenyddiaeth, has been working with a number of villages on simple interpretation schemes (e.g. literature, byrddau gwybodaeth) a gweithgaredd rheoli (e.e. fforddolwyr pentref). Mae hyn hefyd wedi cael ei gefnogi gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Dylai gwaith gyda chymunedau unigol gynnal y mentrau hyn a cheisio eu cryfhau yn y ffyrdd canlynol:

- Rhoi sylw arbennig i reolaeth parcio ceir a thrafndiaeth, sy'n bwnc llosg mewn llawer o bentrefi.
- Cysylltu cynlluniau gwybodaeth a dehongli pentrefi'n fwy effeithiol i mewn i brif liff gwybodaeth a hyrwyddiad ymwelwyr.
- Cefnogi digwyddiadau lleol dewisol a'u hyrwyddo'n fwy gweithredol i ymwelwyr, os yn briodol a'u croesawu gan y cymunedau.

4e Cryfhau cysylltiadau rhwng y Bryniau a threfi mynediad

Mae hyn yn amcan strategol pwysig. Mae'r trefi mynediad yn darparu cynnig amrywiol ac ystod o wasanaethau ar gyfer ymwelwyr i'r Bryniau, tra bod y dirwedd a'r gweithgareddau yn y Bryniau yn atyniad pwysig i'r trefi.

Mae cynlluniau a mentrau unigol perthynol i dwristiaeth yn cael eu dilyn gan y trefi, yn cynnwys:

- Gweithredu yn yr Wyddgrug sy'n berthynol i'w statws "Cittaslow"

- Cynllun Gweithredu Busnes Prestatyn, a mentrau i'w nodi fel cyrchfan gerdded, gan gymryd mantais lawn ar ei gysylltiad â Llwybr Clawdd Offa
- Adfywio canol tref a gwaith rheoli yn Rhuthun a Dinbych.

Ym mhob achos, fe ddilynir cyfleoedd i wella cyfeiriadedd a gwybodaeth ymwelwyr. Mae Rhuthun a Dinbych hefyd yn ganolog i strategaeth economi ymwelwyr Dyffryn Clwyd, sy'n cynnwys gweithrediadau sy'n adlewyrchu agosrwydd y Bryniau a'r cysylltiadau â nhw.

Mae cyfleoedd gweithredu i gryfhau'r cysylltiadau wedi eu canoli'n bennaf ar:

- Wybodaeth well am y Bryniau yn y trefi, a vice versa. Mae oblygiad yma i ddarpariaeth gwybodaeth ffurfiol, e.e. mewn Canolfannau Croeso, a hefyd ymwybyddiaeth well ymysg mentrau twristiaeth.
- Cryfhau cyrchiad trafnidiaeth, fel yn 4c uchod.
- Cyfleoedd arbennig ar gyfer cyd-hyrwyddo - e.e. rhwng llety yn y trefi a gweithgareddau a digwyddiadau yn y Bryniau.

4f Gwellu arwyddion twristiaeth

Nid yw arwyddion twristiaeth, i atyniadau ymwelwyr a lleoliadau eraill, yn y Bryniau yn afresymol, ond nid yw'n gynhwysfawr, ac mae problemau achlysurol o fylchau ac anghysondeb. Gellid ei ddefnyddio'n fwy strategol i gynorthwyo llif ymwelwyr.

Dylai gweithrediadau gynnwys archwiliad ac adolygiad o holl arwyddion ymwelwyr, ac yna rhaglen benodol o welliannau.

4g Gwellu mynediad i bawb

Mae gofyniad penodol yn y Siarter Ewropeaidd fod sylw'n cael ei roi i anghenion pobl ag anabledd corfforol neu bobl sydd dan anfantais economaidd, i sicrhau na wahaniaethir yn eu herbyn yn eu mwynhad o'r ardaloedd a amddiffynnir. Nid yw cyfleoedd i bobl sydd dan anfantais economaidd yn ymddangos yn bryder mawr yn y Bryniau ac mae amrywiaeth resymol ym mhrisiau llety sydd ar gael, ond fe ddylid ystyried hyn yn narpariaeth gwersylla, llety hostel etc. yn y dyfodol.

Dylid cymryd camau gweithredol pellach i wella mynediad i bobl anabl, yn cynnwys:

- Mwy o lwybrau ar gyfer mynediad i bobl anabl, lle bo hynny'n bosib
- Gwell gwybodaeth ar gyrched ar draws yr ardal, perthynol i'r holl weithgareddau a gwasanaethau perthnasol.

5 I gryfhau dealltwriaeth ymwelwyr o'r AHNE ac effeithiau twristiaeth ar yr ardal

Mae'r gweithrediadau i gyflawni'r amcan yma'n golygu ymgymryd â chyfres o arolygiadau rheolaidd. Dylai dyluniad a chanlyniadau'r rhain alluogi monitro yn erbyn dangoswyr dewisol (gweler adran 2.7) yn ogystal â darparu data arall a gwybodaeth i arwain cynllunio a rheolaeth.

5a Gwneud arolygiadau ymwelwyr rheolaidd

Yn y gorffennol ni chafwyd rhaglen systematig reolaidd o arolygiadau ymwelwyr ar gyfer yr AHNE. Mae'r rhain yn bwysig i ddeall proffiliau, gweithgareddau, ymatebion

ac anghenion yr ymwelwyr, cynnal rheolaeth ansawdd a dadansoddi llwyddiant mentrau. Dylid cynnal arolygiadau ymwelwyr o leiaf bob dwy flynedd a dylid ceisio ymateb gan 500 - 1000 o ymwelwyr. Yn ddelfrydol, dylai arolygiadau pwrpasol gael eu gwneud yn y Bryniau. Fodd bynnag, dewis arall yw eu gwneud ar gefn arolygiadau eraill ar gyfer ardaloedd ehangach (e.e. Sir Ddinbych), cyn belled ag y darperir cwestiynau penodol i ofalu am ofynion y Bryniau, a bod safleoedd cyfweld yn cynnwys lleoliadau yn y Bryniau.

5b Cynnal adborth rheolaidd gan fentrau twristiaeth

Roedd yr arolwg busnes a wnaethpwyd ar gyfer y strategaeth hon yn dangos gwerth cael adborth rheolaidd gan sector busnes twristiaeth. Gellid ailadrodd hyn yn ysbeidiol, eto bob dwy flynedd, efallai. Efallai y byddai'n angenrheidiol recriwtio panel o fusnesau ar wahân sy'n barod i gyflenwi gwybodaeth ar gyfradd llenwi a phresenoldeb.

Yn hytrach na dibynnu ar ddata arolwg ansoddol, dylid ceisio adborth rheolaidd gan fusnesau ar eu hanghenion a'u hymateb, drwy gyfarfodydd a rhwydweithio.

Fforio a datblygu cyfleoedd i ymestyn ac arbenigo'r model STEAM. Dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mae gan yr AHNE gyfle i annog busnesau twristiaeth i fewnbynnu eu data'n fisol. Fe ellir ychwanegu data cyfrifwyr pobl a cheir hefyd a gallai'r AHNE drefnu adroddiad penodol i ddangos gweithgareddau a thueddiadau ymwelwyr yn AHNE Bryniau Clwyd.

5c Cadw'n gyfoes ag effeithiau ar yr amgylchedd a chymunedau lleol

Gellir cael peth arwydd o effeithiau amgylcheddol gan ymatebion ymwelwyr a mentrau. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd i sefydlu prosesau uniongyrchol o arsyllu newid amgylcheddol. Gellir cyflawni hyn drwy ddewis nifer o safleoedd a chofnodi'r newid bob blwyddyn mewn ffordd systematig. Gallai safleoedd gynnwys cynefinoedd sensitif, llwybrau mynediad sy'n dueddol i erydu, etc.

Mewn rhai ardaloedd, caiff effeithiau ar gymunedau eu monitro drwy arolygiadau trigolion rheolaidd. Awgrymir y gellid cynnal arolwg trigolion ar gyfer yr AHNE bob tair i bum mlynedd, dyweder, gan gynnwys amrywiaeth o faterion, yn cynnwys twristiaeth. Gellid atodi hyn gydag adborth ansoddol drwy gyfarfodydd cymunedol ac adroddiadau gan gynrychiolwyr y gymuned.

4 TROSGLUDOD

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r cynllun gweithredu a gyflwynwyd ym Mhennod 3 ar ffurf tabl, gyda chostau dangosol, awgrym o flwyddyn/blynyddoedd cyflawniad, y prif bartneriaid sy'n gyfrifol a ffynonellau ariannu allanol posibl. Yng ngweddill y bennod fe nodir strwythurau goruchwyliaeth, rheolaeth a chysylltiadau arfaethedig i drosgludo'r cynllun. Yn olaf, darperir gwybodaeth ar ffynonellau ariannu allanol posibl.

Talfyriadau a ddefnyddir yn y tabl:

AHNE Tîm yr AHNE + holl wasanaethau cefn gwlad (Sir Ddinbych a Sir Fflint)
TD Uned Dwristiaeth Sir Dinbych
TF Uned Dwristiaeth Sir Fflint
PTGC Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
CCGC Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CDG Cynlluniau Datblygu Gwledig
Cydg Ariannu cydgyfeiriad
CC Cadwyn Clwyd
CDG Cronfa Datblygiad Cynaliadwy
CCoed Comisiwn Coedwigaeth
GB Cynllun Grug a Bryngaerau
CGGLI Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol

CYNLLUN GWEITHREDU - CRYNHOAD

		Cost ddangosol (£)	Blwyddyn	Asiantaethau	Ariannu allanol posibl
1	I godi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r holl sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr, annog fforio ac arhosiadau hirach				
1a	Diffinio brand Bryniau Clwyd a lledaenu canllawiau ar hunaniaeth a defnydd brand - Cytuno ar werthoedd brand - Gosod meini prawf defnyddio - Cynhyrchu llawlyfr defnydd technegol/graffig	1,000	1	AHNE	CDG
1b	Cryfhau proffil ac ymdriniaeth â'r Bryniau mewn hyrwyddiad cyrchfan - Dylanwadu ar gynnwys/ymdriniaeth - Paratoi copi/negeseuon - Comisiynu/cynnal adnodd ffotograffig	4,000	1	AHNE, TD, TF, PTGC	CDG
1c	Uchafu effaith gwefan Bryniau Clwyd - Ailddatblygiad y wefan - Rheolaeth flynyddol ac amlygu'r safle	25,000 3,000 y.f.	1 1-5	AHNE	CDG
1d	Hyrwyddo targedol dethol tactegol - Deunydd arddangos - Gwaith cyfryngol, mynychu arddangosfeydd, hyrwyddiad ad hoc - Fforio cyfleoedd marchnata yng Ngogledd Orllewin Lloegr	10,000 5,000 y.f.	1 1-5	AHNE, TD, TF, PTGC	CDG,
1e	Cynhyrchu eitemau print pwrpasol yn cynnwys profiad cyfan y Bryniau - Capturing the Clwyds - Map/taflen BC	5,000 y.f. 5,000 y.f.	1-5 1-5	AHNE, TD, TF	CDG
1f	Gwella dosbarthiad a gwelededd gwybodaeth - Adolygu, gwella, dylanwadu - Creu raciau pwrpasol - Cynnal dosbarthiad estynedig	8,000 2,000 y.f.	1 2 2-5	AHNE, TD, TF	CDG
1g	Defnyddio arwyddion i godi ymwybyddiaeth o'r Bryniau			AHNE, Priffyrdd,	CDG

	- Adolygu a chwblhau arwyddion ffyrdd ffiniau/croeso AHNE - Creu a chodi arwyddion pentrefi/cymunedau	50,000 50,000	1-2 2-3	CC	
2	I ddatblygu a gwella set o brofiadau ymwelwyr yn seiliedig ar weithgareddau hamdden awyr agored a gwerthfawrogiad o dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal				
2a	Cryfhau a phecynnu'r cynnig cerdded - Cydgysylltu a rhwydweithio cyfranogwyr/llety - Gwybodaeth llwybrau a menter farchnata well - Gwelliant llwybrau allweddol i ganolbwyntio ar Droeon Gwledig	4,000 y.f. 100,000 ?	1-5 1-5	AHNE, CCoed	Cydg CDG
2b	Cryfhau a phecynnu cynnig beicio mynydd - Cefnogaeth i Reidio Clwyd - Datblygiad llwybrau ymhellach	3,000 y.f. 50,000	1-5 3-5	AHNE, CC	Cydg CDG
2c	Ymchwilio a datblygu cynnyrch beicio teuluol - Cryfhau gwybodaeth/marchnata drwy'r ardal - Asesiad dichonolrwydd llwybr rheilffordd Yr Wyddgrug-Dinbych - Tawelu ac adnabyddiaeth llwybrau ffyrdd	25,000 l'w drefnu 30,000 ?	1-2 3-5	Priffyrdd, TD, TF, AHNE, CC	Cydg CDG
2d	Datblygu cynnyrch a chynigion marchogaeth - Swyddog prosiect, datblygu llwybrau, cynnal a chadw a gwybodaeth gysylltiedig - Cefnogaeth marchnata/datblygiad pellach i becyn o le i le	£100,000	1-2	AHNE, CC, BHS	CDG SDF
2e	Datblygu cysylltiadau a chynnyrch o gwmpas pysgota ymhellach - Rhwydweithio, marchnata a chefnogaeth gwybodaeth	3,000	2	AHNE, CC	CDG SDF
2f	Datblygu digwyddiadau pellach, yn cynnwys themâu bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth a diwylliant, a'u hyrwyddo fel profiad gwyliau - Cefnogaeth marchnata a gwybodaeth	5,000 y.f.	1-5	AHNE, CC, CCGC	CDG SDF
2g	Gwella cydgysylltiad dehongliad y Bryniau fel elfen o brofiad yr ymwelydd - Cydgysylltiad dehongliad (ymgyngoriad posibl pellach) - Gweithredu dehongliad llwybr/cysylltedd	15,000 200,000	1 1-3	AHNE, CC, HH, CCGC, CADW	CDG, HH, Cydg, SDF, Ariannu Celfyddydau

2h	Cryfhau presenoldeb Bryniau Clwyd mewn hyrwyddiad pellach o gynnyrch a chrefftau lleol - Mewnbwn i fentrau cynnyrch/crefftau ehangach	2,000	1-3	CC, AHNE	CDG
----	--	-------	-----	----------	-----

3	I annog a chefnogi mentrau perthynol i dwristiaeth mewn datblygiad a gwelliant adnoddau a gwasanaethau, rheolaeth amgylcheddol, a'u perthynas â'r AHNE				
3a	Sicrhau fod gan bob menter berthynol i dwristiaeth wybodaeth ardderchog am yr AHNE a'u bod yn ei gyfleu i'w hymwelwyr. - Sgyrsiau, digwyddiadau, hyfforddiant, ymgyswrtio, rhwydweithio	5,000	1-5	AHNE, TD, TF	CDG, SDF
3b	Annog a chefnogi mentrau twristiaeth mewn rheolaeth amgylcheddol - Cefnogaeth i achrediad, rhwydweithio, hyfforddiant - Cymorth ariannol pwrpasol/cynllun grant	5,000 150,000	1-5	AHNE, CC, CCGC	Cydg., CDG, SDF
3c	Gweithio gyda mentrau i annog cefnogaeth i gadwraeth - Ymchwilio a gweithredu cynllun talu'n ôl i ymwelwyr	5,000	2-5	AHNE, CCGC	CDG, SDF
3d	Darparu cymorth ar gyfer gwelliant (mewn ansawdd a pherfformiad) a datblygu mentrau twristiaeth - Sicrhau cysylltiadau â chynghor a hyfforddiant perthnasol - Cronfa bwrpasol ar gyfer gwella cynnyrch	300,000	1-5	TD, TF, PTGC, CCGC, AHNE	Cydg. CDG
3e	Ailasesu polisiâu cynllunio perthynol i fentrau datblygu a gwella twristiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth ohonynt - Canllawiau a chyfathrebiadau newydd		1	AHNE, Cynllunwyr	
4	I wella rheolaeth llif ymwelwyr i ac o'r Bryniau, yn cynnwys yr effaith ar yr amgylchedd a'r cymunedau yn yr AHNE a'r ardal o gwmpas				
4a	Cefnogi rhaglen o wella a chynnal cyfleusterau mewn safleoedd allweddol - Loggerheads: Adolygiad o ddefnydd adeilad a gweithrediadau o Astudiaeth dichonolrwydd parcio ceir o Astudiaeth ddichonolrwydd/dehongliad i'r felin o Buddsoddiad cyfalaf o Warden gyda ffocws ar Wasanaethau Ymwelwyr - Moel Coed Ffawr:	20,000 25,000 l'w drefnu 500,000 ? 25,000 y.f.	1 1 1-5 1-5 1-2	AHNE, CCoed, Priffyrdd	Cydg.. CDG

	○ Gwaith ar arwynebedd meysydd parcio ○ Gwella'r llwybr i'r copa	I'w drefnu 100,000 ? I'w drefnu 30,000 ? ?	2-3		
4b	Gwella adnabyddiaeth a rheolaeth y safleoedd mynediad llai, parcio ceir, mannau i weld yr olygfa a chilfannau - Arwyddion a gwelliannau safle	100,000	3-5	AHNE, Priffyrdd, GB	Cydg. CDG
4c	Datblygu a hyrwyddo gwasanaeth Bws Clwyd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol - Cefnogaeth ariannol i Fws Clwyd - Hyrwyddiad i gyrchiad pob trafnidiaeth gyhoeddus	12,000 y.f. 4,000 y.f.	1-5	AHNE, Adrannau Trafnidiaeth, TD, TF, CCGC, GB	Cydg. CDG
4d	Gweithio gyda chymunedau lleol ar wella pentrefi, cynlluniau dehongli a rheolaeth - Set o gynlluniau unigol ym mhob pentref, wedi eu hintegreiddio i wybodaeth, dehongliad a marchnata ardal	100,000	1-3	CC, AHNE, CCGC, CGGLI	Cydg CDG SDF
4e	Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bryniau a threfi mynediad - Cefnogaeth berthnasol i wybodaeth a marchnata	10,000	1-5	AHNE, TD, TF	CDG
4f	Gwella arwyddion twristiaeth - Adolygu a llenwi bylchau	I'w drefnu 50,000 ??	3-4	AHNE, Priffyrdd	CDG
4g	Gwella mynediad i bawb - Datblygiad/gwelliant mynediad/llwybrau ym Mharc Gwledig Loggerheads - Gwybodaeth well	50,000 5,000	1-3 2-4	AHNE, CC, GB	CDG SDF
5	I gryfhau dealltwriaeth ymwelwyr â'r AHNE ac effeithiau twristiaeth ar yr ardal				
5a	Gwneud arolygiadau ymwelwyr rheolaidd - Arolwg ymwelwyr bob 2 flynedd	10,000 p.2a	2,4	AHNE, TD, TF, CC, CCGC	CDG
5b	Cynnal adborth rheolaidd gan fentrau twristiaeth - Arolwg a chysylltiadau mentrau - Datblygu cyfleoedd STEAM	3,000 p.2a 600 y.f.	2,4	AHNE, TD, TF, CC, CCGC	CDG
5c	Cadw'n gyfoes â'r effeithiau ar yr amgylchedd a'r cymunedau lleol			AHNE, TD, TF,	CDG

	- Arsylliad amgylcheddol - Arolwg a chysylltiadau trigolion	3,000	3	CC, CCGC	
--	--	-------	---	----------	--

Strwythurau i'w gweithredu

Mae angen strwythur adrodd, reoli a gweithredu i arolygu a gweithredu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn. Mae angen ei ddylunio i annog teimlad o berchnogaeth gan bob cyfranogwr perthnasol.

Mae angen delio â gofyniad y Siarter Ewropeaidd am fforwm parhaol neu gorff cyfartal, i ddod â'r awdurdod yr ardal a amddiffynnir, busnesau twristiaeth, diddordebau cadwraeth a diddordebau cymunedol, i gyd at ei gilydd.

Mae presenoldeb y JAC a'i gyfansoddiad cytbwys yn mynd beth o'r ffordd i gyfarfod â'r gofyn hwn.

O edrych ar y swyddogaethau angenrheidiol, awgrymir fod angen dau fath o strwythur:

- Corff goruchwyliol a gweithredol wedi eu cyfuno, fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y strategaeth a'r cynllun gweithredu'n cael ei weithredu. Byddai'n cyfarfod tair neu bedair gwaith y flwyddyn, gan ddod a chynrychiolwyr y prif ddiddordebau ynghyd, ac yn adrodd i'r JAC (Comisiwn Penodiadau Barnwrol) i sicrhau fod y gwaith twristiaeth gynaliadwy yn cydlynw a, ac yn cael ei gefnogi gan, waith ehangach yn yr AHNE a gweithrediad y Cynllun Rheoli. Gallai'r corff hwn gael ei gynnwys fel is-bwyllgor i'r JAC. Byddai angen iddo gynnwys cynrychiolwyr mentrau twristiaeth, adrannau twristiaeth awdurdod lleol, a diddordebau cadwraeth a chymuned.
- Strwythur ehangach, mwy agored sy'n dod â'r holl gyfranogwyr sydd â diddordeb mewn twristiaeth yn yr AHNE at ei gilydd. Gellid ffurfio hwn fel 'fforwm sefydlog' sy'n agored i bawb, wedi ei amlygu gan fforwm/cyfarfod blynyddol neu bob yn ail flwyddyn. Mae'n bosibl, dros amser, y byddai'r fforwm hwn yn dymuno sefydlu rhyw fath o strwythur aelodaeth ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan, ond ni ddylai hyn fod yn ofyniad ar hyn o bryd, er mwyn osgoi dyblygu sefydliadau.

Mae yna ofyniad clir am swydd swyddog sy'n gysylltiedig â thîm yr AHNE fyddai'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth, yn cynnwys cydlynw gwaith eraill. Byddai angen i hyn fod yn swydd ran-amser o leiaf, ac fe ellid ei lleoli o fewn Cadwyn Clwyd, tîm yr AHNE yn Loggerheads, neu Dwristiaeth Sir Ddinbych.

Ariannu

Mae pedwar prif gyfle amlwg am ariannu allanol.

Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Fflint, drwy Atodiadau 3 a 4. Mae'r ddau Gynllun Datblygu Gwledig yn ceisio cefnogi datblygiad cynaliadwy yn yr ardaloedd gwledig yn y ddwy sir. Mae amrywiaeth economaidd a chyfeiriadedd amgylcheddol y strategaeth hon yn golygu ei bod yn cyfarfod â llawer o flaenoriaethau'r CDG.

Ariannu Cydgyfeiriad. Fel amnewidiad i Amcan 1, mae hwn ar gael yn Sir Ddinbych, gyda chynllun llai hefyd yn gymwys i Sir Fflint. Ar hyn o bryd, mae oblygiadau Cydgyfeiriad o ran twristiaeth yn dal ar y gweill. Eto mae ffocws y

strategaeth hon ar ddatblygiad cynaliadwy yn rhoi perthnasedd i'r cynllun. Mae'n debygol y bydd ar Gydgyfeiriad angen cymwysiadau ar raddfa fwy neu gymwysiadau cyfansawdd, ac felly fe all natur strategol a chynhwysfawr y strategaeth hon fod yn berthnasol. Mae'n annhebygol y bydd mentrau marchnata unigol, gafodd fantais dan Amcan1, yn cael eu cefnogi. Mae Twristiaeth Sir Ddinbych yn arwain ar ddatblygu cynigion i'r gronfa Gydgyfeiriad ar gyfer twristiaeth yng Ngogledd Cymru

Cronfa Datblygiad Cynaliadwy. Yn bwrpasol ar gyfer yr AHNE, mae'r gronfa hon ar gyfer prosiectau bach o rhwng £1,000 a £25,000. Mae'n ceisio cefnogi prosiectau amgylcheddol arloesol, cynaliadwy, sy'n ymglymu cymunedau lleol. Eisoes mae wedi ei chymhwyso i rai prosiectau twristiaeth yn yr ardal.

Interreg 4. Gallai cymorth yn y rownd yma o arian traws-genedlaethol yr UE ddarparu cyfleoedd, yn enwedig ar gyfer rhaglenni a mentrau nad ydynt efallai'n gymwys neu'n cael blaenoriaeth yn y cynlluniau uchod.

Argymhellir rhoi ystyriaeth bellach i sut y gall y strategaeth hon a'r cynllun gweithredi, yn eu cyfanrwydd ac fel elfennau unigol, gael eu cyflwyno orau ar gyfer cymorth yn y cynlluniau hyn. Bydd angen rhywfaint o feddwl cydgysylltiol, gan edrych gyda'n gilydd ar raddfa priodoldeb a thebygolrwydd llwyddiant pob cynllun.

Ym mhob achos bydd argaeledd arian cyfatebol yn fater allweddol a dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ystyried y cynllun gweithredu yn erbyn eu cyllidebau a'u rhaglenni eu hunain.

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (PTGC)?

ATODIAD 1: ARCHWILIAD O GYFLEUSTERAU YMWELWYR YM MRYNIAU CLWYD

LLETY

Enw	Math	Lleoliad	Gradd
Safle Carafannau Allt Gwymbod	C+G	Llanarmon-yn-lâl	
Bach Y Graig	G+B	Llanelwy	BCC 4*fferm
Bach Y Graig	HA+GB	Tremeirchion	BCC 5*HA
Parc Carafannau Barlows	C+G	Caerwys	
Parc Carafannau Bathafarn Hall	C+G	Llanbedr DC	
Bella Vista	G+B	Bodfari	
Blue Lion Inn	TAFARN	Cwm	
Parc Carafannau Bryn Bowlio	Carafán	Tafarn y Gelyn	
Bryn Tirion Cottages	G+B	Ger Yr Wyddgrug	BCC 4* G&B
Bryn Tirion Cottages	HA+GB	Llanferres	
Parc Carafannau Caerwys Castle	Carafán	Caerwys	
Colomendy Arms	TAFARN	Cadole	
Downing Arms	TAFARN	Bodfari	
Parc Carafannau Eryrys	C+G	Eryrys	BCC 4* HP
Fron Haul	G+B	Ger Dinbych	
Clwb Gwledig Graig Park	H	Meliden	
Gwalia	SC	Llangynhafel	BCC 4 seren
Llynnoedd Pysgota Gweryd	HA+GB	Llanarmon-yn-lâl	
Hafan Deg	G+B	Ger Yr Wyddgrug	BCC 3 seren
Gwesty Halycon Quest	G+B	Prestatyn	
Hillcrest	SC	Maeshafn	BCC 4*HA
Llainwen Ucha	G+B	Rhuthun	BCC 2*Fferm
Bythynnod Gwyliau Maes y Garnedd	SC	Loggerheads	
Melyd Arms	TAFARN	Meliden	
Gwersyllfa Minfford	C+G	Llanbedr DC	Yn aros
Moel y Parc	SC	Afonwen	
Nant Mill Touring C+G	C+G	Prestatyn	
Parc Carafannau Parc Farm	Carafán	Llanarmon-yn-lâl	BCC3*T&PG
Parc Carafannau Penisar Mynydd	C+G	Caerwys Road	BCC4*T&PG
Tafarn Pwll Gwyn	TAFARN	Afonwen	
Gwesty Roughsedge	G+B	Prestatyn	
Silvermere	G+B+G	Prestatyn	
Parc Carafannau Station House	C+G	Bodfari	BCC3*Parc
Sŵn yr Afon	G+B	Bodfari	
The Cherry Pie Inn	Tafarn	Afonwen	
The Clwyd Gate	G+B	Llanbedr DC	BCC3*porthdy
The Cross Foxes	Tafarn	Nannerch	
The Crown Inn	Tafarn	Trelawnyd	
The Crown Inn	Tafarn	Pantymwyn	
The Dinorben Arms	Tafarn	Bodfari	
The Druid Inn	G+B	Llanferres	BCC43*Tafarn
The Druid Inn	Tafarn	Llanferres	
The Eagle & Child	Tafarn	Gwaenysgor	
The Griffin	Tafarn	Llanbedr DC	
The Griffin Inn	G+B	Llanbedr DC	
The Gronant Inn	Tafarn	Gronant	
The Kimmel Arms	Tafarn	Llandymnog	
The Miners Arms	Tafarn	Maeshafn	
The New Inn	Tafarn	Dyserth	
The Old Mill Hotel	G+B	Nannerch	BCC3*

The Owain Glyndŵr	Tafarn	Maeshafn	
The Owain Glyndwr Inn	G+B	Ger Yr Wyddgrug	
The Owain Glyndwr Inn	HA+GB	Gwernymynydd	
The Raven Inn	Tafarn	Llanarmon-yn-lâl	
The Red Lion	Tafarn	Dyserth	
The Salusbury Arms	Tafarn	Tremeirchion	
The Smithy Arms	Tafarn	Rhuallt	
The Sun Inn	Tafarn	Eryrys	
The Three Pigeons	Tafarn	Graigfechan	
The Three Pigeons Inn	SC	Graigfechan	
The White Horse	Tafarn	Cilcain	
The White House Hotel	G+B	Rhuallt	
The White Lion Inn	Tafarn	Llanasa	
Two Hoots G+B	G+B	Cwm	
We Three Loggerheads	Tafarn	Ffordd yr Wyddgrug	
Yr-Hen-Feudy	G+B	Rhuthun	4*G&B
Plas Penucha	G+B	Caerwys	
Capel Philadelphia	G+B	Llanarmon-yn-lâl	
Hostel Ieuencid Maeshafn		Maeshafn	
Gwenoldy		Afonwen	

Atyniadau

Enw	Math	Lleoliad	Tâl Mynediad
Moel Hiraddug	Bryngaer	Ger Dyserth	dim
Moel-y-Gaer Bodfari	Bryngaer	Bodfari	dim
Ardal Natur Penycloddiau a Choedwig Llangwyfan			dim
Penycloddiau	Bryngaer	Llangwyfan	dim
Moel Arthur	Bryngaer		dim
Moel-y-Gaer Llanbedr	Bryngaer	ar Foel Famau	dim
Parc Gwledig Moel Famau	Parc Gwledig	Llanferres	dim
Moel Fenlli	Bryngaer		dim
Parc Gwledig Loggerheads	Parc Gwledig	Loggerheads	
Coed Moel Famau			dim
Coed Nercwys			dim
Moel Findeg			
Bishops Wood			
Coed Bell			
Parc Adar a Gerddi Pen-y-Ffrith	Bywyd Gwyllt	Llanarmon-yn-iâl	
The Warran	Cyrsiau Coetir	Bodfari	

Darparwyr Gweithgareddau

Enw	Math	Lleoliad
Abseil UK	Abseil	Loggerheads
Bodfari Fish and Game	Pysgota	Bodfari
Sarn Fly Fisheries	Pysgota	Nannerch
Pysgota â Phlu	Pysgota	Nannerch
Clwb Pysgota â Phlu Cilcain	Pysgota	Cilcain
Pysgodfa Frithyll	Pysgota	Cilcain
Pysgotfa Lake Hill	Pysgota	Llandegla
Canolfan Farchogaeth Rhydtalog	Marchogaeth	Graianrhyd
Llynnoedd Gweryd	Pysgota	Llanarmon-yn-iâl
Pysgodfa Frithyll Llandegla	Pysgota	Llandegla
Canolfan Farchogaeth Bridlewood	Marchogaeth	Gwespyr
Pennant Uchaf	Marchogaeth	Rhuallt

Gweryd Lodge	Marchogaeth	Llanarmon-yn-iâl
Maes y Wern	Marchogaeth	Llandyrnog
Ruthin Golf Club	Golff	Ruthin
Denbigh Golf Club	Golff	Denbigh
Holywell Golf Club	Golff	Holywell
Mold Golf Club	Golff	Mold
Nine of Clubs Golf Club	Golff	Caerwys
North Wales Golf Driving Range and 9 Hole Course	Golff	St Asaph
Rhuddlan Golf Club	Golff	Rhuddlan

Adwerthu

Afonwen Antiques Gift and Craft Centre	Siop anrhegion	Afonwen
--	-------------------	---------

Bwyd a diod

Enw	Math	Lleoliad
Caffi Hideaways yn Llynnoedd Gweryd	caffi	Llanarmon-yn-iâl
The Red Lion	tafarn	Meliden
Caffi a Siop Waterfall	caffi	Dyserth
The White House Hotel	bwyty	Rhualt
Ystafelloedd Te Fynnon Beuno	ystafelloedd te	Tremeirchion
Ystafelloedd Te Fron Haul	ystafelloedd te	Bodfari
Canolfan Grefftau Afon Wen	caffi	Afon Wen
The White Horse	tafarn / bwyty	Hendrewydd
Caroline's Pantry	caffi	Tafarn y Gelyn
Caffi Loggerheads	caffi	Loggerheads
The Owain Glyndŵr	tafarn / bwyty	Maeshafn
The Gronant Inn	tafarn	Gronant
The White Lion Inn	tafarn	Llanasa
The Eagle and Child Inn	tafarn	Gwaenysgor
Melyd Arms	tafarn	Meliden
Tafarn a Bwyty The Blue Lion	tafarn / bwyty	Cwm
The Smithy Arms	tafarn / bwyty	Rhualt
The Salusbury Arms	tafarn	Tremeirchion
The Dinorben Arms Inn	tafarn / bwyty	Bodfari
Pwll Gwyn Inn	tafarn / bwyty	Afon Wen
Downing Arms	tafarn	Bodfari
The Cherry Pie Inn	bwyty	Afon Wen
The Cross Foxes	tafarn	Nannerch
The Kinmel Arms	tafarn / bwyty	Llandyrnog
The White Horse	tafarn	Cilcain
We Three Loggerheads	tafarn	Loggerheads
Colomendy Arms	tafarn	Cadole
The Miners Arms	tafarn	Maeshafn
The Druid Inn	tafarn	Llanferres
The Griffin	tafarn	Llanbedr DC
The Sun Inn	tafarn	Eryrys
The Raven Inn	tafarn	Llanarmon-yn-iâl


ATODIAD 2: CANLYNIADAU AROLWG MENTRAU

Gwnaethpwyd arolwg bost o fentrau twristiaeth yn ac o amgylch AHNE Bryniau Clwyd. Dychwelwyd cyfanswm o 48 o holiaduron, yn cynrychioli graddfa ymateb o 33%. Daeth 71% o ymatebion gan fentrau o fewn yr AHNE, a daeth 29% gan fentrau y tu allan i'r Bryniau.

Mentrau

Daeth bron i hanner yr holl ymatebion o'r sector lety, yn cynnwys 19% gan dai gwesty/G&B, 13% gan westai, 2% gan lety grwpiau, 10% gan barciau Carafannau neu gartrefi gwyliau a 2% gan hunanreolaeth eraill. Daeth nifer uchaf yr ymatebion o'r sector Fwyd a Diod (22%), gyda 10% o bob un o'r sectorau canolfannau/gweithredwyr gweithgaredd ac atyniadau ymwelwyr. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan weithredwyr teithiau. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu nifer fawr y G&B a thafarnau o fewn yr AHNE. Fodd bynnag, mae'n bwysig i nodi hefyd, oherwydd cyfran sylweddol ymatebion o'r sector lety, efallai fod canlyniadau'r arolwg wedi gogwyddo tuag at yr ymwelwyr aros yn hytrach na'r rhai dyddiol.

Ffigwr 1:
Mathau'r
Busnes



Daeth 23% o'r ymatebion o fentrau ar ffermydd gweithredol neu fân-ddaliad sy'n amlygu pwysigrwydd twristiaeth mewn arallgyfeirio yn y sector amaethyddol.

Roedd mentrau ar gyfartaledd yn cyflogi 4.7 llawn amser a 5.3 rhan amser. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau wedi ei gwro gan un neu ddau o fentrau sy'n cyflogi nifer fawr, tra bo'r rhan fwyaf yn cyflogi rhwng 0 ac 8 o bobl.

Roedd gan 27% o fentrau lety gyda gradd ansawdd, roedd 15% yn Groeso i Gerddwyr a 13% yn Groeso i Feicwyr. Roedd 13% arall â 'graddfeydd' yn cynnwys achrediad VAQAS (Cynllun Sicrhau Atyniadau i Ymwelwyr) Croeso Cymru, CAMRA, Bwyd Egon Ronay, Ffederasiwn FWA ac yn AALA drwyddedig. Nid oedd yr un fenter â gwobr Draig Werdd am reolaeth amgylcheddol.


Roedd 57% o fentrau'n aelodau o gymdeithasau twristiaeth neu sefydliad fasnach. Roedd 19% yn aelodau o Dwristiaeth Gogledd Cymru, 10% yn aelodau o Groeso Cymru a 6% yn aelodau o Gymdeithas Clawdd Offa. Roedd grwpiau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys Cymdeithas y Tîrfeddiawyr, Cyngor Carafannau

Cenedlaethol a Chymdeithas Twristiaeth Sir Fflint. Mae hyn yn dangos for yna ddidwylledd i gydweithio.

Ymwelwyr


Gofynnwyd i fentrau am ba hyd yr oedd eu cwsmeriaid yn aros yn yr ardal. Gyda chyfran helaeth y darparwyr llety a ymatebodd, mae'r ateb hwn yn gwyro tuag at ymwelwyr aros ac nid yw'n adlewyrchu'n fanwl mwyafrif helaeth yr ymwelwyr i'r ardal sy'n dod am y diwrnod. Fodd bynnag, y mae'n dangos fod ymwelwyr yn aros yn yr ardal, rhai am dros wythnos, gyda'r farchnad 2-3 noson yn gryf. Mae hwn yn rhoi sail dda i gynyddu nifer yr ymwelwyr aros.

Ffigwr 2: Hyd yr arhosiad



Mae ymwelwyr i AHNE Bryniau Clwyd yn tueddu i ddod o ardaloedd sy'n agos, gyda 35% o fewn 25 milltir, o drefi fel Caer a Wrecsam yn ogystal â phobl fwy lleol. Mae 34% pellach yn dod o fewn 100 milltir, sy'n cynnwys cytrefi Gogledd Lloegr fel Manceinion, Lerpwl a'r Wirral. Daeth 23% o rannau eraill yn y DU a 7% o dramor. Er bod y farchnad leol yn gyrru'r farchnad yn yr AHNE, mae bron i drydedd rhan yn dod o dros 100 milltir i ffwrdd sy'n dangos fod yna farchnad barod gyda llawer o botensial i ddatblygu.


Ffigwr 3: Tarddiad ymwelwyr



Tybir fod 33% o gwsmeriaid yn ymweld â'r ardal am y tro cyntaf, sy'n awgrymu nifer uchel (tua 2/3) o ddychweliadau. Mae hyn yn dangos lefel uchel o ffyddlondeb ymysg ymwelwyr i'r AHNE, a photensial sylweddol i drosi ymwelwyr dyddiol yn ymwelwyr aros ar ymweliadau canlynol.


Mae ymwelwyr â'r ardal yn cynnwys taeniad gwastad o deuluoedd, cyplau, grwpiau o ffrindiau a phobl sengl, sy'n amlygu ei atyniad eang.

Ffigwr 4: Proffiliau ymwelwyr



Gofynnwyd i fentrau pa mor bwysig yn eu tyb hwy oedd Bryniau Clwyd i ddenu ymwelwyr i'r ardal. Teimlai'r rhan fwyaf o'r mentrau ei fod yn bwysig i rai neu ran fwyaf o'u hymwelwyr, gydag ychydig iawn yn dweud nad oedd yn bwysig i'r un o'u hymwelwyr.

Ffigwr 5: Pwysigrwydd y Bryniau i ddenu ymwelwyr



Gofynnwyd i fentrau raddio pa mor bwysig yw rhai o'r prif weithgareddau i'w hymwelwyr. Gofynnwyd iddynt sgorio pob gweithgaredd ar raddfa o 1 i 5, lle'r oedd un 'yn bwysig i'r rhan fwyaf o'm hymwelwyr' a 5 'ddim yn bwysig i'r un o'm hymwelwyr'. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd y rheiny oedd yn golygu fforio'r Bryniau, un ai'n gyrru drwy gefn gwlad, cerdded, neu fforio'r trefi a'r pentrefi. Tybiwyd fod gweithgareddau penodol yn llai pwysig.

Ffigwr 6: Pwysigrwydd gweithgareddau


Gweithgaredd	Cyfartaledd yr ymatebion
Gyrru o gwmpas mewn cefn gwlad ddeniadol	2.41
Cerdded am amser hirach (dros 2 awr)	2.57
Cerdded am amser byrrach (hyd at 2 awr)	2.61
Fforio trefi a phentrefi bach	2.64
Ymweliadau ag atyniadau	2.83
Gweithgareddau awyr agored eraill	3.05
Beicio (yn cynnwys beicio mynydd)	3.07
Marchogaeth ceffylau	3.53
Pysgota	3.61

Perfformiad busnes

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i fentrau am berfformiad eu busnes, Enterprises were asked a series of questions regarding their business performance, amrywiadau tymhorol a chynlluniau datblygu.

Teimlai dros $\frac{3}{4}$ y rhai a ymatebodd fod eu busnes neu nifer eu hymwelwyr wedi 'cynyddu ychydig' neu 'gynyddu'n sylweddol' dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos fod twristiaeth yn yr AHNE mewn cyfnod o dwf gan ddod â manteision i'r mentrau twristiaeth.


Ffigwr 7: Perfformiad busnes / nifer yr ymwelwyr dros y tair blynedd diwethaf



Yn ystod y cyfnod hwn, roedd tri chwarter yr atebwyr wedi buddsoddi yn eu busnes neu wedi cynyddu gweithgaredd. Roedd hyn yn ymestyn o ymestyniad corfforol (prynu siop gyfagos, trawsnewid beudy ar gyfer llety), i uwchraddio safonol fel ailwampio, cyfarpar newydd a chyfleusterau arlwyo newydd; ymestyn oriau agor, cynnydd mewn gweithgareddau marchnata a datblygu gwefan. Dywedodd 58% eu bod yn cynllunio i wella, datblygu neu ymestyn eu busnes yn y blynedd nesaf.


Er hynny, er bod twristiaeth yn yr ardal yn cynyddu a mentrau'n gallu buddsoddi ac ymestyn, nid oes lle i hunanfodddhad. Dywedodd 83% fod denu mwy o fusnes un ai'n angenrheidiol i sicrhau proffid resymol neu'n hanfodol i gadw'r busnes i fynd. Yn benodol, mynegodd y mentrau eu dymuniad i gael mwy o fusnes ym misoedd y gaeaf a'r tymor ysgwyddo.

Ffigwr 8: Misoedd lle y dymuna'r mentrau gael mwy o fusnes



Barnwyd mai diffyg cyfalaf a chyfyngiadau cynllunio oedd y prif rwystrau i dwf y mentrau, gyda galwadau marchnad annigonol a dim lle yn ffactorau pwysig eraill. Rhai o'r rhwystrau penodol a grybwyllwyd oedd diffyg diddordeb gan Groeso Cymru ym Mrynau Clwyd, parcio annigonol a diffyg cyngor busnes.

Ffigwr 9: Rhwystrau twf



Er mwyn sicrhau agwedd y mentrau tuag at gynladwyedd, gofynnwyd iddyn nhw raddio agweddau arbennig yn ôl eu pwysigrwydd. Barnwyd bod y rhai fyddai'n cael effaith bositif uniongyrchol ar eu busnes fel arbed ynni, defnyddio cynnyrch lleol a lleihau gwastraff yn bwysicach na'r gweithrediadau llai uniongyrchol o gefnogi prosiectau amgylcheddol lleol a chefnogi ymwelwyr i ddefnyddio mwy o drafndiaeth gyhoeddus.

Ffigwr 10: Pwysigrwydd cynladwyedd

	Cyfartaledd yr atebion
Arbed Ynni	1.83
Defnyddio cynnyrch lleol	1.91
Lleihau gwastraff	1.93
Cefnogi prosiectau amgylcheddol lleol	2.34
Cefnogi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus gan ymwelwyr	3.28

Roedd gan 38% o fentrau brofiad o weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo pecynnau twristiaeth gyda busnesau eraill. Roedd y rhain yn amrywio o grwpiau wedi eu trefnu fel y Grŵp Gwyliau Fferm (Grŵp Croeso Dyffryn), Cymru ar Gefn Ceffyl a Thwristiaeth Gogledd Cymru, i grwpiau bach mewn lleoliad arbennig (hy cwmni gweithgareddau yn gweithio gyda thafarn gyfagos). Mynegodd 6% pellach ddiddordeb mewn ymuno â'r gweithgareddau hyn. Yn yr ardal yma, felly, mae angen cryn waith i annog mentrau i weithio gyda'i gilydd, ac adeiladu ar ystod y gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill.

Gwella twristiaeth ym Mryniau Clwyd

Gofynnwyd i fentrau raddio nifer o ffactorau o ran eu pwysigrwydd i lwyddiant eu busnes yn y dyfodol. Daeth gweithrediadau'n ymwneud â marchnata a hyrwyddiad allan ar y brig, ac yna'r angen am gysylltiadau gwell rhwng y mentrau eu hunain a chydag awdurdodau lleol a sefydliadau twristiaeth. Roedd cynnyrch materion datblygu'n cael llai o flaenoriaeth, a'r teimlad oedd bod yr hyn sydd yna'n barod yn iawn ond bod angen ei farchnata'n well i ymwelwyr, a materion rheolaeth trafndiaeth/traffig. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai cyfartaledd isaf y sgôr oedd 3 sy'n dangos fod pob un o'r ffactorau'n weddol bwysig i fentrau.

Ffigwr 11: Ffactorau i sicrhau llwyddiant y busnes yn y dyfodol

Ffactor	Cyfartaledd yr atebion
Marchnata BC yn fwy gweithredol fel lle i aros	1.52
Gwell gwybodaeth ar ble i fynd, beth i'w wneud ym Mryniau Clwyd ar ôl cyrraedd	1.63
Delwedd a brandio cryfach ar gyfer BC	1.65
Tudalennau gwell/estynedig ar Fryniau Clwyd	1.66
Gwell pecynnu llety a gweithgareddau ym Mryniau Clwyd	1.75
Proses well i gadw mentrau'n gyfredol ar Fryniau Clwyd	1.79
Gwell dehongli / hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol / hanesyddol yr ardal	1.80
Gwell cyd-drafod ar bolisiau cynllunio perthynol i ddatblygiad twristiaeth	1.88
Gwell dehongliad / hyrwyddiad o dreftadaeth naturiol /bywyd gwylt yr ardal	1.91
Cryfhau cyfleoedd i fentrau ym Mryniau Clwyd i weithio gyda'i gilydd	1.93
Gwell adnabyddiaeth a hyrwyddiad o gynnyrch lleol BC	1.98
Mwy o ddigwyddiadau lleol, neu well hyrwyddiad iddynt	2.00
Gwella gwybodaeth o Fryniau Clwyd i'w drosglwyddo i ymwelwyr	2.09

Ymestyn a hyrwyddo achrediad amgylcheddol mentrau	2.31
Cyngor/hyfforddiant ar fusnes a marchnata	2.36
Mwy o deithiau tywys, neu well hyrwyddiad o deithiau tywys	2.39
Cyngor/hyfforddiant ar reolaeth amgylcheddol	2.44
Gwell darpariaeth ar gyfer beicio ar ffordd	2.65
Mwy o atyniadau amrywiol i ymwelwyr	2.79
Trafnidiaeth gyhoeddus well/wedi ei hyrwyddo'n well	2.82
Gwell darpariaeth ar gyfer beicio mynydd	2.84
Gwell mynediad i gefn gwlad i gerddwyr	2.84
Gwell rheolaeth traffig	2.93
Gwell darpariaeth ar gyfer marchogaeth ceffylau	3.07

Gwnaeth yr atebwyr nifer o sylwadau ar y newidiadau yr hoffent eu gweld i wella'r profiad o'r AHNE, a'r hyn fyddai'n eu cynorthwyo nhw fwyaf i wella perfformiad eu busnes

Yn y ddau achos roeddynt yn galw am broffil uwch wrth farchnata'r ardal, ac er eu bod yn fodlon bod ynghlwm ag ymgyrchoedd marchnata mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd ar gael yn rhy ddrud.

Gwelwyd arwyddion i ac o fewn yr AHNE hefyd fel rhywbeth y gellid ei wella. Gwelwyd yr arwyddion brown ar y priffyrdd fel ffordd bwysig i ddenu ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r AHNE. O fewn y Bryniau, galwodd un atebwr am 'arwyddion mwy gwledig a chynnil, nid angenfilod mawr metal'.

Dywedodd nifer o'r mentrau y byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau'r we o safle'r AHNE ac eraill, yn ogystal â gwell cydgysylltu rhwng y gwahanol wefannau, yn helpu'r sefyllfa. Cyfeiriodd amryw o'r atebwyr at gydgysylltu gweithgareddau'n gyffredinol a galwyd am 'rwydweithiau o westai, G&B, llefydd bwyta, gweithgareddau, hyrwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau'. Nododd un atebwr fod 'twristiaeth yn weithred saith diwrnod yr wythnos ac fe ddylai rhai sefydliadau ymdrin â hyn', ac mae hyn yn adlewyrchu sylwadau sawl un am yr angen i ymestyn amseroedd agor i wasanaethau (siopau, tafarnau etc) yn ac o gwmpas yr AHNE.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau am yr angen i leihau biwrocratiaeth, yn enwedig o ran ceisiadau grant a chynllunio. Teimlwyd nad oedd yna ewyllys gwleidyddol i sylweddoli pwysigrwydd twristiaeth (yn enwedig o'i gymharu ag amaethyddiaeth mewn termau economaidd) ac unwaith y cyflawnid hyn byddai nifer o welliannau'n dilyn.

ATODIAD 3: CYD-DESTUN POLISI

Mae'r atodiad hwn yn darparu adolygiad o bolisiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n berthnasol i'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn.

Twristiaeth, gweithgareddau hamdden a diwylliant

Gosodir y weledigaeth ar gyfer twristiaeth i Gymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn **Cyflawni ein Potensial 2006-2013 - Strategaeth Dwristiaeth i Gymru**. Ei hamcan yw "diwydiant arloesol, cynaliadwy a phroffidiol sy'n ymatebol i'r cwsmer ac sy'n gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru". Mae'r strategaeth yn gosod blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, gan bwysleisio'r angen i leihau amrywiaethau tymhorol a chynyddu cyfran y wlad o farchnadoedd twf fel ysbeidiau byr, gwyliau ychwanegol, twristiaeth busnes a thwristiaeth dramor. Fe amlygir pedair thema allweddol fel ffyrdd o gyflawni hyn - marchnata Cymru'n fwy effeithiol fel cyrchfan gydol y flwyddyn; buddsoddi yn y cynnyrch i ragori ar ddisgwyliadau ymwelwyr; gwella sgiliau a phroffesiynoliaeth yn y diwydiant a chofleidio ymdriniaeth fwy cynaliadwy i dwristiaeth sydd o fantais i gymunedau lleol ac i'r amgylchedd.

Mae'r **Strategaeth Dwristiaeth i Ogledd Cymru - Cynllunio Twristiaeth Yfory Heddiw, 2003-8** yn gosod tair blaenoriaeth allweddol: i gryfhau ymdeimlad unigryw'r ardal o le; i wella ansawdd cyfleusterau twristiaeth yng Ngogledd Cymru; ac i leihau amrywiaethau tymhorol ar draws y rhanbarth. Mae'n nodi cryfder sylfaenol y rhanbarth fel ansawdd yr amgylchedd naturiol. O wneud hynny, mae'n cyfeirio'n echblygol at AHNE Bryniau Clwyd, gan ei nodi fel ased nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar gyfer gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol. Mae hefyd yn cyfeirio at broffil uchel Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a'r potensial i wneud mwy o hwn, o'i gysylltu â llwybrau eraill, a chyfeiria at y potensial am ehangu pellach ar feicio mynydd yn yr ardal.

Caiff y themâu hyn eu hadlewyrchu yn y **Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer Sir Fflint**, sydd â'i gweledigaeth gyffredinol yn cwmpasu cynyddu nifer ymwelwyr, cynyddu gwerth twristiaeth, datblygu ymdeimlad cryfach o le ar gyfer Sir Fflint, gwella cyrchiad i wybodaeth, gwella ansawdd llety ac atyniadau a monitro effaith twristiaeth. Mae'r strategaeth yn amlygu'r angen i ddatblygu delwedd fwy cyson i Sir Fflint ar draws yr holl ddiwydiannau ac mae'n galw am fwy o ganolbwyntio ar farchnata cyfleoedd twristiaeth busnes yn y Sir. Mae'n awgrymu y dylai pecynnu fod yng nghalon datblygiad cynnyrch, a'i gefnogi gan ddenu digwyddiadau (fel Gŵyl Fwyd a Diod Yr Wyddgrug) fydd yn ei thro'n annog mwy o ymwelwyr. Mae'n annog cefnogaeth bellach i Gymdeithas Twristiaeth Sir Fflint a mwy o weithio mewn partneriaeth gan fod hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus yn y gorffennol. Fe amlygir AHNE Bryniau Clwyd fel cryfder yng nghynnig twristiaeth Sir Fflint.

Mae gan Sir Ddinbych strategaeth dwristiaeth ond mae ei chyfnod ei hymdriniaeth wedi mynd heibio ac mae wedi dyddio. Gosodir ymdriniaeth y Sir ag ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig yn **Strategaeth Ymwelwyr Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Chynllun Gweithredu** ac mae'r AHNE yn chwarae rhan ganolog ynddi. Tra bo'r ddogfen hon yn ymwneud gan fwyaf ag agweddau ymarferol rheolaeth, yn cynnwys brandio, marchnata a dehongli, mae hefyd wedi ei chysylltu'n agos â'r fframwaith a osodir allan yn *Cyflawni ein Potensial*. Ei amcan yw codi ymwybyddiaeth o gynnyg y sir, cynyddu mwynhad y rhai sy'n ymweld ac ymglymu cymunedau lleol sy'n byw a

gweithio yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych, yn seiliedig ar egwyddorion cynladwyedd a chynllunio da. Mae'r strategaeth yn cwmpasu brandio, logos, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus ac mae'n amlygu'r angen am ddelwedd glir i gefn gwlad, wedi ei chysylltu'n agos â delweddau eraill Sir Ddinbych. Mae'n awgrymu y dylai dehongli fod yn integredig yn yr holl elfennau sydd yng nghynnig ymwelwyr Sir Ddinbych ac mae'n cynnwys edrych ar ddigwyddiadau, celfyddydau, gwefannau a theithiau cerdded. Mae'n galw am gynyddu ymwybyddiaeth o frand yr AHNE ar arwyddion pentrefi, arwyddion ffyrdd a'r wefan ac mae'n amlygu gweithrediadau unigol ar gyfer elfennau allweddol yr AHNE fel Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau, Moel Findag, Coed Nercwys, Prestatyn Hillside, Coed Bell.

Mae sawl strategaeth a chynlluniau gweithredu hefyd ar gyfer ardaloedd sydd o amgylch yr AHNE, yn cynnwys Dyffryn Dyfrdwy, Dyffryn Clwyd a Llwybr Clawdd Offa. Eto, mae'r un themâu'n ymddangos – mae amcanion **Strategaeth Economi Ymwelwyr i Ddyffryn Dyfrdwy** yn cynnwys cynyddu gwerth ymwelwyr i Ddyffryn Dyfrdwy, ymestyn hyd tymor ymwelwyr a gwasgaru mwy o ymwelwyr o Langollen i rannau eraill o Ddyffryn Dyfrdwy (Corwen yn benodol). Mae **Cynllun Strategol Dyffryn Clwyd** yn amlygu'r angen am 'ymdeimlad gwell o le' a lleihau amrywiaethau tymhorol drwy wneud yn fawr o asedau naturiol fel yr AHNE a chynyddu twristiaeth ddiwylliannol nad yw'n ddibynnol ar y tywydd.

Mae yna nifer o strategaethau lefel LICC perthynol i wahanol fathau o dwristiaeth sydd hefyd yn darparu cyfeiriad strategol i'r AHNE.

Cyhoeddwyd **Strategaeth Dwristiaeth Ddiwylliannol i Gymru** yn 2003 ac mae'n gosod allan sut y gellir adnabod Cymru'n rhyngwladol fel cyrchfan sy'n cynnig profiad twristiaeth o safon yn seiliedig ar ei diwylliant unigryw sy'n ffurfio rhan hanfodol o'r profiad twristiaeth gyffredinol. Fe gyflawnir hyn drwy wella cyrched ymwelwyr i ddiwylliant Cymreig drwy fwy o ymdeimlad o le, hyfforddiant addas a chodi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau. Bydd canolbwyntio hefyd ar wella ansawdd profid yr ymwelydd gyda mwy o gyfleusterau cyfieithu a datblygiad data bas o lety lle y siaredir Cymraeg. Mae adolygiad o'r strategaeth hon ar y gweill.

Dewis a Chymysgu: Mae **Strategaeth Dwristiaeth Ddiwylliannol a Hamdden i Sir Ddinbych** yn mynd â hyn i lefel leol i hyrwyddo diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych drwy wella cyrchiad i gyfleusterau, cynyddu addysg a niferoedd y bobl sy'n ymglymedig â'r sector a chodi proffil cymeriad diwylliant nodedig y sir, yn enwedig drwy ardaloedd fel yr AHNE.

Cafodd **Twristiaeth Chwaraeon yng Nghymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu**, gyhoeddwyd yn 2004 ei baratoi gan Fwrdd Croeso Cymru i ddarparu pwynt cyfeiriad strategol i'r rheiny sydd ynghlwm â datblygu a marchnata twristiaeth sy'n gysylltiedig â chwaraeon. Mae'n addo gweithio gyda phartneriaid i helpu darparwyr ddeall anghenion chwaraeon ac ymwelwyr gweithgareddau yn well ac i ddatblygu cynlluniau achrediad addas.

Datblygu Gwledig

Mae'r **Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-2013** yn rhoi datblygu gwledig mewn Cyd-destun Ewropeaidd a bydd yn sianel fydd yn dosbarthu cronfeydd Ewropeaidd. Mae wedi ei rannu'n Atodiadau 1-4 fydd yn ymwneud â'r adrannau canlynol:-

Atodiad 1: sector amaeth-bwyd

Atodiad 2: datblygu cyfranogiad ffermwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ymhellach a datblygiad parhaus cefnogaeth i fesurau coedwigaeth

Atodiad 3: creu cyfleoedd cyflogaeth a sefydlu amgylchiadau addas ar gyfer twf cynaliadwy (gyda ffocws ar ferched a phobl ifanc), amrywiaeth economaidd, prosiectau ansawdd bywyd.

Atodiad 4: trosgludo blaenoriaethau lleol mewn ffordd gydlynol a bydd yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Atodiadau eraill hefyd fel wrth wella llywodraeth leol a datblygiad potensial mewndarddol drwy adeiladu cynhwysedd ac archwiliadau anghenion.

Fe drawsgludir Atodiadau 3 a 4 ar lefel leol a gwahoddwyd ceisiadau gan bartneriaethau addas sy'n dymuno dod yn ymglymedig.

Felly y datblygwyd Strategaethau Datblygu Gwledig drafft i Sir Ddinbych a Sir Fflint gan Gadwyn Clwyd, y sefydliad Leader + sydd wedi gwneud cais i drosgludo'r Bartneriaeth Datblygu Gwledig (mewn partneriaeth ag eraill) yn y ddwy sir.

Mae'r **Strategaeth Datblygu Gwledig i Sir Fflint** wedi ei pharatoi gan Gyngor Sir Fflint mewn cysylltiad â Phartneriaeth Wledig Sir Fflint fel ymateb i'r gwahoddiad gan LICC am bartneriaethau cymwys i gymryd rhan yn Atodiadau 3 a 4 o'r CDG i Gymru. Mae'n gosod allan fframwaith strategol ar gyfer mentrau datblygu'n seiliedig ar arallgyfeirio'r economi wledig, cynyddu safonau byw, ymglymiad gyda chymunedau gwledig ac ymdriniet holistig i adfywiad gwledig. Mae pedair Thema Strategol (ThS) yn ymddangos, a'r pedair yn berthnasol i dwristiaeth:-

- TS1 Datblygiad y Diwydiant Twristiaeth
- TS2 Ymdeimlad o Le
- TS3 Gwasanaethau Gwledig, Mentrau Cymdeithasol a TG
- TS4 Ynni / gwastraff, defnydd tir, coedwigaeth ac amaeth-bwyd

Cânt eu trosgludo drwy weithgor prosiect, wedi eu sefydlu ar gyfer pob thema strategol sy'n ymddangos.

Mae anogaeth gweithgareddau twristiaeth yn fesur penodol a nodir yn Atodiad 3 i'r CDG i Gymru ac mae'r gweithrediadau dangosol a amlygir yn Strategaeth Ddatblygu Sir Fflint yn cynnwys

- sefydlu cronfa i ddatblygu gwasanaethau twristiaeth gwledig
- datblygu mentrau twristiaeth gwyrdd
- archwilio dichonolrwydd datblygu atyniad ymwelwyr eiconig
- hyrwyddo twristiaeth fel opsiwn gyrfa
- hyfforddiant i staff twristiaeth
- buddsoddi mewn IQM mewn busnesau
- datblygu marchnata cydweithiol, pecynnau a hyrwyddiadau
- gwella defnydd Technoleg Cysylltiadau a Gwybodaeth (TCG)

Mae'r **Strategaeth Datblygu Gwledig i Sir Ddinbych** yn cynnig fod Atodiad 3 yn cael ei drosgludo gan Gyngor Sir Ddinbych a Chadwyn Cymru, gyda sefydliadau eraill lle bo'n addas; caiff Atodiad 4 ei drosgludo gan CCLAG.

Yr heriadau allweddol sy'n wynebu Sir Ddinbych yw er bod yr ardal â lefelau diweithdra cymharol isel ar hyn o bryd, mae iddi lefelau incwm isel oherwydd diweithdra yn yr ardal, mae'n ddibynnol ar sectorau'n profi newid strwythurol ac mae wedi profi symudiadau mewn demograffi oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio ac ymfudiad pobl ifanc. Mae'r Strategy yn ceisio ymdrin â'r heriadau hyn drwy ddarparu cyfleoedd gwaith newydd yn yr ardal a sgiliau perthnasol i ymgymryd â nhw,

arallgyfeirio'r economi ac annog y rhai sy'n economaidd anactif i weithio. Fe nodir twristiaeth fel sector, ynghyd ag amaeth-bwyd, y gellir datblygu marchnadoedd newydd ar eu cyfer ac a fydd yn diogelu gwasanaethau gwledig a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

Bydd trawsgludiad Atodiad 4 yn seiliedig ar egwyddorion cyfranogiad sylfaenol, arloesiad a gweithio mewn partneriaeth. Bydd yn edrych ar ddatblygu prosiectau fydd yn creu adnabyddiaeth ardaloedd a datblygiad cynnyrch newydd boed hynny ar sail gyn-fasnachol neu ar gyfer twristiaeth (hy cynnyrch marchnata newydd). Bydd yn llenwi 'niche' oherwydd bydd yn galluogi datblygiad prosiectau peilot sy'n rhy newydd ac arloesol i sefydliadau/ffynonellau ariannu eraill eu cefnogi ar wahân. Y polisi yw defnyddio ariannu Atodiad 4 fel 'pump-priming', i ddenu a lifro arian ychwanegol i ddatblygu a phriflifo ymhellach drwy Atodiad 3 neu ffynonellau ariannu eraill.

Bydd themâu Atodiad 4 yn canolbwyntio ar uchafu defnydd a hyrwyddiad cynnyrch lleol, gwella'r amgylchedd wrth ddefnyddio adnoddau naturiol ar gyfer datblygu cynaliadwy, sefydlu gwerth y dreftadaeth ddiwylliannol, mabwysiad safonau ansawdd mewn darpariaeth gwasanaeth a chynnyrch, a gwella profiad yr ymwelydd.

Cyflwynwyd Cynlluniau Busnes gan Bartneriaethau Gwledig Sir Ddinbych a Sir Fflint yn 2007 yn cynnwys ystod o brosiectau o fewn Atodiad 3 ac Atodiad 4 i ymestyn dros gyfnod 2008 – 2010. Cynhwyswyd gweithrediad y strategaeth hon.

Datblygiad Economaidd

Sir Fflint yn Symud Ymlaen yw strategaeth ddatblygu economaidd y sir 2003-2008, yn gosod allan sut y bydd y sir yn ymdrin â rhai o'r heriadau y mae'n dal i'w hwynebu, er ei bod wedi dod mor bell ers y 1980au. Y materion allweddol y mae'n eu trin yw'r angen i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd hyfforddiant ac adeiladu ar gryfder cynhyrchu presennol. Fodd bynnag, ar yr un pryd mae angen newid sylweddol mewn mentrwriaeth a busnes dechreuol. Mae angen hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol drwy gyrchiad i gyfleoedd a chymunedau, a bydd buddsoddiad mewn trefi a phentrefi'n flaenoriaeth. Amlygir twristiaeth i fod â chryn botensial sydd angen ei gyflawni. Gellir cyflawni hyn drwy:

- weithio gyda busnesau ar rwydweithio a hyrwyddo o ansawdd
- datblygiad asedau di-hysbydd Sir Fflint
- pennu a hyrwyddo delwedd benodol i Sir Fflint
- marchnata pecynnau penodol i gynnwys cynadleddau busnes a llwybrau treftadaeth
- sicrhau fod ymwelwyr ag atyniadau cyfagos ac ymwelwyr sy'n gyrru drwodd yn gwybod am y sir ac ansawdd ac ystod ei chyfleoedd twristiaeth
- lobïo'r sector i ddatblygu sgiliau busnes a staff a hyrwyddo'r sector fel gyrfa werth chweil

Fe gymeradwywyd **Strategaeth Twf Economaidd Sir Ddinbych** ym mis Mehefin 2007. Mae'n darparu golwg lefel uchel o economi'r sir, yn enwedig fod yna ddiweithdra isel yn gyffredinol a gweithgaredd economaidd uchel, er nad yw hyn yn bod mewn rhai rhannau o'r sir. Mae enillion trigolion yn uchel, ond mae enillion pobl sy'n gweithio yn Sir Ddinbych yn isel. Mae yna ddibyniaeth uchel ar sectorau, fel amaethyddiaeth a thwristiaeth, sy'n mynd drwy gryn newid. Mae'n nodi cyfres o weithrediadau i ymdrin â'r materion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwella ansawdd bywyd - i annog pobl sy'n gweithio i ffwrdd i wario mwy o arian yn y sir, a chadw pobl ifanc
- angen cynyddu twristiaeth gyda gwerth ychwanegol
- gwella iechyd canolfannau adwerthu
- codi lefel sgiliau pobl mewn cyflogaeth
- tyfu a gwella cynhyrchedd busnesau bach a chanolig
- sgiliau o ran pobl nad ydynt yn y farchnad waith (hy grŵp oedran 14-19) a dod â'r rhai sy'n economaidd anactif i mewn i waith
- delio â'r ddibyniaeth ar fewnfudo o ddwyrain Ewrop
- gwireddu potensial y sectorau gweledol a gofal iechyd fel cyflogwyr sy'n tyfu
- sicrhau fod y sector amaeth-bwyd yn aros yn egnïol
- cynyddu darpariaeth broadband fel y gall pobl weithio o'u cartrefi.

AHNE Bryniau Clwyd

Fe ystyrir Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn rhai o dirweddau mwyaf gwerthfawr y wlad a chânt eu hamddiffyn a'u rheoli gan gyfraith i gynnal eu cymeriad arbennig yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae **Canllawiau i aelodau partneriaeth yr AHNE** wedi eu cyhoeddi gan Asiantaeth Cefn Gwlad ac mae'n pwysleisio mai pwrpas sylfaenol dynodiad yr AHNE yw cadw a gwella harddwch naturiol. Fodd bynnag, wrth ddilyn y pwrpas sylfaenol, dylid ystyried gofynion amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiannau gwledig eraill ac anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Dylid rhoi sylw arbennig i hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sydd ynddynt eu hunain yn diogelu a gwella'r amgylchedd. Mae hefyd yn egluro nad yw gweithgareddau hamdden yn amcan y dynodiad, ond dylid cyfarfod â'r galw am weithgareddau hamdden cyn belled â bod hyn yn gyson â chadwraeth harddwch naturiol a gofynion amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnydd eraill.

Mae'r ddogfen hefyd yn gosod allan swyddogaethau craidd ar gyfer AHNE. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu i'r ardal a hyrwyddo'r weledigaeth a'r strategaeth i helpu i wahaniaethu'r AHNE oddi wrth y wlad gyfagos. Dylai'r AHNE weithredu'r cynllun gweithredu, monitro ac adrodd ar ddatblygiadau a chyrchu'r adnoddau i ymgymryd â gweithgareddau perthnasol. Dylai hefyd ddarparu cyngor cynllunio a gwasanaethau perthynol wrth gydgyssylltu gydag AHNE eraill ar lefel genedlaethol a datblygu ymglymiad y gymuned yn rheolaeth yr ardal.

Yn dilyn y canllawiau hyn, cynhyrchwyd **Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd** yn 2004. Mae'n gosod allan amcanion a gweithrediadau 2004 i 2009 ar gyfer rheolaeth yr AHNE, gosod agenda nid yn unig ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am eu cynhyrchu ond yr holl unigolion hynny, asiantaethau, grwpiau a chyrff y mae eu gweithgareddau'n effeithio ar y dirwedd ac sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ei dyfodol.

Y weledigaeth gyffredinol yw i'r AHNE fod yn dirwedd ddeinamig gyda chymunedau llewyrchus ac economi leol ffyniannus, yn cefnogi adnodd biolegol a diwylliannol gyfoethog sy'n hygyrch i bawb, ac y mae pawb yn ei adnabod ac yn ei werthfawrogi - pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Caiff hyn ei gyflawni drwy egwyddorion sylfaenol cynladwyedd, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ymglymu eraill ac amddiffyn treftadaeth yr AHNE.

Yr amcanion allweddol yw bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, mynediad a gweithgareddau hamdden, diwylliant a phobl. Y polisiau sydd fwyaf perthnasol i dwristiaeth yw:-

RoWO2 – darparu cyfleoedd cynyddol ar gyfer beicio allffordd a marchogaeth ceffyl o fewn yr AHNE a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn

BEA4 – i greu 2 lwybr hunan-dywys y flwyddyn o gwmpas pentrefi sydd ag Ardaloedd Cadwraeth fydd yn dathlu pensaernïaeth a hanes y pentref a darparu cyfle 'Cerdded y Ffordd i lechyd'.

SCO7 – ymglymu cymunedau lleol ac ymwelwyr yn rheolaeth yr AHNE

SCA6 – Darparu trafnidiaeth gyhoeddus i bob pentref 7 diwrnod yr wythnos erbyn 2008

SCA9 – i gael prosiect celfyddyd cymuned bob 3 blynedd, gan ddechrau yn 2006.

Mae **Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol (CGGLI)** hefyd wedi ei ddatblygu ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd. Ei amcan yw hyrwyddo gweithrediad cyfunol i gadw a gwella treftadaeth ddaearyddol neilltuol AHNE Bryniau Clwyd ac i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'i adnoddau geoamrywiaeth er lles cymdeithasol ac economaidd y trigolion a rhai'r ardaloedd cyfagos ac ymwelwyr. Mae iddo chwe phrif amcan sef:

- Sicrhau cadwraeth effeithiol geoamrywiaeth unigryw neilltuol Bryniau Clwyd drwy ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE
- Sefydlu partneriaeth leol effeithiol i fynd ag amcanion y CGGLI ymlaen
- Uchafu defnydd geoamrywiaeth Bryniau Clwyd ar gyfer addysg plant lleol ac ysgolion sy'n ymweld â grwpiau eraill
- Codi ymwybyddiaeth o geodreftadaeth Bryniau Clwyd ymysg pobl leol ac ymwelwyr, i hyrwyddo geodwristiaeth gynaliadwy, denu ymwelwyr i'r ardal a symbylu'r economi leol.
- Datblygu polisiau a dylanwadu ar bolisiau grwpiau a sefydliadau eraill i sicrhau geogadwraeth effeithiol a defnydd cynaliadwy o geoadnoddau ar gyfer addysg a geodwristiaeth
- I reoli gwybodaeth yn effeithlon i gyflawni'r uchod i gyd.

Grug a Bryngaerau

Mae Prosiect **Grug a Bryngaerau'n** allweddol i gadwraeth Bryniau Clwyd. Mae'n bartneriaeth sydd â'i hamcan i wella cyflwr y rhostir grug a diogelu bryngaerau'r ucheldir, cynyddu ymwybyddiaeth pobl a'u dealltwriaeth o'r safleoedd hyn yn ogystal â darparu cyfleoedd newydd i bobl fwynhau treftadaeth arbennig yr ardal. Ni yw'n fwriad gan yr HHLPS i gynyddu nifer yr ymwelwyr i ardal y prosiect yn sylweddol, ond i gynyddu ymwybyddiaeth y defnyddwyr presennol am arwyddocâd treftadaeth y safleoedd hyn ac i dargedu grwpiau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n berthynol i dreftadaeth yr ucheldir fel y'u nodir yng Nghynllun Mynediad a Datblygu Cynulleidfa.

Mae **Cynllun Mynediad a Datblygu Cynulleidfa Grug a Bryngaerau (CMDC)** yn amlygu'r cynulleidfaoedd posibl ar gyfer G&B a maint eu cynrychioliad gan ddefnyddwyr / ymwelwyr presennol. Mae'n nodi'r prif rwystrau sy'n atal grwpiau arbennig rhag ymweld ag ardal y G&B a ffyrdd y gellir symud y rhwystrau hyn. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, fod y bryngaerau wrth natur yn anodd eu cyrchu - fe'u hadeiladwyd gyda'r union fwriad o wneud mynediad yn anodd i ymyrwyr.

Mae'r cynllun yn rhoi trosolwg o'r boblogaeth sy'n lleol i'r G&B, sy'n cynnwys rhai o'r pcedi o ardaloedd mwyaf economaidd-gymdeithasol difreintiedig yng Nghymru. Mae 7 miliwn o bobl yn byw o fewn taith car o awr i ardal y G&B. Mae yna gyfartaledd uchel o bobl hŷn (mae 25% yn Sir Ddinbych dros 60 oed, o'u cymharu â'r cyfartaledd Cymreig o 17%) a chyfartaledd isel o leiafrifoedd ethnig (1% o'u cymharu â chyfartaledd o 2%).

Mae cysylltiadau ffyrdd i ardal y G&B yn dda, er bod nifer cynyddol yr ymwelwyr sy'n cyrraedd mewn car yn dechrau arwain at dagfeydd mewn rhai mannau. Er bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella, yn enwedig gyda rhwydwaith Bws Clwyd, mae'r ardal yn dal i fod yn anodd ei chyrraedd i bobl sydd heb gerbydau preifat, sy'n creu rhwystr sylweddol i ymwelwyr. Mae yna hawliau tramwy helaeth a llwybrau goddefol i'r rheiny sy'n cyrraedd ar droed, beic a cheffyl.

Mae ymchwil ar gyfer y CMDC wedi nodi 9 o gynulleidfaoedd targed nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol:-

- pobl anabl
- grwpiau lleiafrifol ethnig
- porwyr a thirfeddianwyr
- dysgwyr gydol oes
- trigolion lleol a grwpiau cymuned
- ymwelwyr addysg y tu allan i'r dosbarth
- pobl o ardaloedd difreintiedig
- pobl sy'n ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus
- pobl ifanc

a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymweld ag ardal y G&B. Mae'r rhwystrau hyn yn rhai sefydliadol, corfforol, canfyddiadol, cymdeithasol a diwylliannol, synhwyrdd ac ariannol, ond y rhwystrau mwyaf arwyddocaol yw diffyg ymwybyddiaeth o'r ardal a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig, dehongli gwael yn enwedig i grwpiau defnyddwyr gwahanol (hy gydag anabledd golwg, anabledd clyw, lleiafrifoedd ethnig etc) a'r anawsterau oherwydd cyrchiad trafnidiaeth gyhoeddus wael.

Mae'r polisïau a awgrymwyd gan y CMDC yn cynnwys camau i wella cyrchiad drwy wella a hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, ymgorffori dyluniad cynhwysol i ddarpariaeth gwybodaeth, rhaglenni allgymorth, hyfforddiant, digwyddiadau a gweithio mewn partneriaeth barhaus ac ymgynghori.

Mae Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol Bryniau Clwyd yn fwy penodol i'r AHNE ei hun.

